

Cyfoeth Naturiol Cymru

Adolygiad o'r gwasanaethau cynllunio yng nghydestun parc cenedlaethol arfaethedig yng Nghymru

Adroddiad Terfynol

Cyfeirnod: 290119-00

A | 4 Mehefin 2025



© Eglwysg-Escarpment-6 clwydianrangeanddeevaleyaonb.org.uk

Mae'r adroddiad hwn yn ystyried cyfarwyddiadau a gofynion penodol ein cleient. Nid ydyw wedi'i fwrriadu ar gyfer unrhyw drydydd parti, ac ni ddylai unrhyw drydydd parti ddibynnu arno, ac ni chymerir unrhyw gyfrifoldeb i unrhyw drydydd parti.


Rhif gwaith: 290119-00

Ove Arup & Partners Limited

4 Pierhead Street
Glannau'r Brifddinas
Caerdydd
CF10 4QP
Y Deyrnas Unedig
arup.com

Cynnwys

1.	Cyflwyniad	1
1.1	Cefndir	1
1.2	Parciau cenedlaethol yng Nghymru	1
1.3	Diben yr adroddiad hwn	3
1.4	Dull gweithredu	3
2.	Dadansoddi'r cyd-destun	5
2.1	Dogfen hyrwyddo gwasanaeth cynllunio cydnerth sy'n perfformio'n dda 2024 (Llywodraeth Cymru)	5
2.2	Cynnig Parc Cenedlaethol Newydd Cymru – Ymgynghoriad Cyhoeddus 2024 (Cyfoeth Naturiol Cymru)	7
2.3	Gwerthuso'r Opsiynau Rheoli: Grymoedd dros Newid – y Gogledd-ddwyrain 2024 (Cwmni Land Use Consultants ar ran Cyfoeth Naturiol Cymru)	9
2.4	Cyflwyno gwasanaethau cynllunio mewn tirweddau dynodedig statudol yng Nghymru yn 2012 (Cwmni Land Use Consultants ar ran Llywodraeth Cymru)	10
2.5	Ymchwil i gost darparu gwasanaeth rheoli datblygu yng Nghymru yn 2021 (Arup ar ran Llywodraeth Cymru)	13
3.	Dadansoddiad llinell sylfaen	15
3.1	Gwasanaethau cynllunio presennol	15
3.2	Statws y cynllun datblygu	18
4.	Dadansoddi'r rhanddeiliaid	24
4.1	Canlyniadau'r cyfweiliadau â rhanddeiliaid	24
4.2	Cyllid a chostau	24
4.3	Adnoddau a sgiliau	25
4.4	Effaith ar y gweithgareddau cynllunio ymlaen llaw presennol neu arfaethedig	27
4.5	Trefniadau pontio	28
4.6	Systemau digidol	29
4.7	Effeithiau dadleoli	29
4.8	Diben, canfyddiadau ac effaith ehangach dynodiad parc cenedlaethol newydd	30
4.9	Dadansoddi modelau amgen ar gyfer darparu gwasanaethau cynllunio	31
5.	Crynodeb a'r prif ganfyddiadau	39
Atodiadau		
Atodiad A – Cofnod ymgysylltu		42
Atodiad B – Cwestiynau ac awgrymiadau i randdeiliaid		45
Atodiad C – Taflen ddata		47
Atodiad D – Organogram cynllunio Parc Cenedlaethol y Twyni Deheuol		48



1. Cyflwyniad

1.1 Cefndir

Yn ei Rhaglen Lywodraethu (2021–2026), nodwyd gan Lywodraeth Cymru ei bwriad i ddynodi parc cenedlaethol newydd yn seiliedig ar Dirwedd Genedlaethol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy (a elwid gynt yn ardal o harddwch naturiol eithriadol (AHNE)).

Pe bai'n cael ei sefydlu, hwn fyddai'r pedwerydd parc cenedlaethol yng Nghymru, a'r cyntaf ers 1957.

Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yw cynghorydd statudol Llywodraeth Cymru ar dirwedd a harddwch naturiol, a'r awdurdod dynodi ar gyfer unrhyw barciau cenedlaethol a thirweddau cenedlaethol newydd. Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i CNC, fel yr awdurdod dynodi, fwrw ymlaen â rhaglen ddynodi ffurfiol i asesu'r achos dros y parc cenedlaethol newydd arfaethedig.

Mae'r ardal sy'n cael ei hasesu yn fwy na'r dirwedd genedlaethol bresennol ac yn cynnwys ardaloedd ychwanegol yng Ngwynedd, Wrecsam, Sir Ddinbych a Phowys.

Cynhaliodd CNC ymgynghoriad ar ardal ymgeisiol y parc cenedlaethol rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr 2024. Daeth yr angen am eglurder ynghylch yr effaith bosibl y byddai parc cenedlaethol, gyda'i awdurdod cynllunio ei hun, yn ei chael ar y gwasanaethau cynllunio presennol i'r amlwg fel thema allweddol yn yr ymateb gan yr awdurdodau lleol perthnasol.

Mae tîm rhaglen tirweddau dynodedig CNC wedi penodi Arup i nodi goblygiadau posibl awdurdod cynllunio parc cenedlaethol ar weithredu a chyflenwi'r gwasanaeth cynllunio ar draws awdurdodau lleol a'r cyd-bwyllgorau corfforedig o fewn ardal ymgeisiol y parc cenedlaethol.

1.2 Parciau cenedlaethol yng Nghymru

Ardaloedd o dirwedd eithriadol a reolir yw'r parciau cenedlaethol yng Nghymru. Sefydlwyd y parc cenedlaethol cyntaf ym

1951 yn dilyn llunio Deddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949. Mae tri pharc cenedlaethol yng Nghymru ar hyn o bryd, sef Parc Cenedlaethol Eryri, a ddynodwyd ym 1951, Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, a ddynodwyd ym 1952, a Bannau Brycheiniog, a ddynodwyd ym 1957¹. Mae parciau cenedlaethol yn gorchuddio mwy nag 20% o arwynebedd tir Cymru (tua 4,000 cilometr sgwâr) ac mae ganddynt boblogaeth breswyl o dros 80,000 o bobl. Maent hefyd yn cynrychioli dros £0.5 biliwn o werth ychwanegol gros Cymru (1.2% o economi Cymru).

Ceir delwedd sy'n dangos lleoliadau'r parciau cenedlaethol a'r tirweddau cenedlaethol yng Nghymru yn Ffigur 1.

Ym 1974, rhoddodd y Deddf Llywodraeth Leol gyfrifoldebau ac adnoddau newydd i awdurdodau parciau cenedlaethol, gan gynnwys dyletswyddau awdurdodau cynllunio lleol o dan bwerau dirprwyedig, fel pwyllgor o'r awdurdod lleol. O ganlyniad, cymerodd y parciau cenedlaethol gyfrifoldeb am gynnal y fframwaith datblygu gofodol ac am roi caniatâd ar gyfer datblygiadau. Cryfhodd Deddf yr Amgylchedd 1995 ddiben parciau cenedlaethol, gan amlinellu dau ddiben statudol:

- I gadw a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol y parciau cenedlaethol; a
- I hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer deall a mwynhau nodweddion arbennig (y parciau) gan y cyhoedd.

Roedd hefyd yn nodi dyletswydd statudol parciau cenedlaethol i 'feithrin lles economaidd a chymdeithasol y cymunedau sydd yn byw o fewn y parciau cenedlaethol'.

¹ <https://www.npapa.org.uk/national-parks-of-wales.html>



Figur 1 Map o barciau cenedlaethol a thirweddau cenedlaethol Cymru²

Mae Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 12) hefyd yn nodi trywydd polisi ar gyfer parciau cenedlaethol (ac ardaloedd o harddwch naturiol eithriadol). Mae hyn yn cynnwys gofynion ynghylch paratoi cynlluniau datblygu strategol. Mae ystyriaethau arbennig yn berthnasol i gynigion datblygu mawr o fewn parciau cenedlaethol, gan nodi na ddylai'r rhain ddigwydd mewn parciau cenedlaethol, ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol³.

O ran llywodraethu, mae tua hanner aelodau pob awdurdod parc cenedlaethol wedi'u penodi o'r prif awdurdodau lleol sy'n dod o dan y parc, ac mae'r gweddill wedi'u penodi gan y Senedd. Mae rhai aelodau'n cynrychioli'r cynghorau cymuned ac eraill wedi'u dewis i gynrychioli'r budd cenedlaethol.

Mae awdurdodau parciau cenedlaethol yn cael 75% o'u cyllid gan Lywodraeth Cymru, a 25% o ardoll parciau cenedlaethol ar yr awdurdodau lleol cyfansoddol (y mae cost hyn yn cael ei hadlewyrchu yn eu

Commented [JG1]: Welsh version of this map (page 2) - https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-05/ardaloedd-o-harddwch-naturiol-eithriadol-a-pharciau-cenedlaethol-2015-adroddiad_0.pdf

² <https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-34648193>

³ <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2024-07/polisi-cynllunio-cymru-rhifyn-12.pdf>
Adolygiad o'r gwasanaethau cynllunio yng nghyd-destun parc cenedlaethol arfaethedig yng Nghymru – Cyfoeth Naturiol Cymru

setliad cyllideb cyffredinol gan Lywodraeth Cymru). Gallant hefyd gynhyrchu incwm drwy amrywioi ffynonellau ychwanegol megis ffioedd ymwelwyr a gweithgareddau masnachol.

Fel yr unig awdurdod cynllunio lleol ar gyfer y parc, mae'n ofynnol i bob parc cenedlaethol hefyd gynhyrchu cynllun datblygu lleol a chynllun rheoli sy'n nodi amcanion a pholisïau strategol ar gyfer rheoli'r parc cenedlaethol.

Mae incwm a geir o ffioedd y ceisiadau cynllunio yn helpu i ariannu gwasanaethau cynllunio. Fodd bynnag, mae pryderon y gallai rhai mathau o geisiadau nad ydynt yn ennill ffioedd (cydsyniad ardal gadwraeth, cydsyniad adeilad rhestredig, cyfarwyddyd Erthygl 4) fod yn fwy tebygol mewn parc cenedlaethol, a allai ei gwneud yn fwy heriol i awdurdodau parciau cenedlaethol o ran adennill costau wrth ystyried ceisiadau cynllunio 'mawr' sydd fel arfer yn denu ffioedd mwy, a allai fod yn llai tebygol mewn parc cenedlaethol.

1.3 Diben yr adroddiad hwn

Mae'r adroddiad ffeithiol hwn wedi'i baratoi ac mae'n nodi prif ganfyddiadau'r gwaith a wnaed gan Arup i nodi goblygiadau posibl awdurdod cynllunio parc cenedlaethol ar wasanaethau cynllunio. Mae hyn yn rhan o sylfaen dystiolaeth y mae CNC yn ei pharatoi i'w helpu i werthuso'r achos dros y parc cenedlaethol newydd arfaethedig.

Mae CNC yn annibynnol, a bydd yn gwneud argymhelliad yn seiliedig ar dystiolaeth er budd pobl Cymru, gan ystyried yr holl ddeddfwriaeth berthnasol. Bydd y broses yn adlewyrchu fframwaith deddfwriaethol a pholisi Cymru drwy gymhwyso egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy gan ganolbwyntio ar waith adfer natur ac addasu i'r hinsawdd a lliniaru ar effeithiau'r hinsawdd.

Bydd y weithdrefn asesu yn penderfynu a ydyw'r dystiolaeth yn dangos bod y meini prawf statudol sy'n ymwneud â harddwch naturiol a chyfleoedd ar gyfer hamdden awyr agored yn cael eu bodloni, ac a ydyw'r ardal o arwyddocâd cenedlaethol i'r graddau y dylai dibenion y parc cenedlaethol fod yn berthnasol.

Bydd angen i CNC wneud fel a ganlyn:

- ymgyngori â chymunedau lleol ac awdurdodau lleol perthnasol
- asesu'r nodweddion daearyddol yn yr ardal
- gwirio addasrwydd yr ardal yn erbyn diffiniadau cyfreithiol o beth ddylai parc cenedlaethol fod
- pennu ffiniau delfrydol y parc newydd
- gwneud argymhellion i Weinidogion Cymru

Ar ôl cwblhau'r weithdrefn asesu, os ydyw CNC o'r farn bod dynodiad yn ddymunol ar gyfer rheoli'r ardal ar gyfer pobl Cymru (y genhedlaeth bresennol a'r dyfodol), bydd gorchymyn dynodi yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried hyn ac yn penderfynu a ddylid cadarnhau, gwrthod neu amrywio'r gorchymyn dynodi. Pe bai'n cael ei gadarnhau, byddai parc cenedlaethol newydd yn cael ei ddynodi. Rhaid i Lywodraeth Cymru wneud gorchymyn sefydlu pan fo awdurdod parc cenedlaethol newydd yn cael ei sefydlu. Cynhelir yr asesiad o fewn tymor presennol y Senedd (2021–2026).

1.4 Dull gweithredu

Cytunwyd ar gynllun prosiect ar ddechrau'r prosiect hwn, a helpodd Arup i drafod a chytuno â CNC ar gwmpas y prosiect, yr amserlenni, y trefniadau rheoli, aelodau'r grŵp llywio craidd (aelodau o grŵp cynghori technegol CNC), a'r dull ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid. Mae'r prosiect wedi'i gynnal i ganolbwyntio ar gyfres o dasgau casglu dystiolaeth a dadansoddi, fel a ganlyn:

1. Dadansoddi'r cyd-destun – yn seiliedig ar adolygiad llenyddiaeth, i gyflwyno crynodeb o'r cyd-destun perthnasol ar gyfer yr adolygiad hwn o'r gwasanaethau cynllunio.
 2. Dadansoddiad llinell sylfaen – wedi'i lywio gan gais am ddata sydd wedi ceisio casglu a phrosesu gwybodaeth gan randdeiliaid allweddol, gan gynnwys y canlynol:
 - a) Gwasanaethau cynllunio presennol⁴ (rheoli datblygu a chynllunio ymlaen llaw) ar gyfer pob awdurdod cynllunio lleol perthnasol / cyfagos y gellid effeithio arnynt (Gwynedd, Wrecsam, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Powys ac Eryri), gyda chais am ddata sy'n ystyried cyllidebau (incwm), nifer y staff a chostau sy'n gysylltiedig â gwahanol wasanaethau cynllunio, nifer y ceisiadau cynllunio (yn ôl math), a threfniadau llywodraethu.
 - b) Statws y cynllun datblygu, gan ystyried statws cynlluniau datblygu lleol ac adolygu / paratoi cynllun datblygu lleol newydd yn y dyfodol, amserlenni ar gyfer paratoi'r cynllun datblygu strategol a'r cynllun trafnidiaeth rhanbarthol.
 - c) Effeithiau dadleoli – sy'n cynnwys dadansoddiad cychwynnol o unrhyw effeithiau dadleoli posibl ar ardaloedd nad ydynt o fewn y dirwedd genedlaethol bresennol.
 3. Dadansoddi'r rhanddeiliaid – ymhellach i gytuno ar gynllun cyf-weld â rhanddeiliaid, i archwilio'r prif faterion, gyda'r canlynol:
 - a) Cyfweiliadau wedi'u targedu un-i-un â rhanddeiliaid dethol yn ystyried effeithiau posibl ar wahanol wasanaethau cynllunio, arferion gorau a'r cyfnod posibl ar gyfer pontio trefniadau.
 - b) Dadansoddi modelau amgen ar gyfer darparu gwasanaethau cynllunio, gan ystyried y canlynol:
 - awdurdod parc cenedlaethol a chanddo wasanaeth cynllunio llawn (y trefniant presennol yng Nghymru), gan gynnwys astudiaeth achos ar Barc Cenedlaethol Eryri
 - modelau gweithredu amgen, gan gynnwys astudiaethau achos ar gyfer Parc Cenedlaethol y Twyni Deheuol, a bwrdd cadwraeth Tirwedd Genedlaethol y Cotswolds
- Mae cofnod ymgysylltu â rhanddeiliaid wedi'i baratoi a'i atodi i'r adroddiad hwn, yn crynhoi cyfranogiad rhanddeiliaid (gweler Atodiad A).
- I helpu i strwythuro'r cyfweiliadau â rhanddeiliaid, defnyddiwyd cwestiynau ac awgrymiadau (gweler Atodiad B).

⁴ Nid dadansoddiad o berfformiad cymharol

Adolygiad o'r gwasanaethau cynllunio yng nghyd-destun parc cenedlaethol arfaethedig yng Nghymru –

Cyfoeth Naturiol Cymru

2. Dadansoddi'r cyd-destun

Cynhaliwyd adolygiad llenyddiaeth i helpu i ddeall ac amlygu gwybodaeth berthnasol a gwersi a ddysgwyd ar gyfer yr adolygiad o wasanaethau cynllunio yng nghyd-destun parc cenedlaethol arfaethedig yng Nghymru. Mae'r dogfennau canlynol, y cytunwyd iddynt fod yn ganolbwynt yr adolygiad llenyddiaeth gyda CNC, yn llywio'r gwaith o ddadansoddi'r cyd-destun hwn:

- Dogfen Ymgynghori – Hyrwyddo gwasanaeth cynllunio cydnerth sy'n perfformio'n dda 2024 (Llywodraeth Cymru)
- Cynnig Parc Cenedlaethol Newydd Cymru – Ymgynghoriad Cyhoeddus 2024 (Cyfoeth Naturiol Cymru)
- Gwerthuso'r Opsiynau Rheoli: Grymoedd dros Newid – y Gogledd-ddwyrain 2024 (Cwmni Land Use Consultants ar ran Cyfoeth Naturiol Cymru)
- Cyflwyno gwasanaethau cynllunio mewn tirweddau dynodedig statudol yng Nghymru yn 2012 (Cwmni Land Use Consultants ar ran Llywodraeth Cymru)
- Ymchwili i gost darparu gwasanaeth rheoli datblygu yng Nghymru 2021 (Arup ar ran Llywodraeth Cymru)

2.1 Dogfen Ymgynghori – Hyrwyddo gwasanaeth cynllunio cydnerth sy'n perfformio'n dda 2024 (Llywodraeth Cymru)

Beth yw'r ddogfen hon, a pham y mae hi'n berthnasol i'r adolygiad o'r gwasanaethau cynllunio?

Roedd y ddogfen ymgynghori⁵ yn gofyn am farn ar wella cydnerthedd a pherfformiad gwasanaethau cynllunio yng Nghymru mewn cysylltiad â'r Rhaglen Lywodraethu gyfredol (2021–2026) a diwygiadau cynllunio yng Nghymru. Yn benodol, ceisiwyd barn ar y canlynol:

- cynyddu ffioedd ceisiadau cynllunio (gan gynnwys cynnig llwybr i adennill costau yn llawn)
- mesur a monitro perfformiad awdurdodau cynllunio drwy ailfywiogi ac ailgyflwyno'r fframwaith perfformiad
- cefnogi cydnerthedd, gallu a galluogrwydd awdurdodau cynllunio lleol drwy gadw sgiliau, bwrsariau a phrentisiaethau
- gwella cydnerthedd ac adnoddau cyd-bwyllgorau corfforedig drwy wneud y canlynol:
- darparu gwasanaethau ar y cyd
- canolfannau sgiliau cynllunio
- ymestyn cyfnod adolygu cynlluniau datblygu lleol

Mae'r ddogfen ymgynghori yn amlinellu'r sail gyfreithiol ar gyfer ffioedd cynllunio, y newidiadau arfaethedig i gategoriâu ffioedd presennol, ac yn cyflwyno ffioedd ar gyfer ceisiadau pan na chodir tâl ar hyn o bryd. Mae'n pwysleisio pwysigrwydd gwasanaeth cynllunio sy'n perfformio'n dda ar gyfer cyflawni blaenoriaethau cenedlaethol a lleol yn llwyddiannus, ac mae angen darparu adnoddau priodol ar gyfer y gwasanaeth hwnnw.

Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn cael eu hadolygu gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd, a bydd manylion y canlyniad yn cael eu cyhoeddi maes o law.

Beth yw'r prif bwyntiau sy'n berthnasol i'r adolygiad o wasanaethau cynllunio yng nghyd-destun parc cenedlaethol arfaethedig yng Nghymru?

Mae'r ddogfen ymgynghori yn rhoi trosolwg cynhwysfawr o'r heriau presennol sy'n wynebu gwasanaethau cynllunio yng Nghymru, gan gynnwys pwysau sylweddol o ran cyllid a staffio. Mae'n tynnu sylw at yr angen am ragor o adnoddau, monitro perfformiad gwell, a sgiliau a chapasiti gwell o fewn awdurdodau cynllunio.

Mae'r mesurau arfaethedig yn y ddogfen yn cynnwys cynyddu ffioedd cynllunio ac ailgyflwyno'r fframwaith perfformiad. Dylid nodi bod Rebecca Evans AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio, wedi ysgrifennu at awdurdodau cynllunio lleol, Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PCAC) ac ymgynghoreion statudol ar 17 Mawrth 2025 i gadarnhau cynlluniau Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r cynnig olaf. Cadarnhaodd Rebecca Evans, *“Er mwyn gwerthuso effaith fy nghynigion presennol, a chynigion yn y dyfodol, sydd â'r nod o wella effeithiolrwydd, cydnerthedd a chapasiti gwasanaethau cynllunio, ac er mwyn sicrhau bod perfformiad yn cael ei fonitro'n effeithiol, bydd y fframwaith perfformiad yn cael ei ailgyflwyno o 1 Ebrill 2025.”*

Mae'r cynnig i gynyddu ffioedd ceisiadau cynllunio a symud tuag at adennill costau'n llawn yn ceisio helpu awdurdodau cynllunio lleol i ddarparu gwasanaethau cynllunio yng Nghymru.

Mae'r ddogfen ymgynghori hefyd yn amlinellu mesurau i gefnogi cydnerthedd, capasiti a gallu awdurdodau cynllunio drwy gadw sgiliau, bwrsariau, prentisiaethau a darparu gwasanaethau ar y cyd.

⁵ <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2024-11/dogfen-ymgynghori-hyrwyddo-gwasanaeth-cynllunio-cydnerth-syn-perfformion-dda.pdf>

Yn benodol, mae'r ddogfen ymgynghori yn trafod gwella cydnerthedd ac adnoddau awdurdodau lleol drwy gydlyn rhanbarthol drwy gyd-bwyllgorau corfforedig (lle bo cyd-bwyllgorau corfforedig Canolbarth a Gogledd Cymru yn berthnasol i ardal ymgeisiol y parc cenedlaethol arfaethedig), canolfannau sgiliau cynllunio ac ymestyn cyfnod adolygu cynlluniau datblygu lleol.

Mae'r ddogfen yn ategu'r angen i awdurdodau cynllunio fod yn wydn ac i berfformio'n dda er mwyn rheoli cymhlethdodau gwasanaethau cynllunio mewn modd effeithiol. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i'r parc cenedlaethol arfaethedig, pan fo rheolaeth a chynllunio effeithiol yn hanfodol ar gyfer ei lwyddiant. Ystyrir bod y cynnig i gynyddu ffioedd ceisiadau cynllunio a symud tuag at adennill costau'n llawn yn hanfodol ar gyfer ariannu gweithgareddau cynllunio, gan gynnwys y rheini sy'n ofynnol ar gyfer y parc cenedlaethol, gan gadw mewn cof y tensiwn neu'r angen i osgoi effeithiau andwyol ar wasanaethau presennol yr awdurdod cynllunio lleol. Mae cyllid digonol yn sicrhau bod gan yr awdurdodau cynllunio yr adnoddau y mae eu hangen i gynnal gwaith datblygu a rheoli'r parc.

Mae ailgyflwyno'r fframwaith perfformiad i fonitro a gwella perfformiad awdurdodau cynllunio yn hanfodol er mwyn sicrhau bod y parc cenedlaethol yn cael ei reoli'n effeithlon. Mae monitro perfformiad yn rheolaidd yn helpu i nodi meysydd i'w gwella ac yn sicrhau bod nodau'r parc yn cael eu cyflawni. Mae cynnal cydnerthedd, capasiti a gallu awdurdodau cynllunio trwy gadw sgiliau, bwrsariau, prentisiaethau a darparu gwasanaethau ar y cyd yn hanfodol ar gyfer meithrin gweithlu medrus i reoli'r parc cenedlaethol. Mae hyn yn sicrhau bod gan y parc yr arbenigedd y mae ei angen ar gyfer rheoli mewn modd effeithiol.

Mae'r ddogfen yn tynnu sylw at bwysigrwydd cydweithio rhwng gwahanol adrannau a rhanddeiliaid i gyflawni amcanion y prosiect. Mae hyn yn berthnasol i'r parc cenedlaethol, pan fo cydweithio rhwng awdurdodau cynllunio, cymunedau lleol, a rhanddeiliaid eraill yn hanfodol ar gyfer ei lwyddiant.

2.2 Cynnig Parc Cenedlaethol Newydd Cymru – Ymgynghoriad Cyhoeddus 2024 (Cyfoeth Naturiol Cymru)

Beth yw'r ddogfen hon, a pham y mae'n berthnasol i'r adolygiad o'r gwasanaethau cynllunio?

Y bwriad gyda'r ymgynghoriad⁶ oedd rhoi cyfle i nifer eang o randdeiliaid gymryd rhan a chael trafodaethau ar sail gwybodaeth. Darparwyd gwybodaeth i gyfranogwyr, gan gynnwys crynodeb byr o'r holl dystiolaeth a geir hyd yma mewn adroddiad cryno o'r dystiolaeth⁷.

Darparodd Rhan 1 wybodaeth am barciau cenedlaethol. Amlinellodd Rhan 2 y dystiolaeth a gasglwyd i lywio'r weithdrefn dynodi statudol. Crynhodd Rhan 3 y gwaith ychwanegol a wneir i gynnal y weithdrefn.

Mae'r ddogfen hon yn nodi diben a dyletswyddau, trefniadau llywodraethu ac ariannu parciau cenedlaethol, ac yn egluro'r gwahaniaethau i ddynodiad tirwedd genedlaethol. Cyflwynodd hefyd y cwmpas daearyddol ar gyfer ymchwiliad pellach yn ogystal â gwerthusiad o'r opsiynau rheoli, gydag asesiad i lywio'r ymarfer ymgynghori.

Roedd yr wybodaeth ymgynghori hefyd yn amlinellu'r broses statudol y mae'n rhaid ei dilyn wrth benderfynu ar yr achos dros barc cenedlaethol newydd, ac agweddau penodol y weithdrefn hon, gan gynnwys y meini prawf statudol y mae angen eu bodloni, a bod ymgynghori a chyfleoedd ar gyfer addasiadau wedi'u cynnwys yn y broses. Ar ôl cwblhau'r weithdrefn asesu, os ydyw Cyfoeth Naturiol Cymru o'r farn bod y dynodiad yn ddymunol ar gyfer rheoli'r ardal ar gyfer pobl Cymru, y cam nesaf fyddai cyflwyno gorchymyn dynodi i Lywodraeth Cymru gyda'r opsiynau i gadarnhau, gwrthod neu amrywio. Pe

⁶ <https://ymgyngghori.cyfoethnaturiol.cymru/north-east-gogledd-ddwyrain/wales-national-park-proposal-publicconsultation/#:-:text=The%20public%20consultation%20period%20will,National%20Park%20Proposal%20information%20page.>

⁷ https://ymgyngghori.cyfoethnaturiol.cymru/north-east-gogledd-ddwyrain/cynnig-parc-cenedlaethol-cymru-ymgyngghori-2024/user_uploads/dl-programme_evidence-summary-final-welsh.pdf

bai'n cael ei gadarnhau, byddai parc cenedlaethol newydd yn cael ei ddynodi. Rhaid i Lywodraeth Cymru wneud gorchymyn sefydlu pan fo awdurdod parc cenedlaethol newydd yn cael ei sefydlu.

Fel rhan o'r adolygiad hwn o'r gwasanaethau cynllunio yng nghyd-destun parc cenedlaethol arfaethedig yng Nghymru, mae CNC wedi rhannu rhai ymatebion ymgynghori perthnasol ag Arup i'w hystyried, tra bod rhai rhanddeiliaid hefyd wedi anfon eu hymatebion yn uniongyrchol at Arup mewn cysylltiad â'r ymarfer ymgysylltu â rhanddeiliaid fel rhan o'i adolygiad.

Beth yw'r prif bwyntiau sy'n berthnasol i'r adolygiad o wasanaethau cynllunio yng nghyd-destun parc cenedlaethol arfaethedig yng Nghymru?

Mae'r wybodaeth ymgynghori yn darparu llinell sylfaen a chyd-destun defnyddiol ar gyfer parc cenedlaethol newydd posibl. Mae'n helpu i ddiffinio'r ardal ymgeisiol y gall gwasanaethau cynllunio newydd posibl weithredu ynddi, ac yn nodi'r heriau a'r cyfleoedd o ran adnoddau a rheoli gwasanaethau cynllunio. Mae'r adroddiad cryno o'r dystiolaeth hefyd yn amlinellu prif agweddau'r cynnig, megis y dyletswyddau, y diben cyfreithiol, y trefniadau llywodraethu a'r ffynonellau ariannu ar gyfer yr awdurdod parc cenedlaethol arfaethedig, ac yn darparu cyd-destun ar gyfer yr effeithiau posibl ar yr awdurdodau lleol cyfansoddol.

Yn benodol, mae'n debygol y bydd gan y cyllid, y trefniadau llywodraethu a dyletswyddau effaith fwy ar yr awdurdodau lleol cyfansoddol. Mae'n nodi, er bod 75% o'r cyllid yn dod gan Lywodraeth Cymru, bod y 25% sy'n weddill yn cael ei ddarparu gan ardoll ar yr awdurdodau lleol cyfansoddol y mae cost hyn yn cael ei hadlewyrchu yn eu setliad cyllideb cyffredinol gan Lywodraeth Cymru. Byddai'r awdurdod parc cenedlaethol arfaethedig hefyd yn rheoli ei swyddogaethau cynllunio ei hun, gan gynnwys y gofyniad i lunio cynllun datblygu lleol newydd. Bydd gan y cyfuniad o ffactorau oblygiadau ar gyfer cyllid, adnoddau ac ardaloedd ffiniau presennol awdurdodau lleol, a bydd hefyd yn effeithio ar eu gwasanaethau cynllunio presennol, gan gynnwys paratoi cynlluniau datblygu lleol, a'u fframweithiau cyfreithiol.

Mae crynodeb o'r prif themâu a ddaeth i'r amlwg o'r ymatebion i'r ymgynghoriad wedi'u hamlinellu isod.

Effaith ar wasanaethau cynllunio

Roedd ymatebwyr yn pryderu am yr effaith ar y gwasanaethau cynllunio, o safbwynt polisi a rheoli datblygu. Mae awdurdodau lleol wedi ceisio eglurder ynghylch goblygiadau posibl awdurdod cynllunio parc cenedlaethol newydd ar gyfer y gwasanaethau presennol yn yr awdurdodau cynllunio lleol sy'n bodoli eisoes.

O ystyried nifer yr awdurdodau cynllunio lleol sy'n bodoli eisoes o fewn ffiniau'r parc cenedlaethol, tynnodd rhai sylw at broblemau'n ymwneud â darparu gwasanaethau rheoli datblygu a gorfodi gan holi sut y byddai dull cyson yn cael ei gymryd wrth gymhwyso gwahanol bolisiau'r cynllun datblygu lleol. Nodwyd gan lawer o ymatebwyr ei bod yn anodd deall y goblygiadau o ystyried yr wybodaeth gyfyngedig a ddarparwyd hyd yn hyn am safbwynt y rheolwyr a'r awdurdod cynllunio sy'n gysylltiedig â'r cynigion. Ystyriwyd bod yr effeithiau ar gynlluniau datblygu lleol yn rhy ansicr, ac roedd llawer o awdurdodau'n poeni, unwaith y byddai'r dynodiad ar waith, y byddai'n sbarduno adolygiad ar unwaith o'u cynlluniau datblygu lleol eu hunain, a byddai'r costau a'r oedi cysylltiedig yn cael eu hysgwyddo gan eu hardaloedd awdurdod lleol.

Tynnodd rhai sylw hefyd at y ffaith y gallai creu awdurdod cynllunio lleol newydd danseilio ymdrechion recriwtio a gwneud recriwtio'n anoddach, o ystyried y byddent yn cystadlu â chyflogwr newydd, a bod carfan gyfyngedig o gynllunwyr sydd â'r sgiliau a'r profiad perthnasol yng Nghymru.

Mae datblygwyr wedi tynnu sylw at yr angen am wasanaeth cynllunio ag adnoddau da pe bai parc cenedlaethol yn cael ei sefydlu.

Cyllid

Roedd gan sawl ymatebydd bryderon ynghylch effaith parc cenedlaethol newydd ar gyllid y cyngor, o ystyried bod cyfran o gyllid y parciau cenedlaethol yn dod gan yr awdurdodau lleol cyfansoddol. Roeddent yn pryderu am sefyllfa bresennol llawer o awdurdodau o ran eu cyllidebau a'r effaith bellach pe byddai

Adolygiad o'r gwasanaethau cynllunio yng nghyd-destun parc cenedlaethol arfaethedig yng Nghymru –

Cyfoeth Naturiol Cymru

290119-00 | A | 4 Mehefin 2025 | Adroddiad

Terfynol Ove Arup & Partners Limited

Tudalen 8

angen defnyddio cronfeydd arian i gyfrannu at hyn. Nodwyd gan rai, o ystyried sefyllfa ariannol llywodraeth leol, nad yw cymryd rhan yn y gwaith hwn yn flaenoriaeth gan fod angen arian ar frys ar feysydd eraill. Roedd rhai o'r farn hefyd nad yw Llywodraeth Cymru wedi rhoi unrhyw sicrwydd ynghylch trefniadau ariannu yn y dyfodol, ac mae'r wybodaeth hon yn hanfodol i nifer o gynghorau os byddant yn cadarnhau eu cefnogaeth i'r cynnig, er gwaetha'r ffaith bod y Prif Weinidog wedi datgan yng nghyfarfod llawn y Senedd a gynhaliwyd ar 19 Tachwedd 2024 fod, "Llywodraeth Cymru wedi gwneud ymrwymiad na fyddai cyllid ar gyfer unrhyw barc cenedlaethol newydd yn cael ei gymryd oddi wrth dirweddau dynodedig presennol."

Diben a ffiniau

Thema arall a gododd oedd yr ansicrwydd ynghylch y ffiniau arfaethedig a pham y cafodd rhai ardaloedd eu cynnwys ai peidio, a ble mae ffiniau tirwedd arwyddocaol mewn gwirionedd, gan fod llawer yn ystyried bod ardaloedd ehangach yr un mor hardd. Holodd eraill am werth dynodiadau'r parciau cenedlaethol ac ai hwn oedd y mecanwaith mwyaf priodol ar gyfer cyflawni'r dyheadau a nodwyd. Mynegodd rhai ymatebwyr fod y dirwedd genedlaethol bresennol eisoes yn gwneud gwaith effeithiol, ac y gallai ymestyn y ffiniau presennol fod yn fecanwaith pragmatig yn hytrach na sefydlu corff cyhoeddus newydd.

Cydluniant cymunedol

Mynegwyd pryder ynghylch y ffaith bod y ffin arfaethedig yn torri trwy ran o gymuned, ac a fyddai hyn yn arwain at raniad rhwng y trigolion hynny sy'n byw y tu mewn i ardal y parc cenedlaethol arfaethedig ac y tu allan iddi. Nodwyd bod canfyddiad cyhoeddus eisoes yn bodoli, y gallai ffin wahanu cymunedau'n artifisial.

Cymunedau gwledig

Tynnodd rhanddeiliaid sylw at y ffaith bod angen ystyried cymunedau gwledig fel rhan o'r cynnig hwn, o ystyried y farn y byddai parc cenedlaethol newydd yn rhwystro dulliau rheoli hyblyg sy'n cefnogi mentrau a thwf lleol. Roedd pryder hefyd y byddai awdurdod parc cenedlaethol ymhell o'r cymunedau lleol y mae'n bwriadu eu cefnogi.

Effeithiau dadleoli

Roedd rhai ymatebwyr yn pryderu am yr effaith ar eu hawdurdod lleol lle mae rhan o ardal ymgeisiol y parc cenedlaethol o fewn eu hawdurdodaeth. Tynnwyd sylw at y ffaith ei bod yn debygol y byddai'r galw am dai a chyflogaeth yn cynyddu'n sylweddol y tu allan i'r ardal arfaethedig, ac y byddai angen diweddaru'r cynllun datblygu lleol i fynd i'r afael â'r pwysau hyn.

2.3 Gwerthuso'r Opsiynau Rheoli: Grymoedd dros Newid – y Gogledd-ddwyrain 2024 (Cwmni Land Use Consultants ar ran Cyfoeth Naturiol Cymru)

Beth yw'r ddogfen hon, a pham y mae'n berthnasol i'r adolygiad o'r gwasanaethau cynllunio?

Diben y ddogfen hon⁸ oedd cynnal adolygiad o'r opsiynau rheoli sydd ar gael, er mwyn deall ai dynodi parc cenedlaethol yw'r mecanwaith gorau ar gyfer rheoli'r grymoedd dros newid (materion a chyfleoedd) sy'n effeithio ar yr ardal chwilio, gan adeiladu ar y ddarpariaeth o wasanaethau cynllunio cynharach yn adroddiad yr Adolygiad o Dirweddau Dynodedig yng Nghymru 2012 (Cwmni Land Use Consultants ar ran Llywodraeth Cymru) (gweler 2.4 isod). Mae'r grymoedd dros newid yn cwmpasu newid yn yr hinsawdd, datblygiad adeiledig a seilwaith, rheoli tir, amaethyddiaeth a'r amgylchedd naturiol, pobl, cymunedau a rheoli treftadaeth ddiwylliannol a hamdden, twristiaeth a hygyrchedd. Rhestrir trosolwg o'r pum opsiwn rheoli isod:

1. Busnes fel arfer: mae hyn yn adlewyrchu parhad o ran rheoli'r dirwedd genedlaethol a rheoli gweddill yr ardal chwilio fel y mae ar hyn o bryd.

⁸ https://ymgyngori.cyfoethnaturiol.cymru/north-east-gogledd-ddwyrain/wales-national-park-proposal-public-consultation/user_uploads/lucmanagement-options-report---final-report-sept2024-1.pdf

- 2. Parc Rhanbarthol y Cymoedd: sefydlwyd y bartneriaeth hon i helpu'r Cymoedd i ffynnu'n amgylcheddol, yn gymdeithasol ac yn economaidd, gan gymryd rôl alluogi.
- 3. Parc Rhanbarthol De'r Penwynion: roedd yr ardal yn ddarpar barc cenedlaethol blaenorol, ac fe'i datblygwyd fel parc rhanbarthol trwy ddull partneriaeth.
- 4. Bwrdd cadwraeth: dull rheoli ar gyfer tirwedd genedlaethol a gymhwysir ar hyn o bryd ar gyfer tirweddau cenedlaethol Bryniau Chiltern a'r Cotswolds (ardaloedd o harddwch naturiol eithriadol gynt).
- 5. Parc cenedlaethol: gan adlewyrchu cwmbras disgwylidig parc cenedlaethol yn y dyfodol, gan ystyried yr Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Adolygwyd pob opsiwn rheoli yn erbyn y swyddogaethau canlynol:

- cyd-destun, cylch gwaith a diben
- llywodraethu ac aelodaeth• cyllid craidd
- cynllunio

Roedd gwerthusiad o'r pum opsiwn rheoli wedi'u cymharu yn erbyn y swyddogaethau canlynol:

- graddfa dylanwad
- sail statudol neu anstatudol
- cynllunio gwaith rheoli
- cynllunio ymlaen llaw a rheoli datblygu
- cyllid

Beth yw'r prif bwyntiau sy'n berthnasol i'r adolygiad o wasanaethau cynllunio yng nghyd-destun parc cenedlaethol arfaethedig yng Nghymru?

Mae'r gwerthusiad yn amlinellu'r ffaith bod gan ddynodiadau parciau cenedlaethol sail statudol, a adlewyrchir drwy bolisi cynllunio cenedlaethol a lleol, ac mae parc cenedlaethol, megis awdurdod lleol, yn amlinellu ei bolisi cynllunio ei hun drwy gynllun datblygu lleol. Mae pob cynllun datblygu lleol yn ceisio meithrin llesiant economaidd a chymdeithasol cymunedau lleol, ochr yn ochr â gwarchod tirwedd, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol er mwyn cyflawni datblygiad cynaliadwy.

Fodd bynnag, mae cynllun datblygu lleol parc cenedlaethol yn fframio buddiannau economaidd, llesiant cymdeithasol a chymunedau lleol o fewn cynllun sy'n rhoi pwyslais penodol ar weithio gyda'r dirwedd, y bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol yr ardal, eu cefnogi a'u gwella (lle bo modd). Mae gan awdurdodau parciau cenedlaethol hefyd ddyletswydd i feithrin llesiant economaidd a chymdeithasol cymunedau lleol o fewn y parc cenedlaethol, yn rhinwedd darpariaethau Deddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949. Mae hynny'n cynnwys yr angen i gydweithio ag awdurdodau lleol a chyrrff cyhoeddus y mae eu swyddogaethau'n cynnwys hyrwyddo datblygiad economaidd neu gymdeithasol o fewn ardal y parc cenedlaethol.

Gall opsiynau ar gyfer darparu'r gwasanaeth rheoli datblygu o fewn parc cenedlaethol amrywio o ran gwneud penderfyniadau, gyda phenderfyniadau'n cael eu gwneud naill ai o fewn yr awdurdod parc cenedlaethol, neu'n cael eu dirprwyo i'r awdurdod lleol.

Amlinellir hefyd y gwahaniaeth rhwng tirweddau cenedlaethol a pharciau cenedlaethol mewn perthynas â rheoli datblygu. Nid oes gan dirweddau cenedlaethol bwerau rheoli datblygu yn y DU. Yn gyffredinol, mae parciau cenedlaethol yn y DU yn gwneud hynny, er bod Parc Cenedlaethol y Twyni Deheuol yn un eithriad amlwg, pan fo'r swyddogaeth rheoli datblygu wedi'i dirprwyo'n rhannol yn ôl i'r awdurdodau lleol cyfansoddol mewn rhai achosion (o ddewis) ac mae'r parc cenedlaethol yn arfer ei bwerau i alw i mewn yn effeithiol am geisiadau lle y mae'n ystyried mai ef a ddylai fod yn gwneud y penderfyniadau. Yn yr un modd, ym Mharc Cenedlaethol y Cairngorms, gwneir penderfyniadau rheoli datblygu gan yr awdurdodau

lleol perthnasol, ac mae gan y parc cenedlaethol bwerau galw i mewn ar geisiadau cynllunio o arwyddocâd cyffredinol i'r parc cenedlaethol.

Gan adlewyrchu egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy a'r pum ffordd o weithio a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, awgrymwyd bod fframwaith statudol dynodiad parc cenedlaethol neu greu tirwedd genedlaethol estynedig newydd ar draws yr ardal chwilio yn darparu'r fframwaith integreiddio cryfaf a'r diogelwch mwyaf.

Fodd bynnag, cydnabuwyd y bydd dynodiad parc cenedlaethol yn dod â phwysau a heriau, ynghyd â chyfleoedd newydd i'r ardal, ond hefyd yn darparu mecanweithiau i fynd i'r afael â'r rhain (megis y gofyniad i greu cynllun datblygu lleol i gyflawni cynllun rheoli'r parc cenedlaethol).

2.4 Cyflwyno gwasanaethau cynllunio mewn tirweddau dynodedig statudol yng Nghymru yn 2012 (Cwmni Land Use Consultants ar ran Llywodraeth Cymru)

Beth yw'r ddogfen hon, a pham y mae'n berthnasol i'r adolygiad o'r gwasanaethau cynllunio?

Darparodd yr adroddiad⁹ astudiaeth gymharol yn asesu effeithiolrwydd gwasanaethau cynllunio a ddarperir yng nghyd-destun tirweddau dynodedig statudol (ardaloedd o harddwch naturiol eithriadol) a pharciau cenedlaethol. Roedd hefyd yn darparu crynodeb lefel uchel o ddibenion statudol a statws y ddau fecanwaith o 2012 ymlaen.

Er ei fod wedi dyddio, mae'r adroddiad yn dal i gynnig cyd-destun defnyddiol i'r strwythur a'r prif wahaniaethau rhwng awdurdodau parciau cenedlaethol ac ardaloedd o harddwch naturiol eithriadol (tirweddau cenedlaethol bellach) gan gynnwys rolau staff, y cyfrifoldebau sydd gan bob un ohonynt, a'r adnoddau a ddarperir i gyflawni eu dyletswyddau priodol.

I grynhoi, awgrymodd yr adroddiad fod gan ardaloedd o harddwch naturiol eithriadol nifer cyfyngedig o staff a chyfrifoldebau cyfyngedig, tra bod awdurdodau parciau cenedlaethol yn ymgymryd â'u swyddogaethau cynllunio eu hunain, a chyfrifoldebau eraill, sy'n gofyn am lefelau uwch o adnoddau.

Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar ddeall y gwahanol fodelau cynllunio ar draws tirweddau dynodedig statudol yn y DU, gan gynnwys disgrifiadau o wahanol fodelau ar bob lefel. Mae'r adroddiad yn cymharu gwahanol fodelau gwasanaethau cynllunio yng Nghymru, Lloegr a'r Alban.

Roedd y modelau cyflawni cynllunio a archwiliwyd yn cynnwys y canlynol:

- Awdurdodau parciau cenedlaethol sy'n meddu ar bwerau cynllunio llawn (rheoli datblygu a pholisi): y tri awdurdod parc cenedlaethol yng Nghymru
- Awdurdodau parciau cenedlaethol sy'n meddu ar bwerau cynllunio a rennir: Parc Cenedlaethol y Twyni Deheuol yn Lloegr a Pharc Cenedlaethol Cairngorms yn yr Alban
- Ardaloedd o harddwch naturiol eithriadol â byrddau cadwraeth: ardaloedd o harddwch naturiol eithriadol y Cotswolds a Bryniau Chiltern yn Lloegr lle mae pwerau cynllunio yn nwylo'r awdurdodau lleol cyfansoddol fel sy'n wir am yr holl fodelau eraill isod
- Ardaloedd o harddwch naturiol eithriadol â chyd-bwyllgorau cynghori: y pum AHNE yng Nghymru

⁹ <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-10/darparu-gwasanaethau-cynllunio-mewn-tirweddau-dynodedig.pdf>

- Ardaloedd o harddwch cenedlaethol â strategaethau rheoli wedi'u mabwysiadu fel canllawiau cynllunio atodol: Cyngor Dumfries a Galloway yn yr Alban, sydd â thair ardal o harddwch cenedlaethol, pob un â'i strategaeth reoli ei hun
- Ardaloedd o harddwch cenedlaethol heb strategaethau rheoli: Cyngor Gororau'r Alban, sydd â dwy ardal o harddwch cenedlaethol heb strategaethau rheoli

Fel rhan o'r gwaith hwn, adolygodd Land Use Consultants (LUC) yr holl wybodaeth berthnasol ar-lein gan gyf-weld â'r awdurdod parc cenedlaethol perthnasol, yr AHNE, yr ardaloedd o harddwch cenedlaethol a swyddogion cynllunio i gasglu data ansoddol a thystiolaeth ynghylch y strwythurau sefydliadol, trefniadau llywodraethu, rheoli prosesau ar gyfer cynhyrchu cynllun datblygu a rheoli datblygu, yn ogystal â chyfrifoldebau dros wneud penderfyniadau.

Roedd y rhwystrau i gyflawni gwaith cynllunio effeithiol fel y'u nodwyd yn yr adroddiad yn cynnwys canllawiau polisi cyfyngedig ar faterion yn ymwneud â thirwedd, canfyddiad (negyddol) o gynllunio mewn ardaloedd o harddwch naturiol eithriadol a pharciau cenedlaethol, rhannu cyfrifoldebau rhwng awdurdodau parciau cenedlaethol ac ardaloedd o harddwch naturiol eithriadol a'u hawdurdodau cynllunio lleol cyfansoddol, anghysondeb mewn rheoli datblygu, llywodraethu a monitro perfformiad.

Cyflwynodd yr adroddiad hefyd ddadansoddiad cymharol o wasanaethau cynllunio a chanlyniadau mewn tirweddau dynodedig statudol ledled Cymru. Cynhaliwyd asesiad o sut mae swyddogaethau cynllunio yn cael eu cyflawni ar draws tirweddau dynodedig statudol Cymru.

Fel y nodir uchod, nodwyd yn yr adroddiad ganfyddiadau o gynllunio mewn ardaloedd o harddwch naturiol eithriadol a pharciau cenedlaethol. I grynhoi, nodwyd yn yr adroddiad bod canfyddiad cryf ymhlith cymunedau lleol a busnesau bod cynllunio o fewn ardaloedd o harddwch naturiol eithriadol a pharciau cenedlaethol yn rhwystr rhag sicrhau cynaliadwydd busnesau lleol dros yr hirdymor, gan fygwth economi a chymunedau'r tirweddau dynodedig hyn, trwy bolisi gwrth-ddatblygu neu safbwynt gwneud penderfyniadau. Roedd y rhanddeiliaid dan sylw o'r farn bod gormod o bwyslais ar gadwraeth wrth wneud penderfyniadau ar geisiadau yn yr ardaloedd hyn, heb ddigon o bwyslais ar anghenion economaidd-gymdeithasol y bobl sy'n byw ac yn gweithio yno. Roedd y canfyddiad hwn yn arbennig o gryf mewn parciau cenedlaethol.

Roedd barn nad yw'r system gynllunio yn ddigon hyblyg, yn enwedig ar gyfer datblygiadau gwledig ar raddfa fach. Gwelwyd y diffyg hyblygrwydd hwn fel rhwystr i gyflawni datblygiad cynaliadwy sy'n cydbwyso anghenion economaidd, cymunedol ac amgylcheddol. Roedd canfyddiad nad oes digon o bobl leol mewn rhai awdurdodau parciau cenedlaethol hefyd, sy'n golygu bod penderfyniadau cynllunio yn cael eu gwneud gan bobl heb unrhyw gysylltiad uniongyrchol ag ardal y parc. Ystyriwyd bod diffyg cynrychiolaeth leol yn rhwystr i gyflawni cynllunio effeithiol.

Cytunodd rhanddeiliaid fod diffyg gorfodi yn erbyn torri rheolau cynllunio a oedd yn gwaethygu'r ymdeimlad o anghysondeb. Ystyriwyd bod hyn yn tanseilio hygrededd y system gynllunio.

Pwysleisiodd y ddogfen hefyd yr angen am fframwaith cynllunio cryf a chyson, gweithio mewn partneriaeth, a phwysigrwydd gwarchod a gwella tirweddau arbennig parciau cenedlaethol ac ardaloedd o harddwch naturiol eithriadol gan sicrhau y gall cymunedau hyfyw a busnesau lleol ffynnu.

Beth yw'r prif bwyntiau sy'n berthnasol i'r adolygiad o wasanaethau cynllunio yng nghyd-destun parc cenedlaethol arfaethedig yng Nghymru?

Mae'r adroddiad yn cynnig safbwynt gwerthfawr ar ganfyddiadau o gynllunio mewn parciau cenedlaethol ac ardaloedd o harddwch naturiol eithriadol, gan awgrymu y gallai dynodiad parc cenedlaethol arwain at lai o ddatblygu a gwella'r warchodaeth o'r dirwedd a'i nodweddion.

Mae'r adroddiad hefyd yn crynhoi'r gwahanol opsiynau ar gyfer trefniadau llywodraethu, ariannu ac adnoddau, yn ogystal â chyfleoedd a heriau sy'n gysylltiedig â phob opsiwn. Cefnogir pob model cyflawni gyda manylion ac esboniad sylweddol o'r prif agweddau ar y trefniant ar gyfer gwahanol awdurdodau lleol, gan gynnwys cyfrifoldebau allweddol a gwybodaeth am y cydberthnasau ag awdurdodau lleol cyfansoddol.

Mae'r prif ganfyddiadau canlynol yn berthnasol i wasanaethau cynllunio mewn cysylltiad â pharc cenedlaethol newydd arfaethedig:

- gwybodaeth well am dirweddau ac offer tirweddau: dylai polisi cenedlaethol gefnogi a hyrwyddo gwaith cynllunio tirwedd cadarn a defnyddio asesiadau o gymeriad y dirwedd fel tystiolaeth bwysig i lywio penderfyniadau ynghylch datblygu
- fframwaith polisi gwell ar y lefel leol: mae gwerth cynllunio i ffiniau tirweddau dynodedig statudol wedi'i nodi drwy'r ymchwil hon, er mwyn cyflawni dibenion dynodiad (fel y'i dangosir gan gynlluniau lleol parciau cenedlaethol), ond mae'r fframwaith polisi yn wannach ar gyfer ardaloedd o harddwch naturiol eithriadol; mae canllawiau cynllunio atodol yn ddefnyddiol wrth lywio'r broses o wneud penderfyniadau a sefydlu sylfaen dystiolaeth gadarn
- canfyddiad gwell o gynllunio mewn tirweddau dynodedig statudol: mynd i'r afael â'r canfyddiad bod cynllunio o fewn tirweddau dynodedig statudol yn rhwystr i ddatblygiad cymunedau a busnesau; mae nifer o weithgareddau wedi'u targedu a all helpu i oresgyn y canfyddiad hwn, megis llunio strategaethau datblygu cynaliadwy ar gyfer tirweddau dynodedig statudol unigol a datblygu dulliau cydweithredol i gynnwys cymunedau lleol yn y broses o gynllunio dyfodol eu hardal
- gweithio mewn partneriaeth rhwng swyddogaethau cynllunio ac economaidd-gymdeithasol awdurdodau lleol: oherwydd y rhanriad rhwng swyddogaethau cynllunio o fewn yr awdurdod parc cenedlaethol a swyddogaethau economaidd-gymdeithasol eu hawdurdodau lleol cyfansoddol, mae gweithio mewn partneriaeth a chael dealltwriaeth a pharch cydfuddiannol rhyngddynt yn hanfodol; mae'r un peth yn berthnasol i ardaloedd o harddwch naturiol eithriadol; mae hyn yn awgrymu y dylid archwilio pob cyfle i gydweithio, gan gysylltu cynllunio â chyfrifoldebau economaidd-gymdeithasol, a rhannu adnoddau staff fel y gellir cyflogi staff arbenigol
- dod â chysondeb i'r broses o reoli datblygu: nodwyd gan yr astudiaeth fod pryder cyffredinol ynghylch anghysondeb o ran penderfyniadau cynllunio, sy'n ymwneud â phob awdurdod cynllunio lleol, ond yn enwedig y rheini sydd â chanran uchel o geisiadau gwledig (fel mewn parciau cenedlaethol ac ardaloedd o harddwch naturiol eithriadol) sy'n tueddu i fod yn unigryw; bydd fframwaith cynllunio cyson, cyngor arbenigol, a hyfforddiant staff cyson o gymorth gyda hyn, ynghyd â nifer o fecanweithiau eraill
- llywodraethu: trwy ymgynghori â rhanddeiliaid, amlygwyd nad oes digon o bobl o'r gymuned leol ar rai awdurdodau parciau cenedlaethol, sy'n golygu y gall penderfyniadau cynllunio gael eu gwneud gan bobl heb unrhyw gysylltiad uniongyrchol ag ardal y parc; yn yr un modd, nodwyd nad oedd llawer o gysondeb o ran strwythur a llywodraethu cyd-bwyllgorau cynghori'r ardaloedd o harddwch naturiol eithriadol, ac felly awgrymwyd y dylid dod â mwy o gysondeb i'r pwyllgorau hyn
- monitro perfformiad: ar y pryd, amlygwyd bod adrodd cenedlaethol cyfyngedig ar berfformiad cynllunio o fewn y tirweddau dynodedig statudol ac awgrymwyd y dylid mynd i'r afael â hyn er mwyn sicrhau bod unrhyw feirniadaeth o gynllunio mewn parciau cenedlaethol ac ardaloedd o harddwch naturiol eithriadol ar sail ffeithiau; awgrymwyd nifer o ddangosyddion monitro i gynorthwyo â hyn

2.5 Ymchwil i gost darparu gwasanaeth rheoli datblygu yng Nghymru 2021 (Arup ar ran Llywodraeth Cymru)

Beth yw'r ddogfen hon, a pham y mae hi'n berthnasol i'r adolygiad o'r gwasanaethau cynllunio?

Rhoddodd yr adroddiad¹⁰ ddadansoddiad cynhwysfawr o'r costau sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau rheoli datblygu yng Nghymru, a helpodd i lywio ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar *'hyrwyddo gwasanaeth cynllunio cydnerth sy'n perfformio'n dda'*. Comisiynwyd yr ymchwil gan Lywodraeth Cymru

¹⁰ https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-07/ymchwil-i-mewn-i-gost-darparu-gwasanaeth-rheoli-datblygu-yng-nghymru_0.pdf
Adolygiad o'r gwasanaethau cynllunio yng nghyd-destun parc cenedlaethol arfaethedig yng Nghymru – Cyfoeth Naturiol Cymru

ym mis Hydref 2019, a'i nod oedd llywio gwelliannau posibl i ffioedd cynllunio yng Nghymru. Roedd prif amcanion yr ymchwil yn cynnwys fel a ganlyn:

- darparu diffiniad eang o adennill costau'n llawn yng nghyd-destun darparu gwasanaeth rheoli datblygu yng Nghymru
- modelu adennill costau'n llawn mewn amrywiaeth o senarios posibl
- ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol, fel Cymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru, wrth ddiffinio adennill costau'n llawn a phrofi senarios enghreifftiol

Roedd yr ymchwil yn cynnwys casglu a dadansoddi data i amcangyfrif yr incwm a geir o ffioedd a chostau cyffredinol ar draws adrannau cynllunio yng Nghymru. Cyflwynodd newidiadau posibl y byddai eu hangen i'r ffioedd cynllunio ar gyfer awdurdodau cynllunio lleol yng Nghymru er mwyn adennill costau'n llawn. Archwiliodd yr adroddiad hefyd o ran sut olwg fyddai ar amserlen ffioedd cynllunio ddiwygiedig pe bai'r rheoliadau ffioedd cynllunio presennol yn cael eu symleiddio.

Amlinellodd y ddogfen sawl senario ar gyfer diwygio ffioedd cynllunio posibl:

• **Senario 0: Busnes fel arfer**

Yn cynrychioli'r strwythur ffioedd cyfredol ar gyfer ceisiadau cynllunio yng Nghymru, gan wasanaethu fel llinell sylfaen ar gyfer deall y sefyllfa bresennol cyn archwilio newidiadau posibl. Mae'n cynnwys 56 o gateoriau ymgeisio gyda ffioedd sefydlog ac amrywiol penodol, sy'n cynnwys croes-gymorthdaliadau rhwng gwahanol gateoriau, gan arwain at anghysondebau wrth adennill costau.

Mae'r senario'n tynnu sylw at y ffaith bod y costau a ysgwyddir gan wasanaethau rheoli datblygu yng Nghymru ar hyn o bryd yn fwy na'r incwm a geir o ffioedd, sy'n dangos nad yw'r strwythur ffioedd presennol yn adennill costau'n llawn. Yn ogystal, mae'r strwythur ffioedd presennol yn gymhleth, gyda llawer o gafeatau a manylion penodol, gan wneud y broses gynllunio yn llai hygyrch ac effeithlon.

• **Senario 1: Adennill costau**

Yn modelu'r newidiadau y mae eu hangen i'r ffioedd cynllunio ar gyfer awdurdodau cynllunio lleol yng Nghymru er mwyn adennill costau'n llawn ar sail cais wrth gais, gan ddod â'r croes-gymorthdaliadau presennol rhwng gwahanol gateoriau'r ceisiadau i ben.

Mae'r senario hwn yn tynnu sylw at yr angen am gynnydd sylweddol mewn ffioedd cynllunio ar draws bron pob categori ffioedd presennol, yn enwedig o ran ceisiadau bach. Er enghraifft, byddai angen i geisiadau gan ddeiliaid tai gynyddu o ffi sefydlog o £190 i ffi o £475, sef cynnydd o 150%. Mae'r model hefyd yn ystyried cyfraddau ffioedd amrywiol posibl ar gyfer categorïau â ffioedd amrywiol o fewn y rheoliadau presennol. Mae'r ffioedd uchaf arfaethedig wedi'u deillio trwy godi ffigurau Senario 0 cyfatebol gan yr un newid canrannol â'r ffioedd sefydlog neu amrywiol.

•**Senario 2: Amserlen codi tâl wedi'i symleiddio**

Yn modelu strwythur ffioedd wedi'i symleiddio wedi'i drefnu o dan 11 categori, gan gydgrynhoi'r 56 o gateoriau ffioedd presennol. Mae'r senario hwn yn cynnig cynnydd mewn ffioedd sy'n

ofynnol er mwyn sicrhau bod costau'n cael eu hadennill yn llawn, gyda'r cynnydd uchaf yn ofynnol ar gyfer y categorïau ceisiadau bach, fel y categori 'mân dir' (200%) a cheisiadau gan berchnogion tai (175%). Cynigir y cynnydd canrannol isaf o fewn y categori 'adeiladau eraill', sef 25%. Nod y strwythur ffioedd symlach yw lleihau cymhlethdod a gwella hygrychedd i weithwyr proffesiynol ym maes cynllunio a'r cyhoedd.

•**Senario 3: Amserlen codi tâl wedi'i symleiddio'n ddirfawr**

Yn cynnig strwythur ffioedd wedi'i symleiddio'n ddirfawr gydag 11 o categorïau, gyda'r nod o leihau cymhlethdod a gwella hygrychedd. Mae'r categorïau'n cynnwys perchnogion tai, mân dir (anheddau, tir, adeiladau), tir mawr (anheddau, tir, adeiladau), arall (adeiladau, sefydlog, tir), ac esemptiadau. Mae'r senario hwn yn awgrymu cynnydd unffurf o 50% mewn ffioedd ar draws pob categori, ac eithrio'r categori 'arall', sy'n gofyn am gynnydd o 125% i adennill costau'n llawn.

Daeth y canfyddiadau i'r casgliad bod angen cynyddu ffioedd cynllunio ar draws bron pob categori ffioedd presennol er mwyn adennill costau'n llawn. Tynnodd yr adroddiad sylw at yr angen am gynnydd uwch yn y categorïau ceisiadau bach, nad ydynt ar hyn o bryd yn adennill y costau a ysgwyddir gan awdurdodau cynllunio lleol. Pwysleisiodd hefyd bwysigrwydd symleiddio'r amserlen ffioedd bresennol er mwyn gwella hygrychedd i weithwyr proffesiynol ym maes cynllunio a'r cyhoedd yn gyffredinol.

Daeth y ddogfen i ben gan nodi argymhellion i Lywodraeth Cymru ystyried gwelliannau i ffioedd cynllunio yng Nghymru yn y tymor byr a'r hirdymor. Awgrymodd adrodd yn rheolaidd ar incwm ffioedd cyffredinol, ac olrhain faint o arian sy'n cael ei wario ar adnoddau i archwilio ymhellach os gellid gwneud unrhyw newidiadau posibl i'r ffioedd.

Beth yw'r prif bwyntiau sy'n berthnasol i'r adolygiad o wasanaethau cynllunio yng nghyd-destun parc cenedlaethol arfaethedig yng Nghymru?

Mae'r ddogfen yn amlinellu'r costau [bryd hynny] sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau rheoli datblygu yng Nghymru. Er bod y gwaith wedi'i wneud i lywio ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar hyrwyddo gwasanaeth cynllunio cydnerth sy'n perfformio'n dda, mae'n parhau i fod yn ddefnyddiol wrth ddarparu tystiolaeth sy'n berthnasol i'r costau posibl sy'n gysylltiedig â gwasanaethau cynllunio fel rhan o barc cenedlaethol newydd.

Trwy ddarparu dadansoddiad cynhwysfawr o'r costau a'r gwelliannau posibl i ffioedd cynllunio, mae'r ddogfen hon yn cynnig mewnwelediadau gwerthfawr a all lywio'r agweddau ariannol a gweinyddol ar sefydlu parc cenedlaethol newydd yng Nghymru.

Mae'r ymchwil yn awgrymu y bydd adennill costau'n llawn, a gwerthuso perfformiad, yn bwysig er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau cynllunio ar gyfer y parc cenedlaethol arfaethedig yn gynaliadwy, a bydd hyn nawr yn cael ei yrru gan gyhoeddiad diweddar Llywodraeth Cymru ar y fframwaith perfformiad a'i hymateb arfaethedig i'w hymgynghorïad ar *'hyrwyddo gwasanaeth cynllunio cydnerth sy'n perfformio'n dda'*, gan gynnwys y dull ar gyfer ffioedd cynllunio yng Nghymru.

3. Dadansoddiad llinell sylfaen

Diben yr adran hon yw ymchwilio a chrynhofi'r llinell sylfaen bresennol ar gyfer gwasanaethau cynllunio cynghorau Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Powys, Wrecsam a Gwynedd¹¹, yn ogystal ag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri at ddibenion cymharu. Casglwyd data i helpu i ddeall sut y gallai'r awdurdod parc cenedlaethol newydd arfaethedig effeithio ar eu gwasanaethau cynllunio, a/neu oblygiadau sefydlu awdurdod cynllunio lleol newydd yn y Gogledd.

Mae'r adran hon wedi'i llywio gan gais data a gyhoeddwyd i bob awdurdod ym mis Mawrth 2025, yn cynnwys taflen ddata a llythyr eglurhaol yn darparu cyd-destun i'r cais ynghyd â chyfarwyddiadau. Felly,

mae'r dadansoddiad a gyflwynir yn yr adran hon yn dibynnu ar gywirdeb data trydydd parti, ac mae cyfrifiad y ffigurau cyfartalog yn dibynnu ar y data a ddarparwyd yn unig, er gwaethaf bylchau data oherwydd gwybodaeth nad yw ar gael, fel y'i cofnodwyd yn Atodiad C (taflen ddata).

Mae data ystadegol changach eisoes ar gael i'r cyhoedd, gan gynnwys cyllidebau gwariant refeniw awdurdodau lleol, rhagolygon gwariant cyfalaf yn ôl awdurdod a gwasanaeth, a rhagolygon cyfalaf a gwariant refeniw lefel gwasanaeth a chyllid ar gyfer cynllunio a pharciau cenedlaethol¹¹. Mae data arolwg chwarterol ar reoli datblygu a data perfformiad cynllunio¹² hefyd wedi'u cyhoeddi¹³. Ni ofynnwyd i Arup ystyried yr wybodaeth honno fel rhan o gwmpas y gwaith hwn. Fodd bynnag, mae'n rhan o'r sylfaen dystiolaeth changach sydd ar gael i CNC ei hystyried.

3.1 Gwasanaethau cynllunio presennol

3.1.1 Cyllideb ac incwm (blynyddol)

Mae cyfanswm y cyllidebau blynyddol a ddysnir ar gyfer gwasanaethau rheoli datblygu awdurdodau lleol presennol o fewn ardal ymgeisiol y parc cenedlaethol tua £143,000 (h.y. ar draws ardaloedd yr awdurdodau presennol sy'n cwmpasu ardal ymgeisiol y parc cenedlaethol), gan gydnabod bod yr wybodaeth hon yn gyfyngedig i'r data a ddarparwyd gan un ardal awdurdod o ystyried nad yw awdurdodau eraill wedi rhoi unrhyw ymatebion neu ddim ymatebion o gwbl.

Y ffigur cymharol ar gyfer Parc Cenedlaethol Eryri yw tua £725,000 (sy'n cwmpasu gwasanaethau rheoli datblygu ar draws ardal gyfan y parc cenedlaethol, gan gydnabod y gwahaniaethau o ran graddfa ddaeryddol, ac o ystyried incwm ffioedd o £146,000).

Ar gyfer gwaith cynllunio ymlaen llaw (polisi), mae cyllidebau blynyddol yn amrywio hyd at tua £410,000, gyda chyfartaledd o ryw £302,000 yn seiliedig ar y data a ddarparwyd. Mae hyn yn cymharu'n agos â ffigur cymharol Eryri o £283,000.

Yr incwm uchaf y mae awdurdod lleol yn ei gael o ffioedd ceisiadau datblygu yw tua £334,000 y flwyddyn, tra bod yr isaf yn agos at sero, gan gydnabod mai dim ond tua 0.6% o'r holl geisiadau sy'n dod i law yw tir un awdurdod o fewn yr ardal ymgeisiol. Mae'r cyfartaledd tua £122,000 a'r cyfanswm tua £487,000. Mae'r pris cymharol ar gyfer Parc Cenedlaethol Eryri tua £146,000.

3.1.2 Nifer a chostau'r staff (ei staff ei hun a staff trydydd partiön)

Mae nifer cyfartalog y staff cyfwerth ag amser llawn a gyflogir ar gyfer gwasanaethau rheoli datblygu *pro rata* i ardal ymgeisiol y parc cenedlaethol tua 12.5; yn amrywio o gyn lleied â 0.5 i gymaint â 23.5 o staff cyfwerth ag amser llawn.

¹¹ Er bod Cyngor Gwynedd wedi'i gynnwys yn y cais am ddata, oherwydd y nifer gyfyngedig o geisiadau datblygu o fewn yr ardal ymgeisiol (llai nag 1%) dim ond i egluro'r data hynny y maent wedi darparu ymateb. Y ffigur cymharol ar gyfer Parc Cenedlaethol Eryri yw tua 11.5 o staff cyfwerth ag amser llawn, sy'n debyg i'r ffigur cyfartalog ar gyfer awdurdodau'r ardaloedd ymgeisiol presennol (12.5).

Wrth ystyried cyfanswm y ceisiadau cynllunio yn yr ardal ymgeisiol (gweler 3.1.3) fesul staff cyfwerth ag amser llawn a gyflogir ar gyfer gwasanaethau rheoli datblygu, mae hyn yn dangos 130 o geisiadau fesul

¹² <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2024-06/cyllideb-refeniw-awdurdodau-leol-rhagolygon-gwariant-cyfalaf-ebrill-2024-i-fawrth-2025-113.pdf>

¹³ <https://www.llyw.cymru/arolygon-chwarterol-rheoli-datblygu>

¹⁴ <https://www.llyw.cymru/perfformiad-gwasanaethau-cynllunio>
Adolygiad o'r gwasanaethau cynllunio yng nghyd-destun parc cenedlaethol arfaethedig yng Nghymru – Cyfoeth Naturiol Cymru

aelod o staff cyfwerth ag amser llawn ar gyfartaledd. Gellir cymharu hyn â 44 o geisiadau fesul aelod o staff cyfwerth ag amser llawn yn Eryri.

Mae nifer cyfartalog y staff cyfwerth ag amser llawn a gyflogir ar gyfer gwaith polisi cynllunio ymlaen llaw *pro rata* tua 4.5, gan amrywio o dri i chwe aelod o staff cyfwerth ag amser llawn. Y ffigur cymharol ar gyfer Parc Cenedlaethol Eryri yw tua 3.6 aelod o staff cyfwerth ag amser llawn.

Y nifer cyfartalog o swyddi staff cyfwerth ag amser llawn sy'n wag ac sy'n cael eu hysbysebu ar gyfer gwasanaethau cynllunio ar hyn o bryd yw un, sy'n debyg i Barc Cenedlaethol Eryri (sydd hefyd yn recriwtio ar gyfer un swydd gynllunio ar hyn o bryd).

Amcangyfrifir bod costau staff cyfartalog amcangyfrifedig sy'n gysylltiedig â gwasanaethau rheoli datblygu *pro rata* i ardal ymgeisiol y parc cenedlaethol tua £380,000. Y gost uchaf yw tua £678,000 a'r isaf yw tua £15,000. Y ffigur cymharol ar gyfer Parc Cenedlaethol Eryri yw £668,000.

Mae costau staff cyfartalog fel ymgynghorydd statudol ar brosiectau seilwaith o arwyddocâd cenedlaethol a datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol *pro rata* i ardal ymgeisiol y parc cenedlaethol tua £15,000, gyda chostau'n amrywio o gyn lleied â sero i ryw £39,000.

Amcangyfrifir bod costau trydydd parti ac ymgynghorwyr sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau rheoli datblygu yn ardal ymgeisiol y parc cenedlaethol tua £20,000. Mae'r costau'n amrywio o gyn lleied â sero i ryw £60,000. Y ffigur cymharol ar gyfer Parc Cenedlaethol Eryri yw £50,000.

Amcangyfrifir bod costau trydydd parti ac ymgynghorwyr sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau cynllunio ymlaen llaw yn ardal ymgeisiol y parc cenedlaethol tua £194,000, gyda chostau'n amrywio o gyn lleied â sero i £570,000. Y ffigur cymharol ar gyfer Parc Cenedlaethol Eryri yw £6,500.

Roedd yr amcangyfrifon o gostau staff eu hunain sy'n cyfrannu at gyd-bwyllgorau corfforedig wrth ddatblygu cynlluniau trafnidiaeth rhanbarthol a chynlluniau datblygu strategol naill ai'n anhysbys neu'n sero, ac eithrio Parc Cenedlaethol Eryri, gyda chostau staff cyfartalog o £13,500 fel cymharydd.

Y cyflog cyfartalog ar gyfer rolau Pennaeth Cynllunio (neu debyg) ar draws yr holl awdurdodau yw tua £73,000. Er nad oes gan Barc Cenedlaethol Eryri swydd Pennaeth Cynllunio, mae rolau cymharol ar ffurf penaeithiad gwasanaethau cynllunio, gyda chyflog cyfartalog o ryw £46,000 cyfwerth ag amser llawn.

Y cyflog cyfartalog ar gyfer rôl prif gynlluniwr / arweinydd tîm yn ardal ymgeisiol y parc cenedlaethol yw £46,000, gyda chyflogau'n amrywio o ryw £43,500 i £49,000. Cyflog cyfartalog uwch-gynllunydd yw £41,500, yn amrywio o ryw £38,000 i £45,000, a chyflog cyfartalog cynllunydd yw £37,000, yn amrywio o ryw £32,000 i £40,500. Mae cyflog cyfartalog technegydd / gweinyddwr tua £27,000, yn amrywio o ryw £26,000 i £28,000. Mae'r ffigurau cymharol ar gyfer Parc Cenedlaethol Eryri tua £41,000 (prif gynlluniwr / arweinydd tîm), £35,000 (cynlluniwr) a £26,000 (technegydd / gweinyddwr) yn y drefn honno.

3.1.3 Gwasanaethau rheoli datblygu – ceisiadau cynllunio

Mae'r adran hon yn crynhoi nifer y ceisiadau cynllunio a wnaed dros y cyfnod pum mlynedd diwethaf o fewn ffiniau presennol y dirwedd genedlaethol o'i gymharu ag ardal ymgeisiol y parc cenedlaethol.

Mae'n bwysig nodi nad yw rhai o'r awdurdodau lleol o fewn ardal ymgeisiol y parc cenedlaethol y tu mewn i ffiniau presennol y dirwedd genedlaethol (Gwynedd a Phowys), ac mae'r data yn yr adran hon yn seiliedig ar wybodaeth berthnasol a ddarparwyd gan yr awdurdodau perthnasol.

Mae cyfanswm y ceisiadau cynllunio dros y pum mlynedd diwethaf o fewn ffiniau presennol y dirwedd genedlaethol bron yn 800, yn cwmpasu gwahanol fathau, sy'n cyfateb i ryw 160 bob blwyddyn.

Mae cyfanswm y ceisiadau cynllunio dros y pum mlynedd diwethaf o fewn yr ardaloedd ychwanegol sydd wedi'u cynnwys yn ardal ymgeisiol y parc cenedlaethol yn fwy na 1,900, sydd unwaith eto'n cwmpasu gwahanol fathau, sy'n cyfateb i ryw 385 bob blwyddyn.

Y ffigur cymharol ar gyfer Parc Cenedlaethol Eryri yw tua 400 i 500 o geisiadau cynllunio bob blwyddyn, ac mae'r rhain, yn bennaf, yn geisiadau cynllunio ar gyfer mân gynllunio.

Nid oes unrhyw geisiadau prosiectau seilwaith o arwyddocâd cenedlaethol na datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol wedi bod o fewn ardaloedd yr awdurdodau lleol o fewn ffiniau'r dirwedd genedlaethol bresennol nac ardal ymgeisiol y parc cenedlaethol¹⁴.

O fewn ffiniau presennol y dirwedd genedlaethol, bu 20 o geisiadau cynllunio mawr fesul ardal awdurdod ar gyfartaledd, yn amrywio o ddim cais o gwbl i 58 cais ar draws yr ardaloedd awdurdod perthnasol.

O fewn ardal ymgeisiol y parc cenedlaethol, bu saith cais cynllunio mawr fesul ardal awdurdod ar gyfartaledd, yn amrywio o ddim cais o gwbl i 19 cais ar draws yr ardaloedd awdurdod perthnasol.

O fewn ffiniau presennol y dirwedd genedlaethol, bu 203 o fân geisiadau fesul ardal awdurdod ar gyfartaledd, yn amrywio o 115 o geisiadau i 419 o geisiadau ar draws yr ardaloedd awdurdod perthnasol.

O fewn ardal ymgeisiol y parc cenedlaethol, bu 327 o fân geisiadau fesul ardal awdurdod ar gyfartaledd, yn amrywio o ddim cais o gwbl i 595 o geisiadau ar draws yr ardaloedd awdurdod perthnasol.

O fewn ffiniau presennol y dirwedd genedlaethol, bu 39 o geisiadau 'eraill' ar gyfartaledd, tra bod ardal ymgeisiol y parc cenedlaethol wedi cael 148 o geisiadau 'eraill' ar gyfartaledd.

3.1.4 Cymharu ystadegau awdurdodau cynllunio Cymru ac awdurdodau parciau cenedlaethol

Mae CNC wedi cynnal ymchwiliad ar wahân sy'n archwilio'r amodau ychwanegol y mae tirweddau dynodedig yn eu gosod ar hawliau datblygu a ganiateir, mewn perthynas â datblygiadau deiliaid tai, amaethyddol, coedwigaeth a diwydiannol, er mwyn gwarchod a gwella ansawdd y tirweddau hyn sydd o bwys cenedlaethol. Mae'r un ymchwiliad hefyd yn ymchwilio i berfformiad awdurdodau parciau cenedlaethol presennol yng Nghymru, o'i gymharu ag awdurdodau cynllunio Cymru, o ran cyfraddau cymeradwyo ceisiadau cynllunio ac amserlenni penderfynu ar geisiadau cynllunio.

I grynhoi, mae dadansoddiad o'r data yn dangos, rhwng 2016 a 2022, nad oes fawr o wahaniaeth ym mherfformiad cyfartalog awdurdodau parciau cenedlaethol yng Nghymru, o'i gymharu ag awdurdodau cynllunio yng Nghymru, mewn perthynas â chyfradd gymeradwyo ceisiadau cynllunio gyfartalog, a nifer y dyddiau, ar gyfartaledd, a gymerwyd i benderfynu ar geisiadau cynllunio, y gellir eu crynhoi isod:

- mae data a archwiliwyd rhwng 2016 a 2022 yn tynnu sylw at gyfradd gymeradwyo gyfartalog ychydig yn uwch gan awdurdodau parciau cenedlaethol yn ystod y cyfnod hwn (91.4%), o'i chymharu â chyfartaledd Cymru yn ystod y cyfnod hwn (90.1%)
- mae data a archwiliwyd rhwng 2016 a 2022 yn tynnu sylw at y ffaith bod awdurdodau parciau cenedlaethol wedi cymryd 88 diwrnod ar gyfartaledd i benderfynu ar geisiadau cynllunio yn ystod y cyfnod hwn, o'i gymharu â chyfartaledd Cymru yn ystod y cyfnod hwn o 87 diwrnod

Mae'r data yn tynnu sylw at y ffaith bod awdurdodau parciau cenedlaethol, ar gyfartaledd, yn penderfynu ar lai (5.2%) o geisiadau cynllunio ar amser yn ystod y cyfnod 2016–2022. Fodd bynnag, gallai hyn fod o ganlyniad i nifer o ffactorau, ac nid yw hyn yn glir o'r data. Beth bynnag, mae nifer y dyddiau a gymerir ar gyfartaledd i benderfynu ar gais yn ddangosydd dibynadwy o berfformiad gwirioneddol, ac yn dangos nad

¹⁴ Ar adeg ysgrifennu, mae Galileo Empower yn datblygu cynigion ar gyfer Parc Ynni Mynydd Mawr ar dir rhwng dyffrynnoedd Ceiriog a Thanat yng ngogledd-ddwyrain Powys a de Wrecsam, ger ffin Swydd Amwythig a thua wyth cilometr i'r gorllewin o Groesoswallt. Mae'r cynigion yn cynnwys hyd at 21 o dyrbinau gwynt ag uchder mwyaf i flaen y llafn o 230 metr. Mae paneli ffotofoltaig solar a thechnoleg system storio ynni batri hefyd yn cael eu hystyried yn y parc ynni, yn amodol ar gwlbiau astudiaethau technegol pellach. Gan y bydd gan Parc Ynni Mynydd Mawr gapasiti rhwng 10 megawatt a 350 megawatt, fe'i dosbarthir fel datblygiad o arwyddocâd cenedlaethol o dan Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015. Bydd y cais cynllunio yn cael ei wneud i PCAC. Bydd PCAC yn archwilio'r cais ac yn gwneud argymhelliaid i Weinidogion Cymru, a fydd wedyn yn gwneud y penderfyniad terfynol. Er na fydd Cyngor Sir Powys a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn penderfynu ar y cais cynllunio, nhw yw'r ymgyngoreion statudol allweddol, a byddant yn paratoi adroddiad effaith lleol.

oes fawr o wahaniaeth rhwng awdurdodau parciau cenedlaethol yng Nghymru o'i gymharu ag awdurdodau cynllunio yng Nghymru.

3.1.5 Llywodraethu a gweithredu

Yng Nghymru, roedd dirprwyo'r broses o wneud penderfyniadau ar gyfer ceisiadau cynllunio yn cael ei lywodraethu'n bennaf gan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 a Deddf Llywodraeth Leol 1972 tan Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015, a wnaeth ddiweddarau neu ddisodli darpariaethau. Gall awdurdodau cynllunio lleol ddirprwyo'r gwaith o benderfynu ar geisiadau cynllunio i swyddogion cynllunio o dan gynllun dirprwyo. Mae'r cynllun hwn yn nodi pa geisiadau y gall swyddogion benderfynu arnynt, a pha rai y mae angen eu cyflwyno gerbron pwyllgor cynllunio. Fel arfer, swyddogion sy'n ymdrin â cheisiadau llai dadleuol, tra bod y pwyllgor cynllunio yn penderfynu ar geisiadau mwy arwyddocaol neu ddadleuol. Mae gan Weinidogion Cymru y pŵer i alw ceisiadau cynllunio i mewn i benderfynu arnynt eu hunain.

Mae pob awdurdod lleol wedi darparu gwybodaeth am eu dull o lywodraethu a gweithredu eu gweithdrefnau gwneud penderfyniadau. Mae gan y mwyafrif gynllun ar gyfer gwneud penderfyniadau dirprwyedig, gyda lefel wahanol o ddirprwyo ym mhob awdurdod.

Fel cymharydd defnyddiol ar gyfer parc cenedlaethol yng Nghymru, mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri wedi nodi bod hyd at 90% o'u penderfyniadau'n cael eu dirprwyo, gyda gweddill y penderfyniadau'n cael eu gwneud mewn pwyllgor cynllunio (sy'n cynnwys 12 o gynghorwyr a chwe aelod a benodwyd gan y Llywodraeth). Mae'n debygol y gwneir hyn oherwydd y gyfran uchel o fân geisiadau cynllunio sy'n dod i law ac yn cael eu hystyried. Ystyrir bod hyn yn gyffredin ac i'w ddisgwyl, ac yn nodweddiadol yng nghydestun parc cenedlaethol. Mae dirprwyiaethau'n amrywio rhwng swyddogaethau, gyda threfniadau gwahanol ar gyfer rheoli datblygu a gweithgareddau cynllunio ymlaen llaw.

Nodwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam bod grŵp cynllunio rheoli ardaloedd o harddwch naturiol eithriadol yr ymgynghorir â hwy ar geisiadau y maent yn eu hystyried yn berthnasol (ymgynghorir â'r AHNE bresennol ar rai ceisiadau perthnasol).

Darparodd rhai awdurdodau ragor o wybodaeth am y trefniadau llywodraethu ar gyfer eu proses newydd ar gyfer cynlluniau datblygu lleol. Mae Cyngor Sir y Fflint yn defnyddio 'grŵp strategaeth cynllunio' trawsbleidiol i oruchwylio cynnydd eu cynllun datblygu lleol newydd, gyda'r prif benderfyniadau yn cael eu gwneud gan y cabinet / cyngor. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn defnyddio dull tebyg ar gyfer y prif benderfyniadau ynghylch y cynllun datblygu lleol. Mae proses paratoi cynllun datblygu lleol newydd Cyngor Sir Powys yn cael ei lywodraethu gan weithgor cynllun datblygu lleol aelod-swyddogion, sy'n cyfarfod bob chwech i wyth wythnos i archwilio'r cynnydd a wnaed, a chymeradwyo dogfennau.

3.2 Statws y cynllun datblygu

Mae awdurdodau cynllunio lleol wedi mynegi pryderon ynghylch goblygiadau posibl parc cenedlaethol newydd o ran eu cynlluniau datblygu lleol presennol a'r rhai newydd a fydd yn eu disodli. Nodir y safbwynt cynllunio lleol perthnasol ar gyfer yr ardal ymgeisiol isod, ac er mwyn helpu i ddeall dulliau'r awdurdodau cynllunio lleol perthnasol i ffiniau presennol y dirwedd genedlaethol, mae'r polisïau perthnasol wedi'u nodi yn nogfennau perthnasol y cynllun datblygu lleol, sydd wedi'u mabwysiadu ac sy'n dod i'r amlwg.

3.2.1Cynlluniau datblygu lleol a fabwysiadwyd

- Cynllun datblygu lleol ar y cyd Gwynedd a Môn (2011–2026), a fabwysiadwyd ym mis Gorffennaf 2017
- Cynllun datblygu lleol Cyngor Sir Dinbych (2006–2021), a fabwysiadwyd ym mis Mehefin 2013
- Cynllun datblygu lleol Cyngor Sir y Fflint (2015–2030), a fabwysiadwyd ym mis Ionawr 2023

- Cynllun datblygu lleol Cyngor Sir Powys (2011–2026), a fabwysiadwyd ym mis Ebrill 2018

Ar adeg drafftio'r adroddiad hwn, roedd y Goruchaf Lys wedi gwrthod apêl Llywodraeth Cymru yn erbyn penderfyniad y Llys Apêl ym mis Rhagfyr 2024 nad oedd yn rhaid i gynghorwyr Wrecsam fabwysiadu cynllun datblygu lleol.

Mae hyn yn golygu nad oes gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam gynllun lleol ar waith, ac mae'r cyngor wrthi'n cysylltu â Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau ei fod yn cyflawni ei rwymedigaethau cynllunio statudol heb gynllun datblygu lleol wedi'i fabwysiadu'n ffurfiol.

3.2.2Cynlluniau datblygu lleol newydd ac arfaethedig

- Cynllun datblygu lleol newydd Gwynedd (2024–2039) – Cynhaliwyd galwad am safleoedd yn 2024, ac roedd ymgynghoriad ar y strategaeth a ffefir wedi'i drefnu ar gyfer mis Ebrill 2025, ond deellir bod hyn wedi'i ohirio.
- Cynllun datblygu lleol newydd Sir Ddinbych (2018–2033) – Roedd y strategaeth a ffefir yn destun ymgynghoriad cyhoeddus yn 2019, a chafodd ei chymeradwyo gan y cyngor ym mis Mai 2023. Mae'r cynllun adneuo yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd, a disgwylir iddo fod yn barod yn 2026.
- Cynllun datblygu lleol newydd Cyngor Sir Powys (2022–2037) – Roedd y strategaeth a ffefir yn destun ymgynghoriad cyhoeddus rhwng mis Awst a mis Hydref 2024. Mae ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu dadansoddi ar hyn o bryd i lywio'r cynllun adneuo a ddisgwylir ddiwedd tymor yr Hydref 2025. Ar hyn o bryd mae'r cyngor yn anelu at fabwysiadu'r cynllun datblygu lleol newydd erbyn 2027.
- Cyngor Sir y Fflint – Mabwysiadwyd y cynllun datblygu lleol yn 2023, ac nid yw wedi'i adolygu eto.
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam – Mae'r cynllun datblygu lleol yn destun adolygiad sy'n mynd rhagddo, fel y disgrifiwyd uchod.

3.2.3 Polisiau presennol sy'n cyfeirio at ardal ymgeisiol y parc cenedlaethol

Gan fod ardal ymgeisiol y parc cenedlaethol yn cynnwys ardal Tirwedd Genedlaethol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy fel ag y mae ar hyn o bryd, mae gan yr awdurdodau cynllunio lleol sy'n cynnwys y dirwedd genedlaethol nifer o bolisiau perthnasol sy'n ymwneud â hyn. Mae'r rhain wedi'u rhestru isod:

Yn y cynllun datblygu lleol a fabwysiadwyd gan Gyngor Sir Ddinbych (2006–2021), mae'r polisiau canlynol yn berthnasol:

- Mae Polisi VOE 2 – Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol ac Ardal o Harddwch Eithriadol yn datgan na chaniateir datblygiad a fyddai'n achosi niwed annerbyniol i gymeriad ac ymddangosiad y dirwedd a'r rhesymau dros ei ddynodi.
- Mae Polisi PSE 5 – Economi Wledig yn datgan bod yn rhaid i gynigion cyflogaeth o fewn yr AHNE geisio gwella'r dirwedd, a bydd unrhyw gynigion niweidiol yn cael eu gwrthod.

Yn nrafft y strategaeth a ffefir (Mai 2019), un o'r prif bolisiau yw natur a'r amgylchedd adeiledig, ac yn yr un modd mae'n amddiffyn yr amgylchedd naturiol rhag effeithiau andwyol datblygu, gan ychwanegu bod yn rhaid i ddatblygiad warchod a, lle bo'n bosibl, gwella'r amgylchedd naturiol.

Mae cynllun datblygu lleol Cyngor Sir y Fflint (2015–2030) yn cyfeirio at y dirwedd genedlaethol mewn nifer o bolisiau, fel a ganlyn:

- Mae Polisi STR10 – Twristiaeth, Diwylliant a Hamdden yn cefnogi datblygiadau sy'n hyrwyddo hygyrchedd i'r AHNE.
- Mae Polisi STR13 – Yr Amgylchedd Naturiol ac Adeiledig, Rhwydweithiau a Seilwaith Gwyrdd yn datgan y dylai datblygiad warchod, amddiffyn a gwella ansawdd ac amrywiaeth yr AHNE.

- Mae Polisi EN5 – Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol yn caniatáu datblygiad mewn AHNE dim ond lle y bydd yn cadw neu’n gwella harddwch naturiol yr ardal ddynodedig a’i lleoliad, gan ystyried unrhyw effaith gronnus. Ni ddylai datblygiad gael effeithiau andwyol, rhaid iddo gyfrannu at lesiant cymdeithasol, economaidd a diwylliannol y gymuned leol, rhaid iddo weddu i gymeriad yr AHNE o ran maint, ffurf, dyluniad, dwysedd, dwyster a defnydd, a rhaid iddo fod o safon ddylunio uchel lle defnyddir deunyddiau priodol.
- Mae Polisi EN18 – Llygredd a Niwsans yn datgan y dylid ystyried goleuadau allanol yn yr AHNE, neu gerllaw iddi, fel rhan o gynllun tirlunio cyffredinol, a dylid ei gyfyngu i’r graddau lleiaf posibl i osgoi llygredd golau.

Mae cynllun datblygu lleol Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (2013–2028) [er gwaethaf ei statws presennol] yn cynnwys y polisi perthnasol canlynol:

- Mae Polisi NE4 – Yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol yn caniatáu datblygiad dim ond lle y mae’n gwarchod neu’n gwella harddwch naturiol yr ardal a’i lleoliad. Ni ddylai datblygiad gael effeithiau andwyol, rhaid iddo gyfrannu at lesiant cymdeithasol, economaidd a diwylliannol y gymuned leol, rhaid iddo weddu i gymeriad yr AHNE o ran maint, ffurf, dyluniad, dwysedd, dwyster a defnydd, a rhaid iddo fod o safon ddylunio uchel lle defnyddir deunyddiau priodol.

Mae’r tri chyngor hefyd yn cydnabod bod cloddio am fwynau wedi digwydd o’r blaen o fewn y dirwedd genedlaethol, ac mae ganddynt bolisiau sy’n llywio’r math hwn o ddatblygiad i ffwrdd o’r ardal hon. Mabwysiadodd Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Sir y Fflint a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ganllawiau cynllunio atodol AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy (Mehefin 2018) hefyd. Mae’r canllawiau cynllunio atodol yn nodi’r ystyriaethau o ran datblygu a dylunio ar gyfer datblygu o fewn yr AHNE, ac mae’n ystyriaeth berthnasol yn y broses gynllunio.

Er nad yw’r dirwedd genedlaethol bresennol o fewn ffiniau Cyngor Gwynedd na Chyngor Sir Powys, mae dynodiadau perthnasol o fewn ardal ymgeisiol y parc cenedlaethol sy’n berthnasol. O fewn cynllun datblygu lleol ar y cyd Ynys Môn a Gwynedd (2011–2026), mae’r polisiau canlynol yn cyfeirio at ardal tirwedd arbennig (ATA) sydd yn y de-orllewin neu ardal ymgeisiol y parc cenedlaethol:

- Mae Polisi TWR 3 – Safleoedd Carafanau Sefydlog a Sialé a Llety Gwersylla Amgen Parhaol yn nodi na chaniateir unrhyw gynigion newydd ar gyfer y mathau hyn o lety o fewn yr ATA, er bod amgylchiadau eithriadol lle gellir caniatáu adleoli’r safleoedd hyn. Efallai y caniateir cynigion i wella’r safleoedd hyn o fewn yr ATA.
- Mae Polisi AMG 2 – Ardaloedd o Dirwedd Arbennig yn datgan y rhoddir ystyriaeth i raddfa a natur cynigion datblygu o fewn yr ATA er mwyn sicrhau nad oes unrhyw effaith andwyol sylweddol ar y dirwedd. Dylai’r datblygiad gynnal, gwella neu adfer yr ATA, ac efallai y bydd angen cynnal asesiad o’r effaith ar y dirwedd a’r effaith weledol. Os yw datblygiad yn angenrheidiol ond y gallai arwain at effeithiau andwyol sylweddol, mae angen lliniaru a digolledu priodol.

Mae gan gynllun datblygu lleol Cyngor Sir Powys (2011–2026) nifer o ddynodiadau perthnasol o fewn ardal ymgeisiol y parc cenedlaethol, sy’n dod o dan y polisiau canlynol:

- Mae Polisi Strategol SP6 – Dosraniad Twf ar draws yr Hierarchaeth Aneddiad yn cyfeirio at nifer o bentrefi bach sydd o fewn y parc cenedlaethol arfaethedig, ac yn nodi na fydd mwy na 10% o dwf tai’r cynllun yn dod o fewn y rhain.
- Mae Polisi Strategol SP7 – Diogelu Adnoddau ac Asedau Strategol yn datgan na ddylai datblygiad gael effaith andwyol annerbyniol ar adnoddau ac asedau strategol, ac mae’r canlynol o fewn ardal arfaethedig y parc cenedlaethol:
 - Tirwedd hanesyddol gofrestredig
 - Ardal cadwraeth arbennig / ardal gwarchodaeth arbennig

- Safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig
 - Gwarchodfa natur genedlaethol
 - Ardaloedd diogelu mwynau
 - Llwybr Cenedlaethol Glyndŵr
 - Ffin parc a gardd hanesyddol – Parc a gardd hanesyddol Gardd gegin
 - Heneb gofrestredig
- Mae Polisi DM2 – Yr Amgylchedd Naturiol yn datgan y dylai datblygiad warchod, rheoli’n gadarnhaol a gwella buddiannau bioamrywiaeth a geoamrywiaeth o fewn dynodiadau safleoedd, a dim ond os nad yw’n cael effaith andwyol annerbyniol ar y dynodiadau y caniateir datblygiad. Mae’r dynodiadau canlynol yn berthnasol yn ardal arfaethedig y parc cenedlaethol:
 - Ardal cadwraeth arbennig / ardal gwarchodaeth arbennig
 - Safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig
 - Gwarchodfa natur genedlaethol
 - Mae Polisi DM4 – Tirwedd yn ei gwneud yn ofynnol i waith datblygu ystyried tirweddau hanesyddol cofrestredig, tirweddau a warchodir cyfagos (parciau cenedlaethol ac ardaloedd o harddwch naturiol eithriadol) ac amwynderau gweledol a fwynheir gan ddefnyddwyr tirweddau Powys ac ardaloedd cyfagos.
 - Mae Polisi DM8 – Diogelu Mwynau yn caniatáu datblygiad nad yw’n ymwneud â mwynau mewn ardaloedd diogelu mwynau yn unig (ac y mae llawer o ardaloedd felly o fewn ardal y parc cenedlaethol arfaethedig) os nad yw’r adnodd o werth posibl yn y dyfodol, os ydyw’r datblygiad yn un dros dro, os gellir mwynloddio cyn datblygu, os byddai cloddio yn annerbyniol, os oes budd cyhoeddus tra phwysig i’r datblygiad, neu os ydyw’r datblygiad o natur fechan neu o fewn cwrtil.
 - Mae Polisi RE1 – Ynni Adnewyddadwy yn berthnasol gan fod ardal chwilio leol ar gyfer ynni solar wedi’i nodi o fewn ardal y parc cenedlaethol arfaethedig, ac mae’r polisi hwn yn datgan bod datblygiad ynni solar neu ynni carbon isel neu ynni adnewyddadwy arall yn dderbyniol yn y safle hwn.
 - Mae’r pentrefi bychain o fewn ardal y parc cenedlaethol arfaethedig yn cynnwys amrywiol ddyraniadau tai ac ardaloedd cadwraeth sydd hefyd wedi’u cynnwys yn y cynllun datblygu lleol.

O fewn cynllun datblygu lleol newydd Powys 2022–2037, y polisiâu mwyaf perthnasol yw’r canlynol:

- Polisi Strategol SP10, sy’n nodi y bydd cynigion datblygu ar gyfer ffurfiau cynaliadwy o dwristiaeth yn cael eu cefnogi lle nad oes ganddynt unrhyw effeithiau andwyol annerbyniol ar dirwedd Powys.
- Polisi Strategol SP19, sy’n cyfeirio at yr angen i gynigion datblygu warchod a gwella’r amgylchedd naturiol ac na fyddant yn cael eu caniatáu lle byddant yn cael effaith andwyol annerbyniol ar gymeriad ac ansawdd tirwedd Powys.
- Polisi Strategol SP22, sy’n ymwneud â diogelu adnoddau strategol ac yn cynnwys tirweddau a chymeriad y dirwedd ynghyd â thirweddau dynodedig o fewn ardal y cynllun neu’r ardal gyffiniol.
- Polisi Strategol SP25, sy’n ymwneud â chynhyrchu ynni adnewyddadwy ac ynni carbon isel, gan nodi y bydd cynigion datblygu yn cael eu hannog mewn lleoliadau priodol lle gellir dangos na fydd unrhyw effeithiau andwyol annerbyniol ar y dirwedd gyfagos (gan gynnwys tirweddau dynodedig).

3.2.4 Polisi cynllunio Eryri

At ddibenion cymharu, mae’n ddefnyddiol ystyried safbwynt polisi cynllunio Eryri.

Mae cynllun datblygu lleol Eryri yn gosod safonau a pholisïau ar gyfer datblygu o fewn Parc Cenedlaethol Eryri. Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn cyfeirio at y cynllun datblygu lleol i lywio ei benderfyniadau cynllunio.

Mae cynllun datblygu lleol Eryri yn rhestru ffactorau i’w hystyried wrth werthuso ceisiadau cynllunio a rhoi caniatâd cynllunio. Mae’r ffactorau’n seiliedig ar y rhinweddau y mae angen eu gwarchod a’u gwella o fewn y parc cenedlaethol. Mae’r rhain yn cynnwys y canlynol:

- Harddwch naturiol y parc cenedlaethol
- Cymunedau a diwylliant y parc cenedlaethol
- Bywyd gwyllt y parc cenedlaethol
- Treftadaeth a hanes y parc cenedlaethol

Ceir dogfennau canllaw cynllunio atodol ochr yn ochr â’r cynllun datblygu lleol. Mae’r dogfennau hynny’n manylu ymhellach ar y polisïau sydd wedi’u cynnwys yn y cynllun datblygu lleol, gan gynnwys dylunio cynaliadwy, llygredd golau, y Gymraeg, tai fforddiadwy, a llety i ymwelwyr.

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri oedd yr awdurdod cynllunio lleol cyntaf yng Nghymru i gynnal yr adolygiad ffurf fer o’i gynllun datblygu lleol, a’r cyntaf yng Nghymru i fabwysiadu ail fersiwn o’i gynllun. Ystyrir hyn ymhellach yn ei astudiaeth achos a geir yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn (gweler 4.9.1).

3.2.5 Cynlluniau datblygu strategol

Mae cyd-bwyllgorau corfforedig yn gyfrifol am ddatblygu cynlluniau datblygu strategol. Gan eu bod yn gynlluniau hirdymor (gyda chyfnod o 25 mlynedd o leiaf), bwriedir i gynlluniau datblygu strategol gael eu datblygu dros nifer o flynyddoedd, ac mae cyd-bwyllgorau corfforedig y Gogledd, y Canolbarth, y De-orllewin a’r De-ddwyrain yn anelu at gael eu cynlluniau datblygu strategol wedi’u mabwysiadu erbyn neu tua 2031. Mae’r mwyafrif o’r cyd-bwyllgorau corfforedig ar hyn o bryd yn gweithio tuag at eu cytundebau cyflawni, sy’n cynnwys cynllun cynnwys cymunedau, sy’n nodi sut a phryd y gall rhanddeiliaid a’r gymuned gymryd rhan yn y broses o lunio cynlluniau. Mae cytundebau cyflawni hefyd yn cynnwys amserlen gynhwysfawr ar gyfer paratoi’r cynllun datblygu strategol, gan nodi amserlenni a cherrig milltir clir ar gyfer gwahanol gamau’r broses.

Mae cytundeb cyflawni ar gyfer cynllun datblygu strategol y Gogledd yn cael ei lunio ar hyn o bryd, a disgwylir yr ymgynghorir arno ddechrau mis Mai 2025. Hyd yn hyn, nid oes unrhyw gytundeb cyflawni drafft ar gyfer cynllun datblygu strategol y Canolbarth wedi’i gwblhau i’w gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Unwaith y bydd y cytundeb cyflawni wedi’i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru, rhagwelir y bydd yn cymryd tua phum mlynedd i lunio cynllun datblygu strategol.

3.2.6 Cynlluniau datblygu lleol cryno

Mae Llywodraeth Cymru yn cyfarwyddo awdurdodau cynllunio lleol i ddatblygu cynlluniau datblygu lleol cryno, a fydd yn cael eu llunio ar ôl mabwysiadu cynllun datblygu strategol. Bydd cynlluniau datblygu lleol cryno yn fyrrach ac â mwy o ffocws, gyda graddfa a lleoliad y twf eisoes wedi’u pennu yn y cynllun datblygu strategol a fabwysiadwyd ar gyfer pob ardal. Bydd y rhain yn ddarostyngedig i’w cytundeb cyflawni eu hunain, a rhagwelir y byddai’n cymryd tua dwy flynedd i lunio cynllun datblygu lleol cryno ar ôl mabwysiadu cynllun datblygu strategol. Oherwydd bydd cynlluniau datblygu cynaliadwy cryno yn adeiladu ar gynllun datblygu strategol sydd eisoes wedi’i fabwysiadu ac yn osgoi dyblygu cynnwys strategol, disgwylir y byddant yn cymryd llawer llai o amser i’w llunio nag y mae’n cymryd i lunio cynlluniau datblygu lleol ar hyn o bryd.

3.2.7 Cynlluniau trafnidiaeth rhanbarthol

Mae cyd-bwyllgorau corfforedig hefyd yn gyfrifol am ddatblygu cynlluniau trafnidiaeth rhanbarthol. Cyhoeddodd cyd-bwyllgorau corfforedig y Gogledd, y Canolbarth, y De-orllewin a'r De-ddwyrain eu cynlluniau trafnidiaeth rhanbarthol drafft ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus ddechrau 2025, gyda'r ymgynghoriadau'n cau rhwng mis Ebrill a mis Mai 2025.

Ar ôl ystyried yr adborth a gafwyd ar yr ymgynghoriad, mae angen i gyd-bwyllgorau corfforedig gyflwyno eu cynlluniau trafnidiaeth rhanbarthol arfaethedig i Lywodraeth Cymru yn yr haf i'w cymeradwyo, a disgwylir i hyn fod tua mis Medi 2025. Mae angen cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru ar gynlluniau trafnidiaeth rhanbarthol ac mae gan weinidogion Cymru y pŵer i dderbyn neu wrthod y cynlluniau. Os caiff eu gwrthod, rhaid i gyd-bwyllgorau corfforedig gyflwyno cynllun arall o fewn amserlen benodol. Ar ôl ei gymeradwyo, mae cynllun yn dod i rym ar unwaith. Ar ôl ei fabwysiadu, bydd y cynllun trafnidiaeth rhanbarthol yn cael ei adolygu bob pum mlynedd.

4. Dadansoddi'r rhanddeiliaid

4.1 Canlyniadau'r cyfweiliadau â rhanddeiliaid

Fel rhan o'r adolygiad hwn, cynhaliwyd ymarferion ymgysylltu i helpu i ddeall goblygiadau posibl parc cenedlaethol newydd i wasanaethau cynllunio ar amrywiaeth eang o randdeiliaid, gan gynnwys awdurdodau lleol, cyd-bwyllgorau corfforedig, Llywodraeth Cymru, a sefydliadau sydd â diddordeb mewn cynllunio a/neu ddatblygu yn y rhanbarth.

Canolbwyntiodd y cyfweiliadau un-i-un â rhanddeiliaid yn bennaf ar wahanol safbwyntiau ynghylch gwasanaethau cynllunio, yn ogystal â'r gwersi a ddysgwyd o dirweddau gwarchodedig eraill. Fodd bynnag, mewn rhai achosion cododd rhanddeiliaid faterion ehangach sy'n gysylltiedig â chynllunio, a rhoddodd hyn fewnwelediadau gwerthfawr. Mae hyn yn ategu'r gwaith ymgynghori cyhoeddus ac ymgysylltu ehangach â rhanddeiliaid a gynhaliwyd gan CNC mewn cysylltiad â'i gynnig parc cenedlaethol newydd (gweler 2.2) a'r adolygiad o'r effaith ar yr economi ar wahân, lle nodwyd materion ehangach ynghylch democratiaeth, atebolrwydd, cyfranogiad y cyhoedd, effeithiau economaidd a thwristiaeth.

Ystyriwyd yr adborth a ddaeth i law mewn ymateb i'r adolygiad hwn o wasanaethau cynllunio gyda'r prif themâu wedi'u nodi, a grynhoir isod.

Mae cyfweiliadau astudiaethau achos wedi llywio dadansoddiad ar wahân o fodelau amgen ar gyfer darparu gwasanaethau cynllunio (gweler 4.9).

Mae cofnod ymgysylltu â rhanddeiliaid wedi'i baratoi a'i atodi i'r adroddiad hwn, yn crynhoi cyfranogiad rhanddeiliaid (gweler Atodiad A), yn crynhoi cyfranogiad rhanddeiliaid.

4.2 Cyllid a chostau

Mae llawer o gyfranogwyr yn tynnu sylw at yr hinsawdd economaidd heriol i awdurdodau lleol a busnesau ac yn cwestiynu o ble y byddai cyllid hirdymor yn dod ar gyfer unrhyw barc cenedlaethol newydd, a pha wasanaethau a allai ddioddef yn yr awdurdodau lleol presennol o ganlyniad i ddynodiad newydd, gan dybio y byddai Llywodraeth Cymru yn aildyrannu cyllid i unrhyw awdurdod parc cenedlaethol newydd, neu a fyddai unrhyw ardoll ar yr awdurdodau lleol presennol i'w ariannu.

Mae rhai cyfranogwyr yn pryderu am golled bosibl o'r incwm a geir o ffioedd mewn cysylltiad â cheisiadau a wneir o fewn ardal ymgeisiol y parc cenedlaethol, yn enwedig i'r rheini sy'n cael incwm sylweddol o geisiadau o'r fath. Mae rhai o'r farn y gallai tynnu gwaith a staff o wasanaethau cynllunio lleol presennol beryglu eu hyfywedd, tra bod cwestiynau mawr hefyd ynghylch a fyddai awdurdod cynllunio parc cenedlaethol newydd yn hyfyw o ran cydbwysu ei incwm o geisiadau cynllunio a'i gyllidebau ar gyfer gwasanaethau cynllunio (rheoli datblygu a chynllunio ymlaen llaw).

Mae rhai cyfranogwyr yn tynnu sylw at yr angen i unrhyw awdurdod cynllunio parc cenedlaethol newydd gyfrannu at lunio'r cynllun datblygu strategol arfaethedig yn ogystal ag ariannu ei gynllun datblygu lleol newydd ei hun (neu gynllun datblygu lleol cryno yn amodol ar yr amseru). Mae llawer o gyfranogwyr yn pwysleisio cost sylweddol datblygu cynllun datblygu lleol newydd, a fyddai angen i hyn fod yn dasg gychwynnol allweddol i unrhyw awdurdod cynllunio parc cenedlaethol newydd.

Mae rhai cyfranogwyr yn mynegi pryderon ynghylch cyllid hirdymor ar gyfer awdurdod cynllunio parc cenedlaethol newydd, gan nodi bod profiad yn y gorffennol wedi dangos y byddai cyllid yn lleihau dros amser ac y gallai effeithiolrwydd yr awdurdod parc cenedlaethol waethygu o ganlyniad.

Mae eraill yn ystyried y gallai statws parc cenedlaethol helpu i sicrhau cyllid yn y dyfodol ar gyfer prosiectau amgylcheddol a chymunedol pwysig mewn cysylltiad â diogelu a gwella'r dirwedd. Mae rhai o'r farn y byddai statws parc cenedlaethol yn helpu i ddenu adnoddau i'r ardal o ganlyniad i'r cynnydd mewn trwstiaeth a phroffil gwleidyddol, a gellid buddsoddi'r adnoddau hyn mewn ymdrechion i warchod a gwella'r dirwedd.

Mae rhai'n mynegi pryder ynghylch cost cyfle, gyda rhai cyfranogwyr yn awgrymu nad nawr yw'r amser priodol i greu awdurdod cynllunio lleol ychwanegol, o ystyried yr heriau ariannu a'r ffaith bod yn rhaid i awdurdodau lleol flaenoriaethu meysydd eraill (canolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau craidd).

Mewn egwyddor, er bod rhai cyfranogwyr yn cefnogi creu gwasanaeth cynllunio newydd a phwrpasol fel rhan o barc cenedlaethol newydd, mae eu cefnogaeth yn amodol ar sicrhau cyllid priodol yn yr hirdymor, systemau swyddogaethol a'r sicrwydd y byddai parciau cenedlaethol eraill yng Nghymru yn parhau i gael eu cefnogi heb unrhyw ostyngiad yn y cyllid maent yn ei gael o ganlyniad i sefydlu parc cenedlaethol newydd¹⁵.

4.3 Adnoddau a sgiliau

Mae llawer o gyfranogwyr yn tynnu sylw at y ffaith bod prinder cynllunwyr ar draws awdurdodau lleol Cymru yn gyffredinol, yn enwedig cynllunwyr sydd â phrofiad addas ac yn meddu ar sgiliau cryf yn y Gymraeg. Mae llawer yn cydnabod y problemau presennol y mae awdurdodau lleol yn eu hwynebu o ran staffio, gyda swyddi gwag hirhoedlog ac ymdrechion i dorri nifer y staff, a allai gael eu gwaethygu trwy sefydlu awdurdod parc cenedlaethol newydd.

Mae rhai cyfranogwyr yn tynnu sylw at heriau'n ymwneud ag anghydraddoldeb adnoddau ymhlith awdurdodau lleol, a chanlyniadau awdurdodau cynllunio sydd â diffyg adnoddau, gan awgrymu y byddai oedi wrth brosesu a phenderfynu ar geisiadau, a diffyg arbenigedd lleol.

Mae llawer o gyfranogwyr yn pryderu y byddai sefydlu awdurdod cynllunio newydd yng Nghymru yn effeithio ar yr heriau presennol yn ymwneud ag adnoddau ac yn arwain at orymestyn y gronfa bresennol o gynllunwyr, gan waethygu'r problemau presennol o ran adnoddau. Yn gyffredinol, teimlir y byddai awdurdod parc cenedlaethol newydd yn debygol iawn o ailddosbarthu a denu staff o'r awdurdodau lleol presennol.

Mae cydnabyddiaeth hefyd o'r angen ehangach am strwythurau llywodraeth newydd, gan gynnwys aelodau lleol, cynghorwyr ac aelodau pwyllgor yn ogystal â swyddogion a staff gweinyddol.

O ran y gwasanaethau arbenigol y mae eu hangen i gefnogi parc cenedlaethol newydd, mae'r prinder presennol o ecolegwyr, swyddogion coed, arbenigwyr tirwedd a swyddogion treftadaeth adeiledig yn cael ei amlygu, gan awgrymu hefyd bod angen ychwanegol am gefnogaeth treftadaeth a chadwraeth mewn cysylltiad â gwarchod a gwella'r dirwedd. Mae rhai'n awgrymu y gallai cyfuno rolau, fel cadwraeth a dylunio trefol, fod yn ffordd effeithiol o ddefnyddio arbenigedd presennol wrth gynnal safonau uchel. Cydnabyddir hefyd y gallai fod angen pwyslais ychwanegol ar orfodi cynllunio mewn parc cenedlaethol, a gallai hyn olygu y byddai angen adnoddau ychwanegol i wneud hynny o'i gymharu â'r sefyllfa bresennol

¹⁵ Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau na fyddai hyn yn wir. Adolygiad o'r gwasanaethau cynllunio yng nghyd-destun parc cenedlaethol arfaethedig yng Nghymru – Cyfoeth Naturiol Cymru
290119-00 | A | 4 Mehefin 2025 | Adroddiad Terfynol Ove Arup & Partners Limited Tudalen 25

(gallai cyfundrefn polisi parc cenedlaethol arwain at ragor o ddatblygiadau nad ydynt wedi’u hawdurdodi a galw cynyddol ar dimau gorfodi).

Derbynnir, yn gyffredinol, y dylai cynllunwyr yn y Gogledd feddu ar sgiliau Cymraeg o ystyried maint y boblogaeth sy’n siarad Cymraeg yn y rhanbarth hwnnw (gan gynnwys yr ardal ymgeisiol). Ystyrir bod hyn yn lleihau argaeledd adnoddau hyd yn oed yn fwy pan fo adnoddau’n brin eisoes.

Mae rhai o’r farn, oherwydd y gall parciau cenedlaethol godi ffioedd am wasanaethau cynllunio, a all fod yn ffynhonnell incwm sylweddol, y gall y dynodiad helpu i ddenu a chadw gweithwyr medrus ac ymroddedig. Fodd bynnag, mae tirweddau cenedlaethol yn dibynnu mwy ar barodrwydd datblygwyr i dalu am wasanaethau ymgynghori, sy’n llai dibynadwy, ac yn aml yn arwain at ddim sydd â llai o adnoddau.

Mae rhai cyfranogwyr yn nodi y gallai dull cyffredin o gynllunio gwasanaethau fod yn briodol a chaniatáu i gynllunwyr ar draws awdurdodau lleol cyfansoddol gael eu huwchsgilio ac ymgymryd â maes gwaith newydd, gan roi amrywiaeth iddynt a chyfle i ddysgu a datblygu ymhellach. Nodwyd gan rai bod y cydwasaeth ar gyfer cynllunio mwynau a gwastraff yng Nghymru yn enghraifft dda o arferion gorau, ac awgrymwyd y gellid ymestyn hyn i rolau tirlunio a rolau arbenigol eraill. Mae rhai’n awgrymu y gallai unrhyw barc cenedlaethol newydd ddefnyddio cydwasaethau o gynghorau sir presennol ar gyfer swyddogaethau fel priffyrdd, tai ac ecoleg, gan sicrhau cysondeb ac effeithlonrwydd.

Mynegodd eraill bryderon y gallai rhannu adnoddau arwain at lwyth gwaith a phwysau trymach ar gynllunwyr o fewn awdurdodau lleol cyfansoddol pe na bai’r cyfyngiadau presennol ar adnoddau yn cael eu datrys yn gyntaf, ac na ddylid gofyn iddynt ymgymryd â gwaith awdurdod cynllunio lleol newydd yn ogystal â chyfrifoldebau presennol. Mae pryder hefyd y byddai cydwasaeth cynllunio yn llai ymarferol yng nghefn gwlad (mae’n bosibl byddai angen treulio diwrnod cyfan i deithio i ymweld â safle) gyda chostau uwch o ganlyniad i hyn.

Mae rhai o’r farn y dylid trafod rôl bosibl y cyd-bwyllgorau corfforedig, o ran cydlynu gwasanaethau cynllunio rhanbarthol a rolau arbenigol, gan gydnabod yr heriau o ganoli unrhyw adnoddau sy’n aml yn gysylltiedig â phryderon ynghylch diogelu adnoddau lleol a blaenoriaethu tasgau lleol. Gallai cyd-bwyllgorau corfforedig helpu i sefydlu cymunedau ymarfer o amgylch gwasanaethau arbenigol er mwyn sicrhau cydnetheredd a hybu arloesedd. Gallai hyn helpu i leihau gweithio ar wahân a gwella gwasanaethau cyhoeddus yn gyffredinol.

Gwnaed awgrym y gallai cyd-bwyllgorau corfforedig hefyd gynnig awdurdod amgen i reoli swyddogaethau’r parc cenedlaethol.

Mae llawer o awdurdodau lleol yn nodi eu bod yn dibynnu ar gymorth ymgynghorwyr ar gyfer eu gwasanaethau cynllunio neu rolau arbenigol penodol pan fo galw, ac nid yw dibynnu ymhellach ar adnoddau allanol yn fodel cynaliadwy o ystyried y costau ynghlwm wrth hyn. Mae pryderon, drwy roi rhagor o bwysau ar adnoddau presennol, y bydd angen i rai awdurdodau ddibynnu mwy ar ddod â chymorth allanol i mewn trwy ddefnyddio ymgynghorwyr.

Mae rhai cyfranogwyr yn nodi, waeth beth fo’r model neu’r dull a gymerir i warchod y dirwedd, mai’r peth pwysicaf yw’r adnoddau priodol a’r gweithlu medrus sy’n gwneud penderfyniadau ac yn rhoi polisiâu cynllunio ar waith.

Mae rhai cyfranogwyr yn cydnabod y goblygiadau gwleidyddol posibl o statws parc cenedlaethol a’r angen am bwyllgor cynllunio hyfforddedig ac aelodau lleol i helpu i sicrhau bod datblygiad yn cael ei reoli mewn modd priodol yn unol â pholisiâu cenedlaethol a lleol (gan gydnabod y gellir wynebu tensiynau wrth bontio i bolisi newydd). Yn yr un modd, ystyrir bod gwella ansawdd ymatebion gan gynghorau cymuned drwy hyfforddiant yn bwysig i helpu i wella eu cyfraniad at benderfyniadau cynllunio, a fyddai hyd yn oed yn bwysicach yng nghyd-destun parc cenedlaethol.

Mae llawer yn cydnabod yr angen cyffredinol yng Nghymru i wneud cynllunio’n fwy deniadol fel gyrfa, gan gynnwys cyfleoedd ar gyfer bwrsariau ar gyfer myfyrwyr cynllunio, prentisiaethau a’r cynllunio hirdymor y mae ei angen i sicrhau bod llif cyson o gynllunwyr ar gael i awdurdodau lleol yn y dyfodol.

4.4 Effaith ar y gweithgareddau cynllunio ymlaen llaw presennol neu arfaethedig

Mae rhai cyfranogwyr yn ystyried y byddai parc cenedlaethol newydd â phwerau gwneud cynlluniau yn helpu i fynd i’r afael ag anghysondebau canfyddedig mewn polisi a’r broses o wneud penderfyniadau ar draws y dirwedd genedlaethol bresennol, ac y byddai cynllun datblygu lleol ar gyfer y parc cenedlaethol yn darparu fframwaith cyson ar gyfer gwneud penderfyniadau.

Mae’r mwyafrif o’r cyfranogwyr o’r awdurdodau lleol presennol yn pryderu, yn arbennig, am yr effaith bosibl y bydd awdurdod cynllunio parc cenedlaethol newydd yn ei chael ar y gwaith sy’n mynd rhagddo, neu a allai fod yn mynd rhagddo, ar gynllun datblygu lleol newydd ar adeg y dynodiad, a’r goblygiadau y gallai hyn eu cael o ran y gwaith ychwanegol a’r costau sy’n gysylltiedig â hyn¹⁶.

Mae cyfranogwyr yn nodi, pe bai ffiniau’r awdurdodau lleol presennol yn newid yn sgil sefydlu parc cenedlaethol newydd, y byddai hyn yn debygol o olygu bod angen adolygu’r cynlluniau datblygu lleol a fabwysiadwyd ganddynt neu eu cynlluniau datblygu lleol arfaethedig newydd oherwydd y gofyniad cyfreithiol o dan Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (Adran 61) i gadw’r materion y gellid eu disgwyl i ddylanwadu ar ddatblygiad yr ardal neu ar gynllunio’r datblygiadau hynny dan sylw.

O ystyried y broses gyfredol ar gyfer cynlluniau datblygu lleol a’r amserlenni ar gyfer pob awdurdod, gyda’r mwyafrif wrthi’n llunio eu cynlluniau newydd, mae pryderon y gallai’r parc cenedlaethol newydd, fel y’i cynigiwyd, arwain at yr angen i’r awdurdodau lleol presennol i dynnu’r cynlluniau datblygu lleol newydd hyn yn ôl ac ailgychwyn y broses gyfan. Yn achos rhai awdurdodau lleol, byddai hyn yn effeithio ar drefniadau llywodraethu a chytundebau cyflawni. Nodwyd gan rai awdurdodau hefyd, oherwydd yr ansicrwydd hwn, eu bod yn petruso wrth ymgymryd â gwaith ar hyn o bryd, oherwydd eu bod yn ystyried y byddai angen iddynt roi’r gorau iddo, a’u bod yn aros i benderfyniad gael ei wneud ynghylch dynodiad.

Yn gyffredinol, mae llai o bryder ynghylch rhyngwynebau â’r cynlluniau datblygu strategol arfaethedig oherwydd y cânt eu llunio dros yr hirdymor dros y pum mlynedd nesaf, gyda chyfranogwyr yn ystyried y bydd angen i’r cynlluniau datblygu strategol ystyried y tirweddau gwarchodedig eisoes, ac efallai y bydd angen iddynt ystyried sefyllfa pan gyflwynir parc cenedlaethol newydd. Efallai y bydd y cynlluniau datblygu strategol yn gallu gwneud cyfraniad cadarnhaol at bolisi strategol lefel uwch ynghylch diogelu’r amgylchedd mewn ardaloedd sensitif megis parciau cenedlaethol a thirweddau cenedlaethol.

Rhagwelir, pe bai awdurdod cynllunio parc cenedlaethol newydd yn cael ei sefydlu, y byddai’n cael ei gyfethol i is-bwyllgor cynllunio perthnasol (neu is-bwyllgor arall) y cyd-bwyllgorau corfforedig, fel rhanddeiliad allweddol at ddibenion cynllunio.

Nodwyd gan rai cyfranogwyr hefyd y gallai fod angen diweddariadau i Cymru’r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040, oherwydd tensiynau posibl gyda pholisïau presennol a pharc cenedlaethol newydd, yn ogystal â’r angen i ystyried materion fel llain las a dyraniadau eraill a allai effeithio ar yr ardal ymgeisiol.

Mae rhai o’r farn nad yw’n debygol y bydd angen newidiadau sylweddol ar y cynlluniau trafnidiaeth rhanbarthol drafft ar gyfer y Gogledd a’r Canolbarth o ganlyniad i unrhyw barc cenedlaethol newydd, ac yn benodol gallai cynllun trafnidiaeth rhanbarthol drafft y Gogledd helpu i reoli mynediad cynaliadwy i dirweddau gwarchodedig mewn modd cadarnhaol yn ei bolisïau cydlynol rhanbarthol.

¹⁶ Ni ofynnwyd i awdurdodau lleol presennol ddarparu amcangyfrifon o gost y gwaith ychwanegol a allai fod yn gysylltiedig â dynodiad parc cenedlaethol newydd, o ystyried nad oes unrhyw benderfyniadau wedi’u gwneud ynghylch ardal ymgeisiol y parc cenedlaethol na’r model ar gyfer darparu gwasanaethau cynllunio.

Mae rhai cyfranogwyr yn awgrymu a allai trefniant pontio a deddfwriaeth neu ganllawiau ategol osgoi neu leihau pryderon o'r fath, megis dull graddol o sefydlu awdurdod cynllunio newydd, polisïau parciau cenedlaethol newydd, ac unrhyw gyfrifoldebau perthnasol.

Mae rhai ymatebwyr yn awgrymu y gallai defnyddio cyfarwyddiadau Erthygl 4 wrth reoli rhai datblygiadau o fewn y dirwedd genedlaethol, fel gweithgareddau carafanio a gwersylla, barhau i fod yn effeithiol a chael ei ehangu ymhellach.

4.5 Trefniadau pontio

Fel y nodwyd uchod, mae trefniadau pontio yn bryder, yn ogystal a bod yn angenrheidiol o bosibl i helpu i fynd i'r afael â phryderon ehangach.

Awgrymir bod angen trefniadau a chanllawiau pontio clir ar gyfer yr awdurdodau a'r swyddogion yn ystod unrhyw gyfnod pontio, yn bennaf ynghylch bylchau polisi yng nghwmpas y cynllun presennol ar gyfer yr ardal ymgeisiol, a sut i ymgymryd â gwasanaethau rheoli datblygu yn ystod unrhyw gyfnod pontio.

Ystyrir bod angen eglurder ynghylch polisïau cynllunio o fewn yr awdurdodau lleol presennol ac unrhyw barc cenedlaethol newydd fel rhan o gyfnod pontio, yn amodol ar unrhyw fodel a ddewisir o wasanaethau cynllunio. Mae pryder y byddai anghysondebau'n cael eu creu rhwng cynlluniau datblygu lleol presennol a diben a nodau unrhyw barc cenedlaethol newydd, hyd nes bod gan yr awdurdod parc cenedlaethol ei gynllun datblygu lleol ei hun ar waith. Mae rhai yn crybwyll Parc Cenedlaethol y Twyni Deheuol fel enghraifft bosibl o arferion da neu enghraifft y gellir dysgu gwersi ohoni, o ran ei ddull graddol o lunio cynlluniau a mabwysiadu polisïau lleol newydd (gweler 4.9.2).

Mae pryderon hefyd ynghylch problemau posibl o ran gwasanaethau gorfodi a'r angen am gysondeb oni bai neu hyd nes bod gan unrhyw awdurdod parc cenedlaethol newydd ei gynllun datblygu lleol ei hun ar waith, o ystyried y gallai fod yn gorfodi polisïau lleol presennol nad ydynt yn cyd-fynd yn gyfan gwbl â diben a nodau'r parc cenedlaethol.

Mae rhai cyfranogwyr yn mynegi eu bod yn well ganddynt i unrhyw gynlluniau datblygu lleol sy'n cael eu datblygu fod ar waith cyn i unrhyw aflonyddwch a heriau posibl gael eu hachosi gan ddynodiad parc cenedlaethol.

Mae rhai'n awgrymu y gallai amseriad unrhyw ddynodiad a gweithrediad parc cenedlaethol newydd fod yn gadarnhaol o ran y potensial i gynlluniau datblygu strategol fod ar waith ar gyfer y Gogledd a'r Canolbarth, ac y byddai cynllun datblygu lleol cryno (ar ôl mabwysiadu'r cynllun datblygu lleol) yn fanteisiol ar gyfer adnoddau a pholisïau yn ystod unrhyw gyfnod pontio a thu hwnt iddo.

O ran gwasanaethau rheoli datblygu, mae rhai cyfranogwyr yn mynegi'r angen am ddyddiad cau clir a diffiniedig ar gyfer gwneud ceisiadau cynllunio mewn unrhyw ardal awdurdod cynllunio lleol cydnabyddedig (yn amodol ar y model a ddewisir o wasanaethau cynllunio) i helpu i reoli'r effaith bosibl ar y gwasanaethau cynllunio presennol.

Mae rhai cyfranogwyr yn egluro sut y gallai fod yn ddryslyd i'r cyhoedd a rhanddeiliaid ddeall y swyddogaethau a'r cyfrifoldebau polisi a rheoli datblygu heb drefniadau wedi'u diffinio'n glir, gan gynnwys y rheini mewn unrhyw gyfnod pontio.

Mae llawer o randdeiliaid yn ceisio eglurder ynghylch yr effaith ar y polisïau presennol pe bai parc cenedlaethol newydd yn cael ei ddynodi; er enghraifft, byddai'r parc cenedlaethol yn effeithio ar y broses o roi polisïau ynni adnewyddadwy ar waith ac ardaloedd a aseswyd ymlaen llaw.

Awgrymodd rhai y gellid defnyddio'r timau tirwedd presennol sy'n ymwneud â chynhyrchu cynlluniau rheoli a hwyluso cyllid grantiau, ac ymgynghori â hwy i gael eu harbenigedd, yn ystod unrhyw gyfnod pontio (a/neu y tu hwnt i hwnnw).

4.6 Systemau digidol

Mae rhai cyfranogwyr yn awgrymu y bydd angen i unrhyw wasanaeth cynllunio newydd ystyried systemau newydd a sut maent yn rhyngweithio â systemau presennol awdurdodau lleol, yn amodol ar fodel cyflawni unrhyw wasanaethau cynllunio parciau cenedlaethol newydd. Er enghraifft, mewn trefniant lle mae ceisiadau cynllunio yn cael eu hystyried gan yr awdurdod cynllunio lleol presennol, efallai y bydd gofyn iddynt gael eu prosesu drwy system parc cenedlaethol a phorth digidol yn hytrach na thrwy system bresennol yr awdurdod lleol ar gyfer y ceisiadau hynny a fyddai'n cael eu gwneud yn ardal y parc cenedlaethol.

Yn fwy cyffredinol, awgrymir safoni systemau technoleg ar draws pob awdurdod lleol a pharciau cenedlaethol fel ffordd o wella'r rhyngwynebau rhyngddynt a'i gwneud yn haws i'r cyhoedd a rhanddeiliaid ymgysylltu â gwasanaethau cynllunio. Mae hyn yn cynnwys awgrymiadau ar gyfer cronfeydd data digidol ar gyfer ceisiadau cynllunio, a rhestr wirio safonol ar gyfer rheoli datblygiadau i'w gwneud yn haws i'r rheini sy'n ceisio datblygu o fewn ardal parc cenedlaethol gydymffurfio â gofynion cyn cyflwyno cais.

4.7 Effeithiau dadleoli

Mae rhanddeiliaid wedi codi amrywiaeth o effeithiau dadleoli posibl fel meysydd sy'n peri pryder, gan ganolbwyntio ar wahanol fathau o ddatblygiadau y gellid annog datblygwyr i beidio ag ymgymryd â hwy, neu eu lleihau, o fewn yr ardal ymgeisiol oherwydd y statws parc cenedlaethol y tu hwnt i'r dynodiad tirwedd genedlaethol presennol.

Mae pryder y gallai datblygiadau tai gael eu dadleoli, yn ogystal ag achosi prisiau tai i fod yn uwch, o ganlyniad i'r dynodiad o ystyried y cyfyngiadau y gallai eu rhoi ar ddatblygiadau tai. Mae rhai o'r farn y gallai hyn effeithio'n andwyol ar yr argaeledd o dai fforddiadwy yn yr ardal ymgeisiol. Mae rhai yn pryderu ynghylch yr effaith y byddai newid ffiniau pob un o'r awdurdodau lleol presennol a'r targedau tai yn ei chael, o ystyried y gallai rhai fod wedi cynnwys ardaloedd o fewn ffiniau'r parc cenedlaethol newydd. Mae ansicrwydd hefyd ynghylch beth fyddai dynodiad parc cenedlaethol newydd yn ei olygu i'r ffigurau hyn. Gwelir y penderfyniad i symud tuag at gynllun datblygu strategol i bennu targedau tai fel datrysiad posibl i'r pryder hwn. Fodd bynnag, mae'r egwyddor yn parhau ynghylch yr angen canfyddedig i ardaloedd y tu allan i barc cenedlaethol gyflenwi tai a allai fel arall fod wedi'u dyrannu neu eu datblygu y tu mewn i'r dirwedd genedlaethol bresennol.

Mae pryder ynghylch y gallu yn y dyfodol i ddatblygu safleoedd ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy megis ynni gwynt ar y tir ac ynni solar. Mae llawer yn cydnabod y tensiwn rhwng dyheadau di-garbon a gwarchod y dirwedd. Os cyfyngir ar ddatblygiadau yn yr ardal ymgeisiol, mae pryderon ehangach ynghylch pa mor agored yw Cymru i ddatblygiadau o'r fath o ystyried maint y tirweddau gwarchodedig ar draws rhanbarthau Cymru. Awgrymir y byddai dynodiad parc cenedlaethol newydd yn cymhlethu gofynion polisi presennol ymhellach, ac yn gwrthdaro â gofynion i gynyddu cynhyrchiant ynni adnewyddadwy a phontio i ffynonellau carbon is yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru ac ymrwymïadau ehangach. Cododd rhai ymatebwyr bryderon ynghylch gwrthwynebiadau i brosiectau sy'n agos at ardaloedd a aseswyd ymlaen llaw, a'r pwysau ychwanegol y gallai fod angen i awdurdodau cyfagos ymateb iddynt. Mae rhai'n awgrymu bod Lloegr yn mabwysiadu dull sy'n cael ei lywio yn fwy gan ddatblygwyr o ran ynni adnewyddadwy mewn tirweddau gwarchodedig, yn wahanol i Gymru a'r Alban, sydd â gwarchodaethau mwy trylwyr yn erbyn datblygu seilwaith ynni gwynt ar y tir yn yr ardaloedd hyn.

Mae gweithgareddau mwngloddio hefyd yn destun pryder, oherwydd byddai dynodi parc cenedlaethol yn golygu y byddai'r lefelau presennol o gloddio yn dirwyn i ben a byddai dim safleoedd newydd yn cael eu hagor yn yr ardal ymgeisiol. O ganlyniad, mae pryderon y byddai'n rhaid i'r deunyddiau crai y mae eu hangen ar gyfer datblygiadau newydd, gan gynnwys y prosiectau strategol ledled Cymru a gogledd-orllewin Lloegr, ddod o safleoedd eraill. Byddai hyn yn golygu y byddai angen cludo nwyddau o bellach i ffwrdd gan gynyddu'r allyriadau sy'n gysylltiedig â hyn yn ogystal â'r costau ychwanegol y byddai angen i ddatblygwyr eu hysgwyddo.

Mae cyfranogwyr yn tynnu sylw at effeithiau posibl ar ffermio ac arallgyfeirio gwledig o ystyried y canfyddiad a'r profiad bod parciau cenedlaethol yn gosod cyfyngiadau pellach ar arferion ffermio¹⁷. Mae pryder y byddai'r dynodiad yn llesteirio ymdrechion ffermwyr i arallgyfeirio a diogelu eu busnesau ar gyfer y dyfodol o ganlyniad, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i ostyngiad yn eu cyllid a nifer y ceisiadau cynllunio sy'n cael eu cymeradwyo. Ystyrir bod pwysau economaidd, fel cost uchel tir a'r angen am ffermio ar raddfa fwy, yn bwysig wrth wneud penderfyniadau cynllunio er mwyn osgoi disodli ffermydd llai.

Mae rhai cyfranogwyr yn tynnu sylw at bryderon ynghylch effeithiau anuniongyrchol parc cenedlaethol newydd ar y cyllid sydd ar gael ar gyfer gwasanaethau eraill mewn cymunedau lleol a'r effaith y gallai hyn ei chael ar ysgolion Cymraeg ac adnoddau cymunedol eraill. Mae rhai yn pryderu y byddai hyn yn arwain at bobl ifanc leol yn symud allan o'r ardal i ddod o hyd i waith ac astudio, gan na fydd economïau mwy traddodiadol o bosibl yn gallu gweithredu o fewn parc cenedlaethol (er y nodwyd y gallai mwy o dwristiaeth ddarparu cyfleoedd ychwanegol).

Mae rhai cyfranogwyr yn tynnu sylw at gamdybiaeth bod parciau cenedlaethol yn rhwystro datblygiad ac yn pwysleisio pa mor bwysig yw rheoli datblygiad mewn modd effeithiol i warchod y dirwedd.

Ystyriodd fod cynlluniau lleol awdurdodau cyfagos a phrosesau gwneud penderfyniadau awdurdodau cynllunio lleol cyfagos yn hanfodol, neu y byddant yn hanfodol, i reoli unrhyw effeithiau dadleoli a allai ddigwydd, a'r galw ychwanegol ar dir y tu allan i ffiniau'r parc cenedlaethol sy'n gysylltiedig â hyn. Mae pryderon y gallai datblygiad dwysach effeithio'n andwyol ar dirwedd yr ardaloedd cyfagos oherwydd effeithiau dadleoli.

4.8 Diben, canfyddiadau ac effaith ehangach dynodiad parc cenedlaethol newydd

Mae rhai cyfranogwyr yn codi pryderon ynghylch awdurdod cynllunio parc cenedlaethol newydd yn gwrthdaro â'r polisi hirdymor i annog cydweithio a lleihau nifer yr awdurdodau cynllunio yng Nghymru.

Mae rhai cyfranogwyr yn ansicr ai dynodi parc cenedlaethol yw'r mecanwaith mwyaf priodol i gyflawni rheolaethau a gwarchodaethau cynllunio ychwanegol y tu hwnt i'r gwarchodaethau a'r darpariaethau a gynigir gan y dynodiad tirwedd genedlaethol presennol. Mae rhai cyfranogwyr yn pryderu, er y byddai'r dynodiad yn canolbwyntio ar warchod y dirwedd fel y mae ar hyn o bryd, y gallai natur sefydlu parc cenedlaethol newydd ddenu nifer cynyddol o ymwelwyr i'r ardal ehangach, a allai yn ei dro roi straen ychwanegol ar y seilwaith presennol fel ffyrdd lleol a mannau parcio.

Mae rhai yn tynnu sylw at yr angen i gydbwysu datblygiad economaidd â diogelu'r amgylchedd. Enghraifft a ddyfynnwyd yw y gallai seilwaith grid tanddaearol fod yn well mewn parc cenedlaethol i fynd i'r afael â gwarchodaethau tirwedd ychwanegol, ond mae hyn yn llawer drutach a gallai effeithio'n negyddol ar fywyd gwyllt a bioamrywiaeth, gan ei gwneud yn hanfodol ystyried goblygiadau ehangach dynodiad parc cenedlaethol.

Mae llawer o gyfranogwyr hefyd yn tynnu sylw at y ffaith, pe bai parc cenedlaethol yn cael ei ddynodi, bod angen addysgu'r cyhoedd am ddiben parc cenedlaethol a goresgyn y canfyddiad ei fod yn ychwanegu haen o gyfyngiad, gan fod llawer o unigolion yn pryderu am fiwrocratiaeth a chyfyngiadau ychwanegol ar drigolion lleol (o ran rheolaethau cynllunio a materion economaidd-gymdeithasol ehangach).

Mae pryder hefyd y gallai awdurdod cynllunio parc cenedlaethol newydd gael ei ddatgysylltu oddi wrth gymunedau lleol oherwydd natur wledig ac ynysig y dirwedd, gyda'r swyddfeydd pencadlys yn debygol o fod ymhell i ffwrdd o rai trigolion.

¹⁷ Mae'r data a gasglwyd gan CNC fel y'i hystyriwyd yn 3.1.4 yn dangos, rhwng 2016 a 2022, nad oes fawr o wahaniaeth ym mherfformiad cyfartalog awdurdodau parciau cenedlaethol yng Nghymru, o'i gymharu ag awdurdodau cynllunio yng Nghymru, mewn perthynas â chyfradd gymeradwyo ceisiadau cynllunio ar gyfartaledd, a nifer y dyddiau, ar gyfartaledd, a gymerwyd i benderfynu ar geisiadau cynllunio. Adolygiad o'r gwasanaethau cynllunio yng nghyd-destun parc cenedlaethol arfaethedig yng Nghymru – Cyfoeth Naturiol Cymru

Mae rhai cyfranogwyr yn ystyried y byddai statws parc cenedlaethol yn cynrychioli cymuned yr ardal yn well, gan helpu i sicrhau bod eu hanghenion a'u buddiannau'n cael eu hystyried yn fwy priodol wrth gynllunio a datblygu.

4.9 Dadansoddi modelau amgen ar gyfer darparu gwasanaethau cynllunio

Archwiliodd adroddiad Gwerthuso'r Opsiynau Rheoli ('Adroddiad 2024') ai dynodi parc cenedlaethol yw'r mecanwaith gorau ar gyfer rheoli'r grymoedd dros newid (materion a chyfleoedd) gan ystyried y canlynol:

- a) Busnes fel arfer: parhau i reoli'r dirwedd genedlaethol
- b) Parc rhanbarthol y Cymoedd: dull partneriaeth, fel y'i sefydlwyd, i helpu'r Cymoedd
- c) Parc Rhanbarthol De'r Penwynion: darpar barc cenedlaethol blaenorol a gafodd ei ddatblygu fel parc rhanbarthol yn y pen draw trwy ddull partneriaeth
- d) Bwrdd cadwraeth: dull rheoli ar gyfer tirwedd genedlaethol
- e) Parc cenedlaethol: yn adlewyrchu cwmpas disgwyledig parc cenedlaethol yn y dyfodol

Swyddogaethau cynllunio oedd un maes a archwiliwyd fel rhan o'r opsiynau, ac nid yw'r adran hon yn ceisio dyblygu'r hyn sydd eisoes wedi'i ystyried gan CNC gydag LUC, ac wedi'i grynhoi yn adran 2.3 o'r adroddiad hwn.

Cyflwynir amlinelliad o brif ganfyddiadau Adroddiad 2004 isod, sy'n berthnasol i fodelau amgen ar gyfer darparu gwasanaethau cynllunio:

Model	Cwmpas ei ddylanwad	Sail statudol	Cynllunio rheoli	Cynllunio ymlaen llaw a rheoli datblygu	Cyllid
Parc cenedlaethol	Darparu rheolaeth gydlynol o'r ardal chwilio gyfan, gan sicrhau cynllunio cynhwysfawr ac ymdrin â materion rhanbarthol yn effeithiol	Cael dibenion statudol, gan roi mwy o bwys ar gynlluniau rheoli a phrosesau gwneud penderfyniadau	Mae angen cynllun rheoli ar gyfer y parc cenedlaethol a chynllun datblygu lleol, gan ymgorffori amcanion cadwraeth â chynllunio ar gyfer materion economaidd, cymdeithasol a diwylliannol	Paratoi ei gynllun datblygu lleol ei hun, gan ddarparu un fframwaith polisi cydlynol sy'n canolbwyntio ar amcanion y parc cenedlaethol. Mae ganddo bwerau rheoli datblygu, er bod modelau amgen ar gyfer cyflawni.	Cyllid craidd o Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol, gyda chyfleoedd i godi incwm pellach o ffynonellau eraill, gan gynnwys arallgyfeirio incwm

Bwrdd cadwraeth	Yn debyg i barc cenedlaethol, yn cynnig rheolaeth gydlynol ar draws yr ardal chwilio		Angen cynllun rheoli wedi'i baratoi gan y bwrdd	Yr awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am gynllunio, ac mae dibenion y dirwedd genedlaethol yn cael eu hadlewyrchu drwy bolisi cynllunio cenedlaethol a lleol	Cyllid craidd wedi'i ddarparu trwy Lywodraeth Cymru a grantiau
Parc rhanbarthol (anstatudol)	Y ddau yn darparu rheolaeth gydlynol, ond heb sail statudol, sy'n cyfyngu ar eu dylanwad	Anstatudol, heb gyfeiriad penodol ato mewn polisi cenedlaethol, sy'n cyfyngu ar ei effeithiolrwydd	Cynllun cyflenwi strategol anstatudol neu gynllun a reolir drwy gynllun partneriaeth gyda chynlluniau gweithredu	Yr awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am gynllunio, ac mae dibenion y parciau rhanbarthol yn cael eu hadlewyrchu drwy bolisi cynllunio lleol	Yn ddibynnol ar gyllid grant a chyfraniadau mewn nwyddau
Model	Cwmpas ei ddylanwad	Sail statudol	Cynllunio rheoli	Cynllunio ymlaen llaw a rheoli datblygu	Cyllid
Tirwedd genedlaethol (Busnes fel arfer)	Diffyg cydlyniant wrth reoli'r ardal chwilio ehangach, gan ganolbwyntio ar y dirwedd genedlaethol bresennol yn unig	Diben statudol ar gyfer y dirwedd genedlaethol bresennol, ond nid ar gyfer yr ardal chwilio ehangach	Cynllun rheoli tirwedd genedlaethol ar gyfer Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy, ond dim mecanwaith ar gyfer yr ardal chwilio ehangach	Yr awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am gynllunio, ac mae dibenion y dirwedd genedlaethol yn cael eu hadlewyrchu drwy bolisi cynllunio cenedlaethol a lleol	Cyllid gan Cyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru ar gyfer y dirwedd genedlaethol, ond dim cyllid penodol ar gyfer yr ardal chwilio ehangach

O ystyried popeth, mae Adroddiad 2024 yn amlinellu sut y byddai dynodi parc cenedlaethol yn darparu'r fframwaith ymgorffori cryfaf a'r diogelwch mwyaf ar gyfer rheolaeth hirdymor, gan fynd i'r afael yn effeithiol â'r grymoedd dros newid a nodwyd. Yn benodol, byddai gan barc cenedlaethol swyddogaethau cynllunio a hefyd diogelwch cyllid craidd trwy gael grant parc cenedlaethol. Er y byddai dynodiad parc cenedlaethol yn cyflwyno pwysau newydd (o ran nifer a phatrymau ymwelwyr, cyllid a gweithio mewn partneriaeth) ystyrir ei fod yn cynnig mecanweithiau i reoli'r rhain yn effeithiol, gan dynnu ar brofiad parciau cenedlaethol eraill. Mae'r adroddiad yn dod i'r casgliad bod fframwaith statudol dynodiad parc cenedlaethol, neu sefydlu tirwedd genedlaethol estynedig newydd, yn darparu'r mecanwaith mwyaf cadarn ar gyfer cynllunio a rheoli'r ardal ymgeisiol, gan helpu i sicrhau rheolaeth gynhwysfawr ac effeithiol o faterion rhanbarthol.

Gan adeiladu ar y gwaith perthnasol hwn, mae'r adolygiad hwn o'r gwasanaethau cynllunio wedi cwblhau tair astudiaeth achos â ffocws sy'n ystyried y canlynol:

- 1) Parc Cenedlaethol Eryri, yn meddu ar bwerau cynllunio llawn
- 2) Parc Cenedlaethol y Twyni Deheuol, yn meddu ar bwerau cynllunio a rennir
- 3) Bwrdd cadwraeth Tirwedd Genedlaethol y Cotswolds, nad yw'n meddu ar bwerau cynllunio uniongyrchol, ond sydd â rôl gynghori bwysig yn ystod y broses gynllunio

Ystyrir pob un yn ei dro isod.

4.9.1 Parc Cenedlaethol Eryri

Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn gorff cyhoeddus annibynnol sydd â chyfrifoldeb statudol dros warchod y parc cenedlaethol. Er i Eryri gael ei ddynodi'n barc cenedlaethol ym 1951, ni ddaeth awdurdod y parc yn gorff annibynnol ac yn awdurdod cynllunio lleol tan 1996.

Mae gan yr awdurdod swyddogaethau statudol i ddiogelu a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol, ac i hyrwyddo cyfleoedd i'r cyhoedd ddeall a mwynhau rhinweddau arbennig y parciau cenedlaethol. Wrth gyflawni'r swyddogaethau hyn, mae'n ofynnol i awdurdodau parciau cenedlaethol, gan gynnwys Eryri, gynnal llesiant economaidd a chymdeithasol cymunedau lleol y parc cenedlaethol.

Dynodwyd Eryri yn barc cenedlaethol ar 18 Hydref 1951 yn swyddogol, yn dilyn deddfiad Deddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949. Sefydlwyd ffiniau'r parc cenedlaethol ym 1950 yn seiliedig ar argymhellion Comisiwn y Parc Cenedlaethol ar y pryd.

Mae gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri 18 aelod. Mae'r aelodau'n cael eu penodi gan Lywodraeth Cymru, Cyngor Gwynedd a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn cyflogi dros 100 aelod o staff.

Ddiwedd 2020, lansiwyd cynllun rheoli statudol y parc cenedlaethol, sef Cynllun Eryri. Roedd datblygiad y cynllun hwn yn cynrychioli newid sylweddol yn null gweithredu'r awdurdod, gan bwysleisio ar gydweithio a phartneriaethau wrth warchod a gwella'r parc cenedlaethol.

Adeiladodd y fenter hon ar Bartneriaeth yr Wyddfa, a sefydlwyd i lunio cynllun rheoli newydd ar gyfer yr Wyddfa a'i roi ar waith.

Ym mis Tachwedd 2021, ffurfiodd Cyngor Gwynedd ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri bartneriaeth er mwyn sicrhau cynaliadwyedd Gwynedd ac Eryri ar gyfer y dyfodol. Nod y cydweithrediad hwn yw datblygu cynllun cynaliadwy economi ymwelwyr ar gyfer yr ardal, gan ganolbwyntio ar gynaliadwyedd a gwarchodaeth hirdymor. Mae Economi Ymwelwyr Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri 2035 yn cyflwyno dull newydd o fesur effaith twristiaeth ar y rhanbarth. Trwy gymryd rhan mewn trafodaethau â thrigolion a gweithwyr lleol, mae'r cynllun yn sefydlu egwyddorion a gynlluniwyd i gydbwysu anghenion yr ardal ac yn blaenoriaethu cymunedau o blith y rheini sy'n elwa ar yr economi ymwelwyr. Mae'r cynllun yn cydnabod pwysigrwydd yr economi ymwelwyr wrth sicrhau bod rhinweddau unigryw'r ardal yn cael eu gwarchod a'u cadw.

Mae'r awdurdod parc cenedlaethol yn gyfrifol am bob mater cynllunio a datblygu o fewn ffiniau'r parc cenedlaethol. Mae'r cyfrifoldebau adrannol yn cynnwys y canlynol:

- cymryd ac ymdrin â cheisiadau ac ymholiadau cynllunio a datblygu o fewn y parc cenedlaethol
- cynhyrchu a datblygu cynllun datblygu lleol sy'n adlewyrchu'r heriau sy'n wynebu'r parc cenedlaethol, megis newid yn yr hinsawdd
- datblygu polisiau cynllunio sy'n gwarchod ac yn gwella rhinweddau arbennig Eryri

- diogelu a dathlu hanes a threftadaeth ddiwylliannol y parc cenedlaethol

Mae prif ganfyddiadau'r cyfweiliad astudiaeth achos â chynrychiolwyr yr awdurdod parc cenedlaethol yn helpu i dynnu sylw at y canlynol:

- a) Llwyddiant swyddogaeth llunio polisïau'r parc cenedlaethol, gan nodi eu heffeithlonrwydd wrth fabwysiadu ac adolygu cynlluniau datblygu lleol, oherwydd y dirwedd wledig a'r pwyslais ar ddibenion y parc cenedlaethol.
- b) Yr heriau wrth recriwtio staff arbenigol, yn enwedig swyddogion sy'n siarad Cymraeg, a'r problemau o ran cydnerthedd sy'n wynebu tîm cymharol fach. Gwelir pwyslais ar hyfforddeiaethau graddedigion fel datrasiad hirdymor posibl i helpu i hyfforddi'r gweithlu arbenigol lleol a siaradwyr Cymraeg yn y dyfodol, ochr yn ochr â chydlynio adnoddau posibl ar draws y rhanbarth rhwng awdurdodau lleol. Gallai hyn helpu i gynyddu cydnerthedd mewn rolau arbenigol, fel swyddogion tirwedd, ledled y Gogledd i fynd i'r afael ag anghenion achlysurol (mae angen i'r parc cenedlaethol brynu gwasanaethau arbenigol weithiau, fel penseiri tirwedd ac ecolegwyr, oherwydd y diffyg galw / angen am swyddi llawn amser).
- c) Y pwyslais ar staff sy'n siarad Cymraeg, gan helpu i gysylltu â chymunedau lleol a diogelu nodweddion y dirwedd.
- d) Strwythur ariannu'r awdurdod parc cenedlaethol, sy'n cynnwys cyfraniadau gan Lywodraeth Cymru a chynghorau lleol, gan nodi bod dyraniad adnoddau yn fwy cyson ac yn llai agored i benderfyniadau gwleidyddol o'i gymharu ag awdurdodau lleol eraill.
- e) Yr ymdrechion cydweithredol gydag awdurdodau cyfagos ar lunio polisïau a phrosiectau datblygu, gan dynnu sylw at bwysigrwydd cydweithio a meddwl cydgysylltiedig, yr ystyrir ei fod yn gweithio'n dda.
- f) Y buddion posibl o gynllunio strategol, gyda chynlluniau datblygu strategol arfaethedig, a'r angen am gyllid digonol, gan nodi'r effaith gadarnhaol y mae cynllunio trafnidiaeth integredig yn ei chael ar y parc cenedlaethol drwy'r cynllun trafnidiaeth rhanbarthol arfaethedig. Rhoddwyd enghraifft o bolisïau'r cynllun trafnidiaeth rhanbarthol drafft sy'n canolbwyntio ar gysylltiadau trafnidiaeth gynaliadwy a phyrth i'r parc cenedlaethol, yr ystyrir ei fod yn gyfle sydd wedi bod yn bosibl oherwydd gwaith cydlynio rhanbarthol, cydweithio a blaenoriaethau strategol.

4.9.2 Parc Cenedlaethol y Twyni Deheuol

Parc Cenedlaethol y Twyni Deheuol yw'r un mwyaf newydd o blith 15 parc cenedlaethol y DU. Daeth Parc Cenedlaethol y Twyni Deheuol i fodolaeth yn swyddogol ar 31 Mawrth 2010, ac ymgymrodd â'i bwerau a'i ddyletswyddau llawn o fis Ebrill 2011. Fodd bynnag, gellir olrhain y syniad o Barc Cenedlaethol y Twyni Deheuol yr holl ffordd yn ôl i 1929. Y Twyni Deheuol yw'r mwyaf poblog o blith holl barciau cenedlaethol y DU. Mae 117,000 yn byw ac yn gweithio o fewn ffiniau'r parc, gyda dwy filiwn ychwanegol o bobl yn byw o fewn pum cilometr i'r parc.

Mae 15 awdurdod lleol o fewn y parc, sy'n cwmpasu siroedd Hampshire, Gorllewin Sussex a Dwyrain Sussex, ac mae'n ymgorffori dwy ardal a ddynodwyd yn flaenorol yn ardaloedd o harddwch naturiol eithriadol, sef AHNE Dwyrain Hampshire ac AHNE Twynder Sussex. Mae'r parc hefyd yn cynnwys Parc Gwledig y Frenhines Elisabeth ger Petersfield.

Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol y Twyni Deheuol yn cael ei redeg gan fwrdd o 27 o aelodau:

- mae saith yn cael eu penodi gan yr Ysgrifennydd Gwladol drwy broses recriwtio agored
- mae chwech yn cael eu henwebu gan gynghorau plwyf / tref neu gyfarfodydd plwyf o fewn y parc cenedlaethol
- mae 14 yn cael eu penodi gan bob un o'r 15 awdurdod lleol sy'n cwmpasu ardal y parc cenedlaethol (mae Adur a Worthing wedi dewis rhannu aelod)

Mae'r cynllun rheoli partneriaeth yn ddogfen allweddol sy'n nodi'r blaenoriaethau ar gyfer Parc Cenedlaethol y Twyni Deheuol ar gyfer 2020–2025, a disgwylir bod y fersiwn nesaf yn cael ei fabwysiadu

yn 2026 ar gyfer y pum mlynedd nesaf. Y cynllun yw'r ddogfen bolisi bwysicaf ar gyfer y parc cenedlaethol. Mae'n cynnwys gweledigaeth, tair thema strategol gysylltiedig a 10 canlyniad sy'n nodi'r hyn yr hoffem ei gyflawni erbyn 2050. Mae'r themâu a'r canlyniadau'n gweithio gyda'i gilydd, ac yr un mor bwysig a'i gilydd.

Mae cynllun lleol y Twyni Deheuol yn cwmpasu'r parc cenedlaethol cyfan. Fe'i datblygwyd drwy ymgynghori helaeth â'r cyhoedd â chymunedau lleol, ac archwiliad manwl gan arolygiaeth gynllunio'r llywodraeth, a ganfu fod y polisïau'n gadarn o wneud rhai addasiadau. Mae'r cynllun lleol yn ystyried amrywiol ffactorau sy'n ymwneud â rhinweddau arbennig y parc cenedlaethol, gan gynnwys cymeriad ei dirwedd, bioamrywiaeth, treftadaeth ddiwylliannol, cynlluniau cymdogaeth, anghenion tai ac economaidd lleol, ac effaith newid yn yr hinsawdd.

Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol y Twyni Deheuol yn gweithredu fel awdurdod cynllunio yn ei rinwedd ei hun, ac mae'n gyfrifol am bob mater sy'n ymwneud â chynllunio o fewn y parc cenedlaethol. Fodd bynnag, mae rhai awdurdodau lleol yn ymdrin â rheoli datblygu ar ei ran drwy broses ddirprwyo. Mae'r awdurdodau hynny 'sy'n lletya' yn ymdrin â phob cwestiwn, cyngor a chais sy'n ymwneud â chynllunio yn eu hardaloedd ar ran y parc cenedlaethol, gan gynnwys y canlynol: 1) Cyngor Dosbarth Chichester

- 2) Cyngor Dosbarth Dwyrain Hampshire
- 3) Cyngorau Lewes ac Eastbourne
- 4) Cyngor Dinas Caerwynt

Yna mae swyddogion cynllunio'r awdurdod parc cenedlaethol yn ymdrin â phob mater cynllunio o fewn ardaloedd yr awdurdod lleol canlynol yn uniongyrchol:

- Cyngor Dosbarth Arun
- Cyngorau Adur a Worthing
- Cyngor Dinas Brighton a Hove
- Cyngor Dosbarth Horsham
- Cyngor Dosbarth Canolbarth Sussex
- Cyngor Dosbarth Wealden
- Materion cynllunio yn ymwneud â mwynau a gwastraff ar gyfer cyngorau sir Hampshire, Dwyrain Sussex a Gorllewin Sussex

Mae prif ganfyddiadau'r cyfweiliad astudiaeth achos â chynrychiolwyr yr awdurdod parc cenedlaethol yn helpu i dynnu sylw at y canlynol:

- a) Mae'r tîm cynllunio'n cynnwys aelodau sy'n gweithio ar gynlluniau lleol, cynlluniau cymdogaeth, mwynau a gwastraff, a phrosiectau mawr, gan ganolbwyntio ar geisiadau a gorfodi 'sylweddol' (mae'r diffiniad o 'sylweddol' yn cynnwys cymhwyso disgrisiwn a barn broffesiynol).
- b) Caiff materion polisi eu trin yn fewnol, gan sicrhau cysondeb a phwyslais ar faterion arwyddocaol sy'n berthnasol i swyddogaeth y parc cenedlaethol. Mae'r parc wedi elwa ar fabwysiadu ei gynllun lleol, sydd wedi rhoi cyfeiriad i bolisïau a llywio penderfyniadau datblygu ers mis Gorffennaf 2019. Cyn hynny, cynlluniau lleol presennol yr awdurdodau lleol oedd fframwaith polisi'r parc cenedlaethol, a gafodd eu disodli mewn rhai achosion gan strategaethau craidd ar y cyd. Hwylusodd y dull ailadroddol hwn o ymdrin â fframwaith y polisi i gefnogi trefniadau pontio; yn y pen draw, roedd y broses o fabwysiadu cynllun lleol y parc cenedlaethol wedi helpu i sicrhau cysondeb, a lleihau neu osgoi dryswch a/neu densiynau posibl neu ganfyddedig gan y cyhoedd a rhanddeiliaid allweddol yn y fframwaith pan oedd safbwynt aml-gynllun gynt.
- c) Pwysigrwydd cael un cynllun lleol ar gyfer y parc cenedlaethol cyfan, sydd wedi symleiddio'r broses o wneud penderfyniadau a chymhwyso polisïau.

- d) Y cyfleoedd i'r strategaethau datblygu gofodol arfaethedig helpu i gydlynw blaenoriaethau'r rhanbarth yn well, a ddylai adlewyrchu pwysigrwydd y parc cenedlaethol a chefnogi'r trafodaethau sy'n mynd rhagddynt â'r awdurdodau cyfansoddol ynghylch rhannu niferoedd yr angen o ran tai, gan nad oes gan y parc cenedlaethol ei ffigur ei hun. Gallai'r strategaethau datblygu gofodol helpu i ddatrys y tensiwn hwn.
- e) Mae rheoli datblygu wedi'i ddirprwyo i raddau helaeth i awdurdodau lleol, ac mae pedwar prif awdurdod yn cwmpasu'r rhan fwyaf o ardal y parc cenedlaethol gan ymdrin â'r mwyafrif o'r ceisiadau o fewn y parc cenedlaethol. Mae'r awdurdodau llai eraill wedi camu yn ôl o'r trefniant dirprwyedig hwn dros amser; penderfynwyd gwneud hyn yn bennaf oherwydd yr arbedion maint / heriau o ran adnoddau gan benderfynu, felly, i drosglwyddo'r swyddogaethau rheoli datblygu yn yr ardaloedd awdurdod hynny yn ôl i'r parc cenedlaethol. Mae'r dull hybrid hwn yn golygu bod y parc cenedlaethol yn ymdrin, yn bennaf, â cheisiadau llai yn ardaloedd yr awdurdodau llai, ac yn dibynnu ar y pedwar prif awdurdod i reoli'r mwyafrif o'r ceisiadau ar draws ardal y parc cenedlaethol.
- f) Yr eithriadau i drefniadau rheoli datblygu yw pan fo'r parc cenedlaethol yn 'galw i mewn' ceisiadau mwy arwyddocaol y mae am eu hystyried, gan dynnu'n ôl ei ddirprwyaeth o bwerau gwneud penderfyniadau fesul achos i bob pwrpas. Mae hyn yn ceisio sicrhau bod yr awdurdod parc cenedlaethol yn parhau i reoli'r datblygiadau yr ystyrir bod ganddynt y potensial i gael yr effaith fwyaf ar ardal y parc cenedlaethol. Er y gallai'r dull hwn arwain at densiynau rhwng y gwahanol bartïon, ystyrir, ar y cyfan, bod y dull hwn yn gweithio'n dda.
- g) Mae tîm cynllunio'r parc cenedlaethol yn ymdrin â thua 5,000 o geisiadau'r flwyddyn, gyda chymysgedd o geisiadau llai a phrosiectau mawr. Oherwydd maint yr ardal a nifer y ceisiadau o ganlyniad i hyn, mae'r parc yn elwa ar dîm cymharol fawr. Darperir organogram sy'n dangos rolau a strwythur y tîm yn Atodiad D.
- h) Mae cyfrifoldeb dros orfodi cynllunio hefyd yn cael ei ddirprwyo yn ôl i awdurdodau lleol ar yr un trefniant â swyddogaethau rheoli datblygu, unwaith eto gydag offeryn 'galw i mewn' ar gyfer achosion yr ystyrir bod ganddynt y potensial i gael effaith strategol ar y parc cenedlaethol.
- i) Yr heriau o gydlynw â nifer o awdurdodau lleol, yn enwedig pan oedd ganddynt gynlluniau lleol gwahanol, ac yn parhau i fod â systemau a phrosesau dilysu gwahanol, yn enwedig gyda thimau gweinyddu ar y cyd ar draws cyngorau yn ymdrin ag amrywiol dasgau. Mae cael un porth ar gyfer ceisiadau yn unig yn y parc cenedlaethol wedi helpu i wella rhyngwyneb swyddogion, rhanddeiliaid allanol a'r cyhoedd â'r broses o reoli datblygu yn ardal y parc cenedlaethol; fodd bynnag, yn aml mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau sy'n lletya weithio ar draws gwahanol systemau a chynlluniau.
- j) Mae timau cynllunio pwrpasol y Twyni Deheuol o fewn yr awdurdodau mawr wedi gwella cysondeb wrth ddechongli polisïau.
- k) Rôl arbenigol 'swyddog cyswllt' yn y parc cenedlaethol wrth gydlynw ceisiadau a sicrhau cysondeb wrth gymhwyso polisïau. Mae hyn wedi helpu i bontio'r prosesau gwasanaethau cynllunio a'r rheolaeth ohonynt ar draws awdurdodau.
- l) Yr angen am ragor o arbenigwyr mewnol a'r heriau o gynnal cydberthnasau ag awdurdodau lleol wrth reoli adnoddau'n effeithiol. Mae gan yr awdurdod parc cenedlaethol fwy o arbenigwyr mewnol na'r mwyafrif o'r awdurdodau lleol oherwydd y swyddogaethau sydd ganddo, ond mae'n dal i gontractio rhai gwasanaethau i bartïon allanol. Er gwaethaf cael cyllideb gymharol wastad a wynebu toriadau i'r cyllid gan y llywodraeth leol, ystyrir bod gan y parc cenedlaethol well adnoddau na'r awdurdodau lleol, gan ei wneud yn fwy cydnorth wrth wynebu heriau.
- m) Yn gyffredinol, mae gan yr awdurdod parc cenedlaethol well adnoddau nag awdurdodau lleol, a gall fod yn fwy cystadleuol o ran y cyflogau y mae'n eu cynnig oherwydd y cyllid a geir gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA), tra bod gan awdurdodau lleol ffynonellau cyllid gwahanol. Ystyrir bod y gwahaniaeth hwn o ran cyllid yn caniatáu i'r awdurdod parc cenedlaethol fod yn fwy cystadleuol wrth recriwtio.

n) Yr effaith bosibl y byddai ad-drefnu llywodraeth leol yn Lloegr yn ei chael ar wasanaethau cynllunio a'r newid posibl i fodel y Twyni Deheuol. Efallai y bydd angen mwy o ofod swyddfa ac adnoddau, gan ragweld y gallai fod angen i'r awdurdod gymryd yr holl wasanaethau cynllunio yn ôl yn fewnol yn y dyfodol. Fodd bynnag, gallai hyn helpu i atal y dryswch cyffredinol a pharhaus ymhlith y cyhoedd ynghylch pwy sy'n gyfrifol am gynllunio gwasanaethau oherwydd y system ddirprwyo; dichon fod gwers bosibl i eraill ei dysgu ynghylch cyfyngu'r dull dirprwyo i ychydig o bartneriaid mawr yn hytrach na llawer o bartneriaid llai i helpu i symleiddio cydlyniant a gwella cysondeb.

4.9.3 Tirwedd Genedlaethol y Cotswolds

Mae Tirwedd Genedlaethol y Cotswolds wedi bod yn AHNE ers 1966. Dyma'r mwyaf o blith y 46 AHNE yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon. Y Cotswolds yw'r dirwedd warchodedig drydedd fwyaf yn Lloegr, ar ôl Parc Cenedlaethol Ardal y Llynnoedd a Pharc Cenedlaethol Dyffrynnoedd Swydd Efrog. Mae'n ymestyn o Gaerfaddon a Wiltshire yn y de, trwy Swydd Gaerloyw a Swydd Rydychen i Swydd Warwick a Swydd Gaerwrangon yn y gogledd. Mae'n cwmpasu 15 o ardaloedd awdurdod lleol.

Mae Tirwedd Genedlaethol y Cotswolds yn gorff statudol annibynnol ar ffurf bwrdd cadwraeth, a sefydlwyd gan orchymyn seneddol yn 2004. Mae ganddo 37 o aelodau bwrdd o awdurdodau lleol, cynghorau plwyf, a phenodiadau a wnaed gan DEFRA.

Mae ffiniau Tirwedd Genedlaethol y Cotswolds yn cwmpasu nifer o awdurdodau cynllunio, gan gynnwys cynghorau dosbarth a bwrdeistref, cynghorau sir ac awdurdodau unedol. Mae'r rhain yn gyfrifol am ddyraniadau tai a phenderfyniadau datblygu drwy bolisi cynllunio a swyddogaethau rheoli datblygu. Fel pob corff cyhoeddus yn Lloegr, mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd gyfreithiol i 'geisio hyrwyddo' diben gwarchod a gwella harddwch naturiol yr AHNE¹⁸.

Nid oes gan y bwrdd cadwraeth unrhyw bwerau uniongyrchol dros gynllunio a datblygu, nid yw'n llunio cynllun lleol, nac yn gwneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio. Mae ganddo ddim cynllunio bach sy'n darparu ymatebion ar ran y bwrdd cadwraeth mewn perthynas â materion yn ymwneud â'r polisi cynllunio a'r broses o reoli datblygu (gan gynnwys apeliadau gorfodi ac ati). Mae tablau trothwyon ymgynghori fel y'u cyhoeddiwyd gan Dirwedd Genedlaethol y Cotswolds¹⁹ yn dangos pa ymgynghoriadau rheoli datblygu (ceisiadau cynllunio ac apeliadau) y maent yn ceisio darparu ymatebion iddynt, a pha mor fanwl yw'r ymateb.

Mae'n rhoi sylwadau fel ymgynghorai ar gynlluniau arfaethedig a cheisiadau cynllunio mawr, ac yn llunio canllawiau ar gyfer perchnogion tai, penseiri a datblygwyr, a all hefyd gynorthwyo cynghorau ac eraill sy'n llunio cynlluniau neu'n gwneud penderfyniadau ar y ffyrdd ymarferol y gellir rheoli datblygiad i warchod neu wella'r Cotswolds.

Felly, mae tîm cynllunio Tirwedd Genedlaethol y Cotswolds yn gweithio'n rheolaidd gydag awdurdodau cynllunio lleol, asiantaethau'r llywodraeth, darparwyr seilwaith, a pherchnogion eiddo unigol mewn rôl gynghori. Mae'n dod â dealltwriaeth drylwyr o gymeriad a sensitifrwydd y dirwedd leol, a'r gallu i ymdopi â newid, fel rhan o'r cyngor y mae'n ei roi ar gynllunio. Mae'n canolbwyntio ar ddylanwadu ar y canlynol:

- Deddfwriaeth a pholisi cenedlaethol: diwygiadau i'r system gynllunio a deddfwriaeth berthnasol arall, newidiadau i'r Fframwaith Polisi Cynllunio Cenedlaethol, a diweddariadau i ganllawiau arferion da Llywodraeth y DU
- Strategaethau rhanbarthol: ar gyfer tai, trafnidiaeth a seilwaith

¹⁸ Y ddyletswydd gyfatebol yng Nghymru yw 'rhoi ystyriaeth', ar gyfer parciau cenedlaethol a thirweddau cenedlaethol.

¹⁹ <https://www.cotswolds-nl.org.uk/wp/wp-content/uploads/2025/02/CNLB-Consultation-Thresholds-tabulated-Oct-2024.pdf>
Adolygiad o'r gwasanaethau cynllunio yng nghyd-destun parc cenedlaethol arfaethedig yng Nghymru – Cyfoeth Naturiol Cymru

- Cynlluniau lleol: mae awdurdodau cynllunio lleol yn llunio cynlluniau statudol ar gyfer datblygiadau cyffredinol, mwynogloddio, ailgylchu / gwaredu gwastraff a darparu trafnidiaeth
- Cynlluniau cymdogaeth: cynlluniau a gynhyrchwyd gan gymunedau unigol
- Cynigion datblygu a cheisiadau cynllunio a chynigion eraill sy'n benodol i safle

Mae prif ganfyddiadau'r cyfweiliad astudiaeth achos â chynrychiolwyr yr awdurdod parc cenedlaethol yn helpu i dynnu sylw at y canlynol:

- a) Pwysigrwydd cynllun rheoli Tirwedd Genedlaethol y Cotswolds, sy'n gynllun statudol, sy'n nodi'r weledigaeth, y canlyniadau a'r polisïau ar gyfer rheoli Tirwedd Genedlaethol y Cotswolds. Fe'i cyhoeddir ar ôl ymgynghori â rhanddeiliaid, gan gynnwys awdurdodau lleol. Mae'r cynllun hwn yn gyfeirbwynt allweddol wrth ymgynghori ar brosesau cynllunio. Mae amryw o ddatganiadau sefyllfa yn ehangu ar y polisïau yn y cynllun rheoli, gan ddarparu canllawiau ychwanegol ar bynciau fel ynni adnewyddadwy, llonyddwch, awyr dywyll, a datblygiad sy'n ystyriol o'r dirwedd. Defnyddir y datganiadau hyn fel cyfeirbwyntiau wrth ymgynghori.
- b) Fel rhan o'i benderfyniadau ynghylch yr hyn y dylid ymwneud ag ef fel ymgynghorai neu barti â buddiannau, y mae wedi cyhoeddi canllawiau ar yr hyn y mae'n cyfeirio ato fel ymgynghoriadau 'trothwy sylfaenol' ac ymgynghoriadau 'trothwy eilaidd'. Yr ymgynghoriadau 'trothwy sylfaenol' yw'r ymgynghoriadau hynny y mae'n ystyried y dylai ymateb iddynt (a chael ei fonitro yn eu herbyn) pe bai'n dod yn ymgynghorai statudol. Mae'r ymgynghoriadau 'trothwy eilaidd' yn gynigion ar raddfa lai a allai dal effeithio'n andwyol ar harddwch naturiol Tirwedd Genedlaethol y Cotswolds, ac mae'n ceisio ymateb i'r rheini pan fo gan ei ddim y gallu i wneud hynny. Mae'n ceisio darparu ymatebion wedi'u teilwra i ymgynghoriadau sydd uwchlaw'r trothwyon ymgynghori sylfaenol tra ei fod yn tueddu i ddarparu ymatebion mwy cyffredinol i ymgynghoriadau sydd uwchlaw'r trothwy ymgynghori eilaidd er mwyn helpu i reoli adnoddau'n gymesur.
- c) Nid yw Tirwedd Genedlaethol y Cotswolds yn ymgynghorai statudol at ddibenion cynllunio, ac eithrio, fel bwrdd cadwraeth, ar gyfer prosiectau seilwaith o arwyddocâd cenedlaethol (o dan Ddeddf Cynllunio 2008); fodd bynnag, i raddau helaeth, mae'r bwrdd cadwraeth o'r farn ei fod yn aml yn cael ei drin gan drydydd partion mewn ffordd debyg i sut y byddai ymgynghorai statudol yn cael ei drin yn y broses gynllunio (er enghraifft, yn aml mae awdurdodau lleol yn ymgynghori ag ef yn rhagweithiol, a rhoddir ystyriaeth briodol i'w ymatebion wrth wneud penderfyniadau).
- d) O ran gorfodi, yn gyffredinol, mae'n cymryd rhan mewn ffordd gyfyngedig ac adweithiol yn unig.
- e) Mae'r graddau y mae'n cymryd rhan mewn apeliadau cynllunio yn amrywio, gan nodi bod yr awdurdod weithiau'n gweithredu fel 'parti rheol 6' (partïon â buddiannau sy'n ymwneud ag ymchwiliad ar gyfer apeliadau cynllunio a cheisiadau a alwyd i mewn yn Lloegr). Yn aml, mae hyn yn cynnwys llunio tystiolaeth fanwl, cael eich croesholi, a chroesholi eraill, a all ddefnyddio llawer o adnoddau awdurdod sydd ag adnoddau cyfyngedig.
- f) Mae cyfle yng nghyd-destun Lloegr, a allai fod yn berthnasol fel gwers i Gymru yng nghyd-destun parc cenedlaethol arfaethedig ac unrhyw berthynas yn y dyfodol â Chyfoeth Naturiol Cymru, sef bod Natural England yn ymgynghorai statudol sy'n aml yn dirprwyo ei sylwadau ymgynghori ei hun i'r bwrdd cadwraeth am gyngor ar effeithiau ar y dirwedd genedlaethol. O ganlyniad, weithiau nid ydynt yn mynegi unrhyw wrthwynebiad i ddatblygiad arfaethedig gydag amod 'yn amodol ar', a all yn aml gael ei ddechongli gan yr awdurdod cynllunio leol fel arwydd nad yw Natural England yn gwrthwynebu ceisiadau y mae'r dirwedd genedlaethol, i'r gwrthwynebu, yn eu gwrthwynebu. Bu achosion pan roddwyd mwy o ystyriaeth i'w datganiad o beidio â gwrthwynebu, fel ymgynghorai statudol, na gwrthwynebiad y bwrdd cadwraeth er nad yw Natural England yn ymgynghorai statudol mewn perthynas â thirweddau cenedlaethol.
- g) Mae'r bwrdd cadwraeth yn monitro (ac yn cynghori yn unol â hynny) ar gyfeiriadau lefel polisi at y dirwedd genedlaethol a'i chynllun rheoli mewn cynlluniau lleol. Y mae hefyd wedi awgrymu sut i eirio

polisi cynllun lleol ar gyfer Tirwedd Genedlaethol y Cotswolds i helpu i hwyluso dull cyson ar gyfer polisïau.

- h) Mae'r bwrdd cadwraeth yn monitro a ydyw'r penderfyniadau a wneir gan awdurdodau lleol, neu arolygwyr cynllunio, ar geisiadau cynllunio ac apeliadau y mae wedi gwneud sylwadau arnynt yn unol â'i gyngor a'i argymhellion. Mae hyn yn ei helpu i werthuso ei rôl a'i berfformiad i ryw raddau, ac mae'r canlyniadau'n ffafriol, o ystyried bod 73% o benderfyniadau ar geisiadau, ar gyfartaledd, wedi cael eu gwneud yn unol â'i gyngor a'i argymhellion dros y pedair blynedd diwethaf. Deuir i'r casgliad bod mewnbwn y bwrdd cadwraeth wedi dylanwadu'n gadarnhaol ar y canlyniadau. Pan nad ystyrir bod penderfyniadau yn unol â'i gyngor a'i argymhellion, priodolir hyn yn aml i'r angen i awdurdodau lleol gydbwysu diffyg yn y cyflenwad o dir sydd ar gael ar gyfer tai yn eu prosesau gwneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau preswyl. Mewn rhai achosion, mae'r bwrdd cadwraeth yn derbyn bod gwahaniaethau mewn barn broffesiynol ynghylch a fyddai unrhyw effeithiau andwyol ar harddwch naturiol y dirwedd genedlaethol a beth fyddai arwyddocâd yr effeithiau andwyol hyn.
- i) Mae'r bwrdd cadwraeth yn monitro a ydyw'r penderfyniadau a wneir ar gynigion rheoli datblygu y mae wedi gwneud sylwadau arnynt yn mynd i'r afael, yn benodol, â'r ddyletswydd statudol i 'geisio hyrwyddo' diben gwarchod a gwella harddwch naturiol y dirwedd genedlaethol. Ar gyfer 2024–2025, dim ond 19% oedd y ffigur hwn, sydd wedi sbarduno'r angen i ymgysylltu'n rhagweithiol ag awdurdodau cynllunio lleol.
- j) Mae gan y bwrdd cadwraeth ddangosydd perfformiad allweddol sy'n gysylltiedig â chynllunio yn seiliedig ar ganran y cynigion, yn uwch na'i drothwyon ymgynghori sylfaenol, y mae'n cael ei ymgynghori'n rhagweithiol arno sy'n cael ymateb o sylwedd erbyn y dyddiad cau gwreiddiol yr ymgynghoriad. Mae'n gosod y dangosydd perfformiad allweddol hwn i helpu i werthuso sut y mae'n perfformio a phe baem yn ymgynghorai statudol. Gall 'ymateb o sylwedd' fod naill ai'n ymateb wedi'i deilwra neu'n ymateb cyffredinol (yn unol ag Erthygl 22 o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Lloegr) 2015). Ar gyfer 2024–2025, y ffigur ar gyfer y dangosydd perfformiad allweddol hwn yw 90%. Yn 2024–2025, darparodd y bwrdd cadwraeth 169 o ymatebion o sylwedd i'r ymgynghoriad (gan gynnwys cynigion trothwy ymgynghori eilaidd), ac roedd 96 ohonynt yn ymatebion wedi'u teilwra.
- k) Mae'r mwyafrif helaeth o'r ymatebion i ymgynghoriadau rheoli datblygu wedi cael eu hysgrifennu a'u cyflwyno gan un aelod o staff sy'n gweithio cyfanswm oriau sy'n cyfateb i ddau ddiwrnod yr wythnos (0.4 cyfwerth ag amser llawn) dan oruchwyliaeth rheolwr cynllunio sy'n gweithio'n llawn amser (un cyfwerth ag amser llawn). Er mwyn cynnal adnoddau a chydnerthedd, mae'n defnyddio diwylliant o hyblygrwydd ar gyfer ymdopi â phwysau llwyth gwaith amrywiol drwy gydol y flwyddyn, er enghraifft, dim ond os bydd angen y gall ymdrin â chynigion trothwy ymgynghori sylfaenol, neu gall ddarparu ymatebion cyffredinol yn hytrach nag ymatebion wedi'u teilwra.
- l) Byddai'r bwrdd cadwraeth yn cefnogi fforwm blynyddol gyda chydweithwyr cynllunio o awdurdodau lleol i drafod materion cynllunio sy'n ymwneud â'r dirwedd genedlaethol, er nad yw hyn wedi'i roi ar waith eto.

5. Crynodeb a'r prif ganfyddiadau

Mae'r adolygiad hwn o'r gwasanaethau cynllunio wedi ystyried y casgliad cynhwysfawr o waith perthnasol blaenorol, sy'n berthnasol, yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol, i ystyried y goblygiadau posibl ar gyfer gwasanaethau cynllunio mewn cysylltiad â pharc cenedlaethol newydd arfaethedig. Mae hyn yn tynnu sylw at bwysigrwydd awdurdodau cynllunio cydnerth sy'n perfformio'n dda, gan nodi bod digon o arian a llywodraethu a rheolaeth effeithiol yn hanfodol ar gyfer llwyddiant unrhyw awdurdod parc cenedlaethol arfaethedig. Ystyrir bod y cynnig i gynyddu ffioedd ceisiadau cynllunio a symud tuag at adennill costau'n llawn yn hanfodol ar gyfer ariannu gweithgareddau cynllunio, ac mae ailgyflwyno'r fframwaith perfformiad i fonitro a gwella perfformiad awdurdodau cynllunio lleol hefyd yn bwysig i sicrhau llwyddiant unrhyw

awdurdod cynllunio parc cenedlaethol newydd. Amlygir cyfleoedd ar gyfer cydlynu rhanbarthol, gan gyfeirio at y cyd-bwyllgorau corfforedig fel awdurdodau newydd a allai helpu i fod o fudd i gydlynu adnoddau a phennu blaenoriaethau strategol. Gellid dehongli bod dynodiad parc cenedlaethol yn arwain at lai o ddatblygiadau a galw am wasanaethau rheoli datblygu o ganlyniad i hyn. Fodd bynnag, mae pwysigrwydd llunio cynlluniau a gwneud penderfyniadau at ddibenion y parc yn gofyn am gyngor ac adnoddau arbenigol ychwanegol.

Mae'r adolygiad hwn o'r gwasanaethau cynllunio wedi elwa ar ymarfer casglu a dadansoddi data (Adran 3), gan roi cipolwg ar y goblygiadau posibl o ran adnoddau a chyllid ar gyfer gwasanaethau cynllunio mewn perthynas â pharc cenedlaethol newydd arfaethedig. I grynhoi:

- O fewn ardal ymgeisiol y parc cenedlaethol, yn ystod y pum mlynedd diwethaf cafwyd bron i 2,000 o geisiadau cynllunio. O'r cyfanswm hwn, mae'r mwyafrif helaeth wedi bod yn fân geisiadau cynllunio, sy'n debyg i Barc Cenedlaethol Eryri, gyda chyfartaledd o 400 i 500 o geisiadau cynllunio y flwyddyn (mân geisiadau cynllunio yn bennaf hefyd).
- Wrth ystyried cyfanswm y ceisiadau cynllunio yn yr ardal ymgeisiol fesul staff cyfwerth ag amser llawn a gyflogir ar gyfer gwasanaethau rheoli datblygu, gweler bod 130 o geisiadau, ar gyfartaledd, fesul aelod o staff cyfwerth ag amser llawn, sy'n cymharu â 44 o geisiadau fesul aelod o staff cyfwerth ag amser llawn yn Eryri.
- Cyfanswm yr incwm a geir o ffioedd blynyddol y ceisiadau cynllunio o fewn yr ardal ymgeisiol yw £487,000 (£122,000, ar gyfartaledd, ar draws yr awdurdodau), sy'n debyg i'r incwm a geir o ffioedd cynllunio blynyddol Parc Cenedlaethol Eryri o £146,000 (gan gydnabod bod ardal ei barc cenedlaethol yn sylweddol fwy o ran maint, a bod y mathau o geisiadau yn bennaf yn fân geisiadau, sydd fel arfer â ffioedd cynllunio is).
- Y gyllideb flynyddol ar gyfartaledd ar gyfer awdurdodau lleol presennol a ddyrannwyd i ddarparu gwasanaethau rheoli datblygu o fewn ardal ymgeisiol y parc cenedlaethol yw £143,000. Ar gyfartaledd, £302,000 yw'r gyllideb ar gyfer gwasanaethau cynllunio ymlaen llaw (polisi cynllunio). Mae hyn yn cymharu â chyllideb Parc Cenedlaethol Eryri o £725,000 ar gyfer rheoli datblygu (gan ystyried incwm gwerth £146,000 o ffioedd) a £283,000 ar gyfer gwaith polisi.
- Mae'r costau blynyddol ar gyfer staff sy'n ymgymryd â gwasanaethau rheoli datblygu yn cyfateb i gyfartaledd o ryw £380,000 ar draws ardaloedd awdurdodau lleol perthnasol, o'i gymharu â £668,000 ym Mharc Cenedlaethol Eryri.
- Y costau amcangyfrifedig ar gyfer trydydd partiön ac ymgynghorwyr sy'n gysylltiedig â'r gwasanaeth rheoli datblygu yw £20,000 y flwyddyn, ar gyfartaledd, ar draws yr ardaloedd awdurdodau lleol perthnasol, o'i gymharu â £50,000 ym Mharc Cenedlaethol Eryri.

Mae'r adolygiad hwn o'r gwasanaethau cynllunio wedi archwilio ac ystyried gyda rhanddeiliaid allweddol amrywiaeth o safbwyntiau gwahanol a barn wahanol ynghylch y goblygiadau posibl ar gyfer gwasanaethau cynllunio mewn cysylltiad â pharc cenedlaethol newydd arfaethedig. At ei gilydd, mae gan rhanddeiliaid deimladau cymysg, yn amrywio o fod yn lled-optimistaidd am y cyfleoedd y gallai dynodiad parc cenedlaethol eu cynnig, i fod yn bryderus am oblygiadau parc cenedlaethol newydd o ran adnoddau, cost a pholisi.

I grynhoi:

- Mae pryderon wedi'u codi ynghylch yr heriau o ran y gyllideb ac adnoddau sy'n wynebu awdurdodau lleol yng Nghymru a thu hwnt, ac mewn perthynas â chyllid ar gyfer parc cenedlaethol newydd a'i effaith ar y gwasanaethau presennol. Ceir barn gymysg ynghylch y golled bosibl o incwm o geisiadau cynllunio a nifer llai o ddatblygiadau yn yr ardal ymgeisiol yn ogystal â dichonoldeb awdurdod cynllunio parc cenedlaethol newydd yn ystod cyfnod o bwysau cynyddol ar ariannu gwasanaethau cyhoeddus, wedi'u hystyried yn erbyn y posibilrwydd o ddenu cyllid ac adnoddau i'r ardal ymgeisiol yn y dyfodol

trwy fwy o dwristiaeth a phroffil gwleidyddol uwch a allai arwain at brosiectau amgylcheddol a chymdeithasol ychwanegol mewn cysylltiad â gwarchod a gwella'r dirwedd.

- Mae pryder hefyd ynghylch prinder cynllunwyr mewn awdurdodau lleol Cymru, yn enwedig y rheini sy'n meddu ar sgiliau Cymraeg. Ystyrir y bydd sefydlu awdurdod cynllunio newydd yng Nghymru ond yn gwaethgu'r heriau presennol o ran adnoddau ac yn creu anghydraddoldebau pellach wrth ddarparu gwasanaethau cynllunio. Mae'r angen am rolau arbenigol mewn parc cenedlaethol yn debygol o gynyddu'r galw am arbenigwyr ar y dirwedd, yr ecoleg a'r amgylchedd hanesyddol, a gallai arwain at ddibynnu'n fwy ar ymgynghorwyr allanol i ymateb i amseroedd o alw uchel am gyngor o'r fath. Gallai parc cenedlaethol newydd arfaethedig roi cyfle i ystyried ymhellach ac ymestyn cydwasanaethau ymhlith awdurdodau lleol, yn ogystal ag ystyried rôl bosibl cyd-bwyllgorau corfforedig mewn cydlynw adnoddau arbenigol rhanbarthol.
- Mae effaith parc cenedlaethol newydd ar gynlluniau datblygu lleol sy'n mynd rhagddynt, a chynlluniau datblygu lleol arfaethedig a'r rheini sy'n eu disodli, yn faes sy'n peri pryder sylweddol. Mae'r awdurdodau presennol yn ystyried bod y gofyniad posibl i adolygu neu ailgychwyn prosesau llunio cynlluniau oherwydd newidiadau i ffiniau yn cynrychioli risg fawr o ran rhaglenni, costau a pholisi. Mae goblygiadau hefyd ar gyfer cynlluniau datblygu strategol arfaethedig, a allai gynnig mantais bosibl, yn amodol ar amseru, oherwydd gallai awdurdod cynllunio parc cenedlaethol newydd lunio cynllun datblygu lleol 'cryno', gan arwain at arbedion o ran amser ac arian sy'n gysylltiedig â hyn. Mae'r effaith ar bolisiau presennol a'r angen am eglurder ynghylch bylchau neu densiynau polisi hyd nes bod cynllun datblygu lleol parc cenedlaethol posibl ar waith, yn un o'r prif ffactorau eraill sy'n peri pryder.
- Ystyrir bod trefniadau a chanllawiau pontio clir ar gyfer awdurdodau lleol, datblygwyr a swyddogion yn hanfodol i fynd i'r afael â bylchau polisi a rheoli gwasanaethau rheoli datblygu yn ystod unrhyw gyfnod pontio. Cyfeiriwyd at enghreifftiau o barciau cenedlaethol eraill fel gwersi i'w dysgu, megis y dull graddol gan Barc Cenedlaethol y Twyni Deheuol i gyflwyno ei bolisiau lleol ei hun dros amser.
- Mae pryderon sylweddol hefyd wedi'u codi ynghylch yr effeithiau y gallai dadleoli eu cael ar dai, cynlluniau ar gyfer cynhyrchu a dosbarthu ynni adnewyddadwy, a gweithgareddau mwyngloddio oherwydd y dynodiad parc cenedlaethol posibl. Pwysleisir bod gan awdurdodau cynllunio lleol a phwyllgorau cynllunio yr adnoddau a'r sgiliau yn y dyfodol i reoli'r effeithiau hyn a gwahanol ofynion drwy gynlluniau lleol a phrosesau gwneud penderfyniadau.

Trafodwyd amryw o fodelau ar gyfer darparu gwasanaethau cynllunio o fewn ardal y dirwedd genedlaethol a'r parc cenedlaethol ymgeisiol, gan gynnwys y trefniadau presennol ar gyfer awdurdodau cynllunio parciau cenedlaethol yng Nghymru, hyd at ddull gwasanaethau dirprwyedig, ac opsiwn ar gyfer bwrdd cadwraeth ymgynghorol. Nid oes consensws ymhlith rhanddeiliaid, gyda barn yn amrywio'n sylweddol o ddewis i gynnal y sefyllfa bresennol a'r dull busnes fel arfer, i gefnogi dynodiad parc cenedlaethol newydd a fyddai'n rhoi pwerau a swyddogaethau newydd i awdurdodau cynllunio lleol. Mae'r adolygiad hwn o'r gwasanaethau cynllunio wedi cynnal dadansoddiad o astudiaeth achos, gan gynnwys trafodaethau â ffocws â rhanddeiliaid allweddol ynghylch modelau cyflawni amgen ar gyfer y gwasanaethau cynllunio, sydd wedi nodi gwersi i'w dysgu sy'n berthnasol i barc cenedlaethol newydd posibl. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- buddion swyddogaeth gynllunio bwrpasol sy'n canolbwyntio ar ddibenion a chanlyniadau'r parc cenedlaethol, gan sicrhau cysondeb a sicrwydd; mae cael un cynllun lleol yn unig, a thim rheoli datblygu pwrpasol, ar gyfer y parc cenedlaethol yn symleiddio'r broses o gymhwyso a dehongli polisiau, ac yn helpu pob rhanddeiliad i ddeall safbwynt y polisi; mae tensiynau yn aml yn codi pan fydd sawl cynllun ar waith, neu pan fydd bylchau mewn polisi
- gall tensiynau godi hefyd pan fydd pwerau ar gyfer gwneud penderfyniadau yn cael eu dirprwyo ar draws gormod o bartion; yn debyg i hyn, gall dryswch ynghylch cyfrifoldebau godi pan fo dull hybrid o wneud penderfyniadau ar draws gwahanol awdurdodau, ond gall dirprwyo helpu i ganolbwyntio adnoddau ar y blaenoriaethau

- yr amrywiad eang rhwng modelau o ran yr adnoddau a'r sgiliau y mae eu hangen; mae angen digon o adnoddau ar awdurdodau cynllunio parciau cenedlaethol ar gyfer rheoli polisi a datblygu yn ogystal â swyddogion gorfodi ochr yn ochr â staff a systemau cefnogol; mae angen arbenigwyr ychwanegol o fewn awdurdodau cynllunio parciau cenedlaethol, gan ganolbwyntio, fel arfer, ar arbenigwyr a all roi cyngor ar dirwedd, treftadaeth ddiwylliannol ac ecoleg, gyda lefelau amrywiol o ran dibynnu ar gefnogaeth ymgynghorwyr neu gydwasanaethau
- nid yw'r heriau ynghlwm wrth recriwtio staff yn gyfyngedig i awdurdodau cynllunio lleol yn unig, ac mae timau cymharol lai yn wynebu heriau o ran gwytnwch, tra gall ffrydiau cyllido pwrpasol helpu i ddenu a chadw talent
- yr heriau o gydlynw â nifer o awdurdodau lleol, yn enwedig pan fydd ganddynt gynlluniau lleol gwahanol, a'u bod yn parhau i fod â systemau gwahanol; mae ymdrechion cydweithredol gydag awdurdodau cyfagos a/neu awdurdodau sy'n lletya yn hanfodol ar gyfer sicrhau cysondeb polisiau, ac wrth wneud penderfyniadau, yn enwedig ar gyfer prosiectau datblygu trawsffiniol

Mae'r prif ganfyddiadau yn cyflwyno amrywiaeth o densiynau a chyfaddawdi posibl y gallai fod angen i CNC eu hystyried. Mae'r rhain yn ymwneud yn bennaf â'r canlynol:

- a) Gallai dynodiad parc cenedlaethol arwain at lai o ddatblygiadau a galw am wasanaethau rheoli datblygu, ac arwain at lai o geisiadau mawr a mwy o fân geisiadau. Mae hyn yn arwain at oblygiadau o ran yr incwm a geir o'r ffioedd cynllunio, sy'n debygol o fod yn is.
- b) Gallai dynodiad parc cenedlaethol ddarparu mwy o eglurder ynghylch polisi a phroses gyson o wneud penderfyniadau, gan gydnabod y bydd trefniadau pontio yn hanfodol i reoli anghysondebau polisi, oedi posibl a bylchau yn ystod y cyfnod o lunio cynlluniau datblygu lleol a mabwysiadu rhai newydd, a fydd yn arwain at gostau ariannol ac o ran amser staff.
- c) Gallai dynodiad parc cenedlaethol arwain at effeithiau dosbarthiadol / dadleoli pan allai fod angen i awdurdodau cyfagos ystyried ac ymateb i alw cynyddol am dai a datblygiad strategol (megis ynni neu gynhyrchion mwynau) y tu allan i ardal y parc cenedlaethol, a/neu reoli'r angen am ddatblygiad o'r fath o fewn ardal y parc cenedlaethol er budd y genedl.
- d) Gallai fod angen cyngor ac adnoddau arbenigol ychwanegol ar barc cenedlaethol, a allai gynyddu'r galw am arbenigwyr cynllunio ac arbenigwyr perthnasol eraill o fewn y rhanbarth presennol a Chymru, lle mae adnoddau eisoes mewn galw ac yn gyfyngedig.
- e) Mae gwahanol fodelau cyflawni yn cynnig gwahanol lefelau o bwerau cynllunio a rheolaethau dros ddatblygiadau yn y dirwedd, wedi'u cydbwysu â gofynion amrywiol o ran adnoddau, cydweithio a chyllid.

Atodiad A – Cofnod ymgysylltu

Y gweithgareddau ymgysylltu â rhanddeiliaid dan sylw:

- **18 trafodaeth archwiliad dwfn un-i-un** ag arweinwyr a gweithwyr proffesiynol allweddol ar draws tirwedd gynllunio Cymru
- **Tair trafodaeth archwiliad dwfn ar astudiaethau achos** wedi'u cynnal â pharciau cenedlaethol Eryri, y Cotswolds a'r Twyni Deheuol

Crynhair isod sefydliadau'r rhanddeiliaid a oedd yn rhan o'r prosiect hwn, ynghyd â manylion y cynrychiolwyr a'r cyfarfodydd.

Cyfweliadau un-i-un

Sefydliad	Cynrychiolydd	Dyddiad y cyfweiliad
Cyngor Gwynedd	Linda Lee, Uwch-swyddog Cynllunio Rebeca Angharad Jones, Rheolwr Polisi Cynllunio	19 Mawrth
Tirweddau Cymru AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy	Dave Williams, Cynghorydd Cynllunio Howard Sutcliffe, Swyddog Arweiniol	24 Mawrth
Cyngor Sir Powys Cyd-bwyllgor Corfforedig y Canolbarth	Y Cynghorydd Jake Berriman	24 Mawrth
Cymdeithas Cynhyrchion Mwynol Cymru	Nick Horsley, Cyfarwyddwr Cynllunio David Harding, Ysgrifennydd	24 Mawrth
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	Chris Smith, Arweinydd Tîm	27 Mawrth
RenewableUK Cymru	Jessica Hooper, Cyfarwyddwr Manon Kynaston, Cyfarwyddwr Cynorthwyol	27 Mawrth
Cyngor Sir Ddinbych	Lara Griffiths, Prif Swyddog Cynllunio Adrian Walls, Rheolwr Gwybodaeth Prifffyrdd	31 Mawrth
Cyswllt Amgylchedd Cymru / Yr Ymgrych dros Barciau Cenedlaethol	Ruth Bradshaw, Rheolwr Polisi ac Ymchwil	1 Ebrill
Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd (Uchelgaais Gogledd Cymru) a Chyngor Sir y Fflint	Alwen Williams, Prif Weithredwr Dros Dro Andy Roberts, Rheolwr y Cynllun Datblygu Strategol Tom Woodhall, Rheolwr Hygyrchedd a'r Amgylchedd Naturiol	1 Ebrill
Natural England	Andrew Baker, Uwch-arbenigwr Amgylcheddol	1 Ebrill
Sefydliad	Cynrychiolydd	Dyddiad y cyfweiliad
Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad Cymru	Sarah James, Cynghorydd Polisi ac Ymgysylltu Fraser Mcauley, Arweinydd Datblygu Polisiau	

Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr	Gwawr Parry, Cynghorydd Sirol Clwyd a Maldwyn	2 Ebrill
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC)	Fiona Clay-Poole, Swyddog Polisi	2 Ebrill
Y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yng Nghymru	Mark Hand, Cyfarwyddwr Cymru, Gogledd Iwerddon a Chymorth Cynllunio Lloegr	4 Ebrill
Undeb Amaethwyr Cymru	Emyr Davies, Swyddog Gweithredol Sirol	8 Ebrill
Cymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru	Tom Evans, Rheolwr Creu Lleoedd a Chynllunio Strategol, Cyngor Abertawe	9 Ebrill
Llywodraeth Cymru	Neil Hemmington, Prif Gynllunydd Mark Newey, Rheolwr y Gangen Cynlluniau	10 Ebrill

Astudiaethau achos

Sefydliad	Cynrychiolydd	Dyddiad y cyfweiliad
Parc Cenedlaethol y Cotswolds	John Mills, Arweinydd Cynllunio	8 Ebrill
Parc Cenedlaethol y Twyni Deheuol	Claire Tester, Rheolwr Polisi Cynllunio	9 Ebrill
Parc Cenedlaethol Eryri	Jonathan Cawley, Prif Swyddog Gweithredol	11 Ebrill

Atodiad B – Cwestiynau ac awgrymiadau i randdeiliaid

Cyfweiliadau un-i-un â rhanddeiliaid

Roedd y cwestiynau a'r awgrymiadau canlynol wedi helpu i strwythuro'r cyfweiliadau un-i-un â rhanddeiliaid:

- 1) Pa gyfranogiad neu fuddiant sydd gan eich sefydliad yn y gwasanaethau cynllunio a ddarperir o fewn ardal ymgeisiol y parc cenedlaethol?
- 2) Beth yw eich barn chi am oblygiadau posibl awdurdod cynllunio parc cenedlaethol ar weithredu a darparu'r gwasanaeth cynllunio ar draws awdurdodau lleol a'r cyd-bwyllgorau corfforedig o fewn ardal ymgeisiol y parc cenedlaethol?

a. Beth yw eich barn chi am y prif heriau a chyfleoedd a gyflwynir gan y parc cenedlaethol arfaethedig a'r ddarpariaeth o wasanaethau cynllunio ymlaen llaw sy'n gysylltiedig ag ef? Yn benodol, gan ystyried y cynlluniau datblygu lleol, y cynlluniau datblygu strategol a'r cynlluniau trafnidiaeth rhanbarthol cyfredol ac arfaethedig.

b. Beth yw eich barn chi am y prif heriau a chyfleoedd a gyflwynir gan y parc cenedlaethol arfaethedig a'r ddarpariaeth o wasanaethau rheoli datblygu sy'n gysylltiedig ag ef?

- c. Beth yw eich barn chi am y prif heriau a chyfleoedd a gyflwynir gan y parc cenedlaethol arfaethedig a'r ddarpariaeth o wasanaethau gorfodi cynllunio sy'n gysylltiedig ag ef?
 - d. A oes gennych chi farn ar yr adnoddau (cyllid a staff) ar gyfer gwasanaeth cynllunio y parc cenedlaethol arfaethedig, ac unrhyw oblygiadau posibl ar draws awdurdodau lleol presennol a'r cyd-bwyllgorau corfforedig?
 - e. A oes unrhyw sgiliau, bylchau neu rolau y credwch y byddai eu hangen ar awdurdod cynllunio parc cenedlaethol newydd nad ydynt ar gael, neu y mae eu hangen, ar hyn o bryd o fewn yr awdurdodau lleol presennol? Ble ydych chi'n ceisio cyngor technegol yn fewnol (e.e. tirwedd, bioamrywiaeth ac ati) ac a oes pryder y gallai hyn gael ei golli i barc cenedlaethol newydd oni ellir rhoi rhyw fecanwaith ar waith i rannu gwasanaethau?
 - f. A oes gennych chi farn ar yr effeithiau dadleoli posibl ar yr ardaloedd nad ydynt o fewn ardal bresennol y dirwedd genedlaethol?
 - g. A oes gennych chi unrhyw syniadau am fodelau ar gyfer darparu gwasanaethau cynllunio, a pha rai allai fod fwyaf priodol ar gyfer y parc cenedlaethol arfaethedig? Yn benodol, gan ystyried y canlynol:
 - i. awdurdod parc cenedlaethol, yn meddu ar bwerau cynllunio llawn, megis Eryri
 - ii. awdurdod parc cenedlaethol, yn meddu ar bwerau cynllunio a rennir pan fo'n gyfrifol am faterion cynllunio a gorfodi o fewn 'ardaloedd a adferwyd' ac yn ildio i awdurdodau lleol eraill mewn 'ardaloedd a ddirprwywyd', fel yn y Twyni Deheuol yn Lloegr
 - iii. ardaloedd o harddwch naturiol eithriadol neu dirweddau cenedlaethol â byrddau cadwraeth pan fo pwerau cynllunio yn nwylo'r awdurdodau lleol cyfansoddol, lle nad oes gan wasanaethau cynllunio bwerau gwneud penderfyniadau, ond maent yn dylanwadu, fel ymgynghoreion, ar gynlluniau arfaethedig a cheisiadau cynllunio mawr, ac yn llunio canllawiau, yn unol â bwrdd cadwraeth Tirwedd Genedlaethol y Cotswolds yn Lloegr
 - h. A oes gennych chi farn ar drefniadau cyfnod pontio posibl?
- 3) A oes gennych chi unrhyw enghreifftiau o arferion da, fel gwersi i'w dysgu, ar gyfer awdurdod cynllunio y parciau cenedlaethol arfaethedig?
 - 4) A oes unrhyw welliannau yn eich barn chi a fyddai'n helpu i wella'r ddarpariaeth o wasanaethau cynllunio o fewn ardal y dirwedd ddynodedig?

Astudiaethau achos

Archwiliodd y cyfweiliadau astudiaeth achos y cwestiynau canlynol hefyd:

- 1) Beth yw eich profiad o sefydlu gwasanaethau cynllunio a/neu gyfrannu at barc cenedlaethol neu fwrdd cadwraeth newydd?
- 2) Pa fodel y mae eich awdurdod yn ei weithredu i ddarparu gwasanaethau cynllunio (cynllunio ymlaen llaw, rheoli datblygu a gorfodi)?
- 3) Beth sy'n gweithio'n dda mewn perthynas â darparu gwasanaethau cynllunio (gan gynnwys enghreifftiau o arferion da)?
- 4) Beth sydd ddim yn gweithio crystal mewn perthynas â darparu gwasanaethau cynllunio / pa rwysterau sy'n bodoli i ddarparu gwasanaethau cynllunio yn effeithiol?
- 5) A oes unrhyw welliannau y credwch y byddent yn helpu i wella'r modd y darperir gwasanaethau cynllunio?
- 6) Pa adnoddau y mae eu hangen arnoch i ddarparu gwasanaethau cynllunio, a sut y gallai hynny fod yn wahanol i awdurdod cynllunio lleol y tu allan i barc cenedlaethol neu AHNE?
- 7) A ydych chi'n wynebu heriau o ran adnoddau, ac os felly, sut?

Adolygiad o'r gwasanaethau cynllunio yng nghyd-destun parc cenedlaethol arfaethedig yng Nghymru –

Cyfoeth Naturiol Cymru

8) Beth yw eich barn chi am brif effeithiau’r parc cenedlaethol / AHNE ar eu hawdurdodau lleol, a sut ydych chi’n gweithio gyda nhw i liniaru ar yr effeithiau hynny neu eu datrys?

Atodiad C – Taflen ddata

Atodiad D – Organogram cynllunio Parc Cenedlaethol y Twyni Deheuol

Commented [JG2]: Here is the translation of the organizational chart into Welsh.

Cyfarwyddwr Cynllunio
Director of Planning
Rheolwr Datblygu
Development Manager
* Arweinydd Rheoli Datblygu (Lewes)
Development Management Lead (Lewes)
* Arweinydd Rheoli Datblygu (Dwyrain)
Development Management Lead (East)
* Prif Swyddog Rheoli Datblygu
Principal Development Management Officer
* Uwch Swyddog Rheoli Datblygu
Senior Development Management Officer
* Swyddog Rheoli Datblygu
Development Management Officer
* Swyddog Rheoli Datblygu
Development Management Officer
* Swyddog Rheoli Datblygu
Development Management Officer
* Arweinydd Rheoli Datblygu (Gorllewin)
Development Management Lead (West)
* Prif Swyddog Rheoli Datblygu
Principal Development Management Officer
* Uwch Swyddog Rheoli Datblygu
Senior Development Management Officer
* Swyddog Rheoli Datblygu
Development Management Officer
* Arweinydd Rheoli Datblygu
Development Management Lead
* Swyddog Monitro a Gorfodi (M&W)
Monitoring and Enforcement Officer (C&G)
* Swyddog Gorfodi
Enforcement Officer
* Swyddog Gorfodi
Enforcement Officer
Rheolwr Prosiectau a Pherfformiad Cynllunio Mawr
Major Planning Projects and Performance Manager
* Arweinydd Prosiectau Mawr
Major Projects Lead
* Swyddog Prosiectau Cynllunio Mawr
Major Planning Projects Officer
* Swyddog Prosiectau Cynllunio
Planning Project Management Officer
* Swyddog Trafnidiaeth
Transport Officer
* Swyddog Cynllunio Dinasyddion
Cit. Planning Officer
* Prif Swyddog Cynllunio (NSIP)
Principal Planning Officer (NSIPs)
* Arweinydd Arbenigol
Specialist Lead
* Swyddog Dylunio
Design Officer
* Swyddog Tirwedd
Landscape Officer
* Swyddog Cadwraeth
Conservation Officer
* Swyddog Cadwraeth
Conservation Officer
* Prif Swyddog Cyswllt Cynllunio
Principal Planning Link Officer
Rheolwr Polisi Cynllunio
Planning Policy Manager
* Arweinydd Polisi Cynllunio
Planning Policy Lead
* Uwch Swyddog Polisi Cynllunio

